# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 16/07/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol
Statement: The Legislative Programme

Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013
Universal Credit (Consequential Provisions) (Childcare, Housing and Transport) (Wales) Regulations 2013

Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14
First Supplementary Budget 2013-14

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 5.45 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 5.45 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

17:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Cynlluniau i Adfywio Canol De Cymru

### Regeneration Plans in South Wales Central

17:45

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r cynlluniau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru i adfywio rhanbarth Canol De Cymru? OAQ(4)1197(FM)*

*1. Will the First Minister outline the Welsh Government's upcoming regeneration plans in the South Wales Central region? OAQ(4)1197(FM)*

17:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. South Wales Central is set to benefit from major infrastructure and other investment over the next few years. In addition, all the local authorities in the region are competing for a share of up to £90 million of targeted investment, which is available through our regeneration framework, 'Vibrant and Viable Places'.

Gwnaf. Mae Canol De Cymru yn mynd i elwa o seilwaith mawr a buddsoddiad arall dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Hefyd, mae pob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn cystadlu am gyfran o hyd at £90 miliwn o fuddsoddiad wedi ei dargedu, sydd ar gael trwy ein fframwaith adfywio, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'.

17:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. Last week the Minister for Economy, Science and Transport made a statement about transport projects, and I welcome the two projects that she identified in South Wales Central: improvements to the five-mile lane, but, more importantly, the eastern distributor road, which would regenerate the eastern side of Cardiff. The word 'progress' was used about taking that project forward. Can you enlighten me today as to what the Welsh Government means by progressing that? Does it mean progressing it to completion or just progressing it to feasibility studies and other parts of the ancillary work that would be required to develop that road?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Gwnaeth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddatganiad ar brosiectau trafnidiaeth yr wythnos diwethaf, ac rwy'n croesawu'r ddau brosiect a nodwyd ganddi ar gyfer Canol De Cymru: gwelliannau i'r lôn bum milltir, ond, yn bwysicach, y ffordd ddosbarthu ddwyreiniol, a fyddai'n adfywio ochr ddwyreiniol Caerdydd. Defnyddiwyd y gair 'cynnydd' ynglŷn â bwrw ymlaen â'r prosiect hwnnw. A allwch chi egluro i mi heddiw yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu drwy wneud cynnydd â hynny? A yw'n golygu gwneud cynnydd i'w chwblhau neu ddim ond gwneud cynnydd hyd at astudiaethau dichonoldeb a rhannau eraill o'r gwaith ategol y byddai'n rhaid ei wneud i ddatblygu'r ffordd honno?

17:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The ultimate aim, of course, is to progress it to completion, but there are numerous stages that it would have to be taken through before then, and we would have to make an assessment of the financial situation when a call is made on the Welsh Government's budget.

Y nod yn y pen draw, wrth gwrs, yw gwneud cynnydd i'w chwblhau, ond ceir nifer o gamau y byddai'n rhaid iddi fynd drwyddynt cyn hynny, a byddai'n rhaid i ni wneud asesiad o'r sefyllfa ariannol pan wneir penderfyniad ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

17:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, an article in today's 'Financial Times' reports on the emerging trend of peer-to-peer lending in the wake of the major banks' reluctance to provide finance. Typically, peer-to-peer lending is arranged through a website, which develops partnerships between investors and individuals or businesses that are in need of cash. The 'Financial Times' reports that this is a growing market. Unfortunately, but perhaps not surprisingly, London and the south-east is where most of the lending and borrowing seem to take place. First Minister, will your Government provide support and encouragement for peer-to-peer lending and other forms of non-traditional finance, such as mutual or non-profit co-operatives, in order to boost business and regeneration in South Wales Central?

Brif Weinidog, mae erthygl yn y 'Financial Times' heddiw yn adrodd ar y duedd sy'n dod i'r amlwg o fenthyca rhwng cymheiriaid yn sgil amharodrwydd y banciau mawr i ddarparu cyllid. Yn nodweddiadol, trefnir benthyca rhwng cymheiriaid trwy wefan, sy'n datblygu partneriaethau rhwng buddsoddwyr ac unigolion neu fusnesau sydd angen arian parod. Mae'r 'Financial Times' yn adrodd bod hon yn farchnad sy'n tyfu. Yn anffodus, ond efallai nad yw'n peri syndod, Llundain a de-ddwyrain Lloegr yw lle mae'n ymddangos y mae rhan fwyaf o'r benthyg a benthyca yn digwydd. Brif Weinidog, a wnaiff eich Llywodraeth ddarparu cefnogaeth ac anogaeth i fenthyca rhwng cymheiriaid a mathau eraill o gyllid nad ydynt yn draddodiadol, fel cwmnïau cydweithredol cydfuddiannol neu ddielw, er mwyn rhoi hwb i fusnes ac adfywio yng Nghanol De Cymru?

17:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we will. We want to see what we can do to support more novel, yet safe, forms of lending. We have shown, through our support for credit unions across Wales and in South Wales Central, that there are alternatives to the loan sharks and the pay-day loan companies. At times when people find it difficult to make ends meet, we should look to see what we can do to support the kind of lending that the leader of Plaid Cymru has alluded to.

Gwnawn, mi wnawn. Rydym ni eisiau gweld beth y gallwn ni ei wneud i gefnogi ffyrdd mwy newydd, ond diogel, o fenthyca. Rydym ni wedi dangos, drwy ein cefnogaeth i undebau credyd ledled Cymru ac yng Nghanol De Cymru, bod dewisiadau ar gael yn hytrach na benthycwyr arian didrwydded a'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Mewn cyfnod pan fo pobl yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, dylem edrych i weld beth y gallwn ni ei wneud i gefnogi'r math o fenthyca y mae arweinydd Plaid Cymru wedi cyfeirio ato.

## Cofrestru Pleidleiswyr Unigol

## Individual Voter Registration

17:48 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglyn â rhoi trefn cofrestru pleidleiswyr unigol ar waith yng Nghymru? OAQ(4)1190(FM)*

*2. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the implementation of individual voter registration in Wales? OAQ(4)1190(FM)*

17:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have been in correspondence with the UK Government on the implementation of individual electoral registration and our officials are in regular contact with those from Cabinet Office and the Electoral Commission.

Rydym ni wedi bod yn gohebu â Llywodraeth y DU ar sefydlu cofrestru etholiadol unigol ac mae ein swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhai o Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Etholiadol.

17:48 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Electoral Reform Society has warned that young people and voters of all ages in Wales will be disadvantaged, potentially, by individual voter registration being brought in by the UK Government. That is going to happen in June next year, when people will be required to register individually rather than by household across England and Wales. I am very concerned that Wales will be left high and dry by the UK Government in this, as councils report directly to the UK Government on this matter, not to the Welsh Government, there is no funding attached to it, and councils charged with rolling out IVR are not subject to some of the guidance that is being released for councils in England. I think it is one of those areas where it has forgotten that there is some devolution involved. So, I am very worried that individual voter registration will cause a lot of young people to fall off the register anyway and that that will be exacerbated in Wales by the position taken by the UK Government. I wonder, First Minister, whether there is anything that we can do about it.

Mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol wedi rhybuddio y bydd pobl ifanc a phleidleiswyr o bob oed yng Nghymru yn cael ei rhoi dan anfantais, o bosibl, trwy i Lywodraeth y DU gyflwyno cofrestru pleidleiswyr unigol. Mae hynny'n mynd i ddigwydd ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf, pan fydd yn ofynnol i bobl gofrestru yn unigol yn hytrach na fesul cartref ledled Cymru a Lloegr. Rwy'n bryderus iawn y bydd Cymru'n cael ei gadael ar y clwt gan Lywodraeth y DU o ran y mater hwn, gan y bydd cynghorau yn atebol i Lywodraeth y DU yn uniongyrchol ar y mater hwn, nid i Lywodraeth Cymru, nid oes unrhyw gyllid yn gysylltiedig ag ef, ac nid yw cynghorau sy'n gyfrifol am gyflwyno Cofrestru Pleidleiswyr Unigol yn ddarostyngedig i rai o'r canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer cynghorau yn Lloegr. Rwy'n credu bod hwn yn un o'r meysydd hynny lle mae wedi anghofio bod rhywfaint o ddatganoli dan sylw. Felly, rwy'n bryderus iawn y bydd cofrestru pleidleiswyr unigol yn achosi llawer o bobl ifanc i beidio â bod ar y gofrestr beth bynnag ac y bydd hynny'n cael ei waethygu yng Nghymru gan y safbwynt a gymerwyd gan Lywodraeth y DU. Tybed, Brif Weinidog, a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud am hyn?

17:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think the analysis that the Member gave is correct. It is inevitable that there will be those who will drop off the register. It is not clear why this is being introduced—it is not as if there is an enormous problem with electoral fraud. Certainly, there are other countries, and, indeed, other parts of the UK across the water, where that has been a problem traditionally—certainly in the past.

Rwy'n meddwl bod y dadansoddiad a roddwyd gan yr Aelod yn gywir. Mae'n anochel y bydd rhai yn peidio â bod ar y gofrestr. Nid yw'n glir pam mae hyn yn cael ei gyflwyno—nid yw fel pe byddai problem enfawr gyda thwyll etholiadol. Yn sicr, ceir gwledydd eraill, ac, yn wir, rhannau eraill o'r DU ar draws y dŵr, lle mae hynny wedi bod yn broblem yn draddodiadol—yn sicr yn y gorffennol.

However, I do share her concern that young people will find themselves in a position where they will not be able to vote. Our position, as a Government, has been made clear to the Silk commission in terms of what we believe the Assembly's powers should be with regard to the local government franchise, local government elections, and the Assembly's expressed view in terms of its desire to control the terms of Assembly elections.

Fodd bynnag, rwyf yn rhannu ei phryder y bydd pobl ifanc yn darganfod eu hunain mewn sefyllfa lle na fyddant yn cael pleidleisio. Mae ein safbwynt ni, fel Llywodraeth, wedi cael ei wneud yn eglur i gomisiwn Silk o ran yr hyn yr ydym ni'n ei gredu y dylai pwerau'r Cynulliad fod o ran yr etholfraint llywodraeth leol, etholiadau llywodraeth leol, barn gyhoeddus y Cynulliad o ran ei ddymuniad i reoli telerau etholiadau'r Cynulliad.

17:50 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the moves to actually introduce individual electoral registration will be a vital step in terms of voter confidence, it will seek to prevent previous electoral fraud—[Interruption.]—and will increase voter confidence. Can I just address the point that Julie James—

Brif Weinidog, bydd y camau i gyflwyno cofrestru etholiadol unigol mewn gwirionedd yn gam hanfodol o ran hyder pleidleiswyr, bydd yn ceisio atal twyll etholiadol blaenorol—[Torri ar draws.]—a bydd yn cynyddu hyder pleidleiswyr. A gaf i fynd i'r afael â'r pwynt a wnaeth Julie James—

17:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, you cannot. I am sorry; you cannot address the point. Ask your question.

Na chewch. Mae'n ddrwg gennyf; ni chewch fynd i'r afael â'r pwynt. Gofynnwch eich cwestiwn.

17:50 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Funding will be coming across from the Cabinet Office for every local authority in order to assist with consultation, engagement and ensuring that there is a good roll-out of this. What are you doing, as a Government, to ensure that there is good consultation and engagement on this?

Bydd y cyllid yn dod o Swyddfa'r Cabinet i bob awdurdod lleol er mwyn cynorthwyo gydag ymgynghori, ymgysylltu a sicrhau bod hyn yn cael ei gyflwyno'n dda. Beth ydych chi'n ei wneud, fel Llywodraeth, i sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu da ar hyn?

17:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is not a matter within devolved competence, of course. I think that the Member overdoes the case for individual registration. If we had seen elections where there had been widespread electoral fraud, or elections where it was suggested that seats had changed hands as a result of that fraud, the case would be far stronger. However, that is certainly not the case. We have had a system that has worked well for many years, and it has ensured that people are registered to vote. I see no reason—nor do we, as a Government, as a whole—to change a system that has worked so well for so long.

Nid yw'n fater sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, wrth gwrs. Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn gor-ganmol yr achos dros gofrestru unigol. Pe byddem wedi gweld etholiadau lle bu twyll etholiadol eang, neu etholiadau lle yr awgrymwyd bod seddi wedi newid dwylo o ganlyniad i'r twyll hwnnw, byddai'r achos yn llawer cryfach. Fodd bynnag, mae'n sicr nad yw hynny'n wir. Mae gennym system sydd wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer, ac mae wedi sicrhau bod pobl yn cael eu cofrestru i bleidleisio. Ni welaf unrhyw reswm—ac ni welwn unrhyw reswm fel Llywodraeth, yn ei chyfanrwydd—i newid system sydd wedi gweithio mor dda am gyhyd.

17:51 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rhannaf eich consyrn ynglŷn â'r cynnig hwn. Nid wyf yn credu ei fod yn rhywbeth sydd ei angen yng Nghymru. Fel y dywedoch yn gynharach, nid oes tystiolaeth o dwyll etholiadol. Onid ein cyfrifoldeb ni, yn fwy na cheisio sicrhau bod pobl yn cofrestru, a chyda'r her fawr sy'n ei'n wynebu, yw ceisio sicrhau bod pobl yn pleidleisio ac yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd? Onid lle Llywodraeth Cymru, ac, yn wir, y sefydliad hwn, yw ceisio annog pobl i bleidleisio ac i gymryd rhan yn y broses honno, fel y gwnaethom yn llwyddiannus iawn gyda'r refferendwm ychydig flynyddoedd yn ôl?

First Minister, I share your concern about this proposal. I do not think that it is something that we require in Wales. As you said earlier, there is no evidence of electoral fraud. Is it not our responsibility, more than trying to ensure that people register, and with the great challenge facing us, to try to ensure that people vote and participate in the democratic process? Is it not the role of the Welsh Government, and indeed this institution, to try to encourage people to vote and to participate in that process, as we successfully did with the referendum a few years ago?

17:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad, fel ar bob plaid wleidyddol, wrth gwrs, i sicrhau bod pobl yn cofrestru. Rwy'n siŵr y bydd y pleidiau yn edrych i wneud hynny dros y blynyddoedd i ddod er mwyn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn cofrestru. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben fod pobl yn pleidleisio. Rydym fel gwleidyddion i gyd yn gwybod nad yw hynny wastad yn rhywbeth rhwydd i'w wneud. Y pryder yw ein bod yn symud tuag at sefyllfa, efallai mewn degawd neu fwy, lle mai lleiafrif fydd yn pleidleisio fel rheol. Mae hynny, wrth gwrs, yn gwanhau ein democratiaeth ni yng Nghymru a hefyd yng ngweddill Prydain.

Every organisation has a responsibility, as do all political parties, of course, to ensure that people register. I am sure that parties will look to doing so over the next few years to help local authorities to ensure that people register. However, it is very important that people do vote. We all know, as politicians, that that is not always easy. The concern is that we are moving towards a situation, perhaps in a decade or more, where it will be the minority that votes regularly. That weakens democracy in Wales and across the rest of Britain.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams sydd gyntaf y prynhawn yma.

17:53 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Wales Audit Office today produced a report on NHS finances. It stated that savings made are one-off and unsustainable, that further financial pressure was piled onto the Welsh NHS because there were unfunded commitments from the Welsh Government's manifesto and programme for government, and that waiting times for planned treatments and emergency care have deteriorated significantly over the last three years. Which of those findings by the Wales Audit Office are you most ashamed of?

Brif Weinidog, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar gyllid y GIG heddiw. Roedd yn nodi bod yr arbedion a wnaed yn rhai untro ac anghynaliadwy, bod pwysau ariannol pellach yn pentyrru ar y GIG yng Nghymru gan fod ymrwymiadau heb eu hariannu o faniffesto a rhaglen ar gyfer llywodraethu Llywodraeth Cymru, a bod amseroedd aros ar gyfer triniaethau a gynlluniwyd a gofal brys wedi dirywio'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Pa un o'r canfyddiadau hynny gan Swyddfa Archwilio Cymru y mae gennych y mwyaf o gywilydd ohono?

17:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will, of course, look very carefully at those findings. There are three aspects to the Wales Audit Office report. The leader of the Liberal Democrats has already alluded to one. However, it also mentions the fact that there is a declining block grant coming from the UK Government and how difficult it is, therefore, to maintain services in that context. It also states that there is a need for the NHS to change. That, of course, is why a process of reconfiguration is being taken through at the moment.

Byddwn, wrth gwrs, yn edrych yn ofalus iawn ar y canfyddiadau hynny. Ceir tair agwedd ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyfeirio at un eisoes. Fodd bynnag, mae hefyd yn sôn am y ffaith fod grant bloc gostyngol yn dod gan Lywodraeth y DU a pha mor anodd yw hi, felly, i gynnal gwasanaethau yn y cyd-destun hwnnw. Mae hefyd yn nodi bod angen i'r GIG newid. Dyna, wrth gwrs, pam mae proses o ad-drefnu yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd.

17:54 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no clarity whatsoever that reconfiguration plans will deliver any savings. Your Government's department has been asked to go back to look at them and provide that clarity. The audit office report also states that there was a notable reduction in planned surgery in the last quarter of 2012-13 as local health boards stopped work in order to meet financial pressures. First Minister, why do you think that it is acceptable that people should have their operations cancelled or postponed because they have inconveniently required treatment in the last financial quarter?

Nid oes eglurder o gwbl y bydd cynlluniau ad-drefnu yn cynnig unrhyw arbedion. Gofynnwyd i adran eich Llywodraeth fynd yn ôl i edrych arnyn nhw a darparu'r eglurder hwnnw. Mae adroddiad y swyddfa archwilio yn nodi hefyd y bu gostyngiad sylweddol i lawdriniaeth a gynlluniwyd yn ystod chwarter olaf 2012-13 wrth i fyrddau iechyd lleol roi'r gorau i weithio er mwyn ymateb i bwysau ariannol. Brif Weinidog, pam ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol y dylai llawdriniaethau pobl gael eu canslo neu eu gohirio gan fod angen triniaeth arnynt, yn anghyfleus, yn ystod y chwarter ariannol olaf?

17:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is not the case. First, let me say that someone from the Wales Audit Office—a representative—said on the radio this morning that it was hard to see how the NHS could carry on as it was, and that it needed to change. That is quite clear, and we agree. That is why the process has been taken forward. It is right to say that there have been substantial pressures on the NHS during the course of the winter. Inevitably, when those pressures occur, this leads to cancelled operations—'postponed operations' is probably a better description of that situation. The Minister for Health and Social Services is fully aware of that and of the need to study carefully the findings of the report, with a view to ensuring that the service looks to improve continually in the future.

Nid yw hynny'n wir. Yn gyntaf, gadewch i mi ddweud bod rhywun o Swyddfa Archwilio Cymru—cynrychiolydd—wedi dweud ar y radio y bore yma ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r GIG barhau fel yr oedd, a bod angen iddo newid. Mae hynny'n eithaf clir, ac rydym yn cytuno. Dyna pam mae'r broses wedi cael ei datblygu. Mae'n iawn i ddweud y bu pwysau sylweddol ar y GIG yn ystod y gaeaf. Yn anochel, pan fydd y pwysau hwnnw'n codi, mae hyn yn arwain at ganslo llawdriniaethau—mae'n debyg bod 'llawdriniaethau wedi'u gohirio' yn ddisgrifiad gwell o'r sefyllfa honno. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwbl ymwybodol o hynny ac o'r angen i astudio canfyddiadau'r adroddiad yn ofalus, gyda'r bwriad o sicrhau mai nod y gwasanaeth fydd gwella'n barhaus yn y dyfodol.

17:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, perhaps you should study carefully the findings of the report. It says that, while there were undoubtedly large pressures put on the NHS, that does not explain or take away the fact that hospitals were routinely cutting back on elective work to meet financial pressures. As well as the Minister for health looking at the report, I urge you to do the same. It says that there has also been a deterioration in performance in emergency care. All of the reconfiguration programmes to date will result in further bed losses. The report says that there needs to be a better understanding by you and your Government of the impact that reducing beds has on meeting your own targets. Is it not inevitable, if there are further bed losses as a result of reconfiguration, that that will mean that more people will wait even longer in accident and emergency departments and even longer in the back of ambulances parked outside them?

Brif Weinidog, efallai y dylech chi astudio canfyddiadau'r adroddiad yn ofalus. Mae'n dweud, er bod nad oes amheuaeth y rhoddwyd pwysau mawr ar y GIG, nad yw hynny'n egluro nac yn cael gwared ar y ffaith bod ysbytai yn torri yn ôl ar waith dewisol fel mater o drefn oherwydd pwysau ariannol. Yn ogystal â'r Gweinidog iechyd yn edrych ar yr adroddiad, rwy'n eich annog chithau i wneud yr un peth. Mae'n dweud y bu dirywiad hefyd i berfformiad ym maes gofal brys. Bydd pob un o'r rhaglenni ad-drefnu hyd yma yn arwain at fwy o golli gwelyau. Mae'r adroddiad yn dweud bod angen cael gwell dealltwriaeth gennych chi a'ch Llywodraeth o'r effaith y mae lleihau nifer y gwelyau yn ei chael ar gyrraedd eich targedau eich hun. Onid yw'n anochel, os collir rhagor o welyau o ganlyniad i'r ad-drefnu, y bydd hynny'n golygu y bydd mwy o bobl yn aros yn hwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac yn treulio hyd yn oed mwy o amser yng nghefn ambiwlansys wedi eu parcio y tu allan iddynt?

17:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are two issues here. First, of course it is right that, as a Government, we allocate resources around the Government. However, secondly, we cannot spend what we do not have. That is exactly what the UK Government is doing. We have seen another 2% cut in revenue with the comprehensive spending review. We will have to wrestle with that. In terms of how the health service is shaped in the future, I grant the Member that one of the problems has been the requirement in primary legislation that LHBs should come in within budget in the course of a financial year. That is too much of a constraint. That is why we will be taking forward legislation to move to a three-year cycle, which will make it far easier for them to plan their finances over a longer period of time. I think that that will be in the best interests of patients. We will see better results as a consequence of that.

Ceir dau fater yma. Yn gyntaf, wrth gwrs, mae'n iawn ein bod ni, fel Llywodraeth, yn dyrannu adnoddau o amgylch y Llywodraeth. Fodd bynnag, yn ail, ni allwn wario'r hyn nad oes gennym. Dyna'n union y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Rydym ni wedi gweld toriad arall o 2% mewn refeniw gyda'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Bydd yn rhaid i ni ymdopi â hynny. O ran sut y bydd y gwasanaeth iechyd yn cael ei lunio yn y dyfodol, rwy'n cytuno â'r Aelod mai un o'r problemau fu'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol y dylai BILlau fod o fewn eu cyllidebau yn ystod blwyddyn ariannol. Mae hynny'n ormod o gyfyngiad. Dyna pam y byddwn yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth i symud i gylch tair blynedd, a fydd yn ei gwneud yn llawer haws iddyn nhw gynllunio eu cyllid dros gyfnod hwy o amser. Rwy'n meddwl y bydd hynny er lles gorau cleifion. Byddwn yn gweld canlyniadau gwell o ganlyniad i hynny.

17:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

17:57 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in the light of the Betsi Cadwaladr report that was brought forward by the Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales, do you not think that it is time for a Keogh report here in Wales?

Brif Weinidog, yng ngoleuni adroddiad Betsi Cadwaladr a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, onid ydych chi'n meddwl ei bod yn bryd cael adroddiad Keogh yma yng Nghymru?

17:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac ydw.

17:57 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Frankly, I am astounded by your simplistic answer. The report that we had today on the Welsh health service from the Wales Audit Office clearly indicates that one in five patients wait more than six months for a start. Health boards have a reduced activity rate because of the budget constraints that they face. You talked about winter pressure in response to the leader of the Welsh Liberal Democrats. Every report has clearly identified that health boards have juggled waiting lists to meet the financial targets that have been placed on them. Yesterday, in your press conference, you said that you would seek to put an appropriate level of funding into health. Given that successive reports have identified how patients and families have had operations cancelled, and that you have identified that there is a shortfall in the health budget, what do you consider to be an appropriate level of funding for the Welsh NHS?

Mae eich ateb syml yn fy syfrdanu, ydy wir. Mae'r adroddiad a gawsom ni heddiw ar wasanaeth iechyd Cymru gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos yn eglur bod un o bob pum claf yn aros mwy na chwe mis i ddechrau. Mae gan fyrddau iechyd gyfradd gweithgarwch is oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol maen nhw'n eu hwynebu. Soniasoch am bwysau'r gaeaf wrth ymateb i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae pob adroddiad wedi nodi'n eglur bod byrddau iechyd wedi jyglo rhestrau aros i fodloni'r targedau ariannol a orfodwyd arnynt. Ddoe, yn eich cynhadledd i'r wasg, dywedasoch y byddech yn ceisio rhoi lefel briodol o gyllid i iechyd. O gofio bod adroddiadau olynol wedi nodi sut y canslwyd llawdriniaethau cleifion a theuluoedd, a'ch bod chi wedi nodi bod diffyg yn y gyllideb iechyd, beth yw'r lefel briodol o gyllid ar gyfer y GIG yng Nghymru yn eich barn chi?

17:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will make two points. First, as I said, moving to a three-year financial cycle will certainly assist. Secondly, we are looking carefully at what may need to be done in the future with regard to financing the NHS. We do not accept that there is a funding shortfall of anything between £538 million and £814 million, which are estimates that have emanated from the benches opposite.

Hoffwn wneud dau bwynt. Yn gyntaf, fel y dywedais, bydd symud i gylch ariannol tair blynedd yn sicr o gymorth. Yn ail, rydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn y gallai fod angen ei wneud yn y dyfodol o ran ariannu'r GIG. Nid ydym yn derbyn bod diffyg cyllid o unrhyw beth rhwng £538 miliwn a £814 miliwn, sy'n amcangyfrifon sydd wedi deillio o'r meinciau gyferbyn.

17:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is quite clear that there is a funding shortfall. All of the figures that we have put to you have stood up to scrutiny from all independent parties. You yourself have identified that you need to put a more appropriate level of funding into the Welsh NHS. Today's report by the Wales Audit Office and the report by the WAO and the health inspectorate, which have identified health board failings over the last couple of months, have identified the juggling of financial resources, the cancellation of operations and growing waiting lists in our hospitals. How would you feel if one of your family members had their operation cancelled because of the financial pressure that your Government has placed on the Welsh NHS?

Mae'n gwbl eglur bod diffyg cyllid. Mae pob un o'r ffigurau yr ydym ni wedi eu rhoi i chi gwrthsefyll craffu gan yr holl bartïon annibynnol. Rydych chi eich hun wedi nodi bod angen i chi roi lefel fwy priodol o arian i mewn i'r GIG yng Nghymru. Mae'r adroddiad heddiw gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaeth iechyd, sydd wedi nodi methiannau byrddau iechyd yn ystod y mis neu ddau diwethaf, wedi nodi jyglo adnoddau ariannol, canslo llawdriniaethau a rhestrau aros sy'n cynyddu yn ein hysbytai . Sut y byddech chi'n teimlo pe byddai llawdriniaeth un o aelodau eich teulu yn cael ei chanslo oherwydd y pwysau ariannol y mae eich Llywodraeth wedi ei roi ar y GIG yng Nghymru?

17:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would say to people that, while things have been difficult over the winter, at least we have an NHS. The editor of 'The Lancet', writing only this week, said that the appalling truth is that the Health and Social Care Act 2012 marked the end of the NHS in England. That is the reality of the situation. The Member says that his figures have stood up to scrutiny. Which figures? We have heard so many different figures that it is very difficult to scrutinise them at all, because they are completely unfounded on any basis of fact. They are not based on any robust analysis. They seem to make them up as they go along.

Byddwn yn dweud wrth bobl, er bod pethau wedi bod yn anodd yn ystod y gaeaf, o leiaf mae gennym ni GIG. Dywedodd golygydd 'The Lancet' yr wythnos hon ddiwethaf, mai'r gwirionedd echrydus yw bod Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 wedi dynodi diwedd y GIG yn Lloegr. Dyna wirionedd y sefyllfa. Mae'r Aelod yn dweud bod ei ffigurau wedi gwrthsefyll craffu. Pa ffigurau? Rydym ni wedi clywed cymaint o wahanol ffigurau fel ei bod yn anodd iawn craffu arnynt o gwbl, gan nad ydynt wedi eu seilio ar unrhyw ffeithiau. Nid ydynt yn seiliedig ar unrhyw ddadansoddiad cadarn. Mae'n ymddangos eu bod yn eu tynnu o'r awyr wrth iddynt fynd yn eu blaenau.

The leader of the opposition is fond of saying that these are figures that are based on robust evidence; I do not know which figures they are. Secondly, they never say where the money will come from. They never say. We know that they have said in all honesty that there would be a 20% cut in education. They have said that; we have heard it. There would be a 12% cut to local government, and all worked out as an alternative budget, which most of us would call a press release—it was one side, if I remember rightly. We are ensuring in very difficult times that we are examining the finances of the NHS in order to make sure that we deliver a service to the people of Wales that is not a privatised service. Today, we hear news in England of hospitals that are failing under the stewardship of the Conservative Party. There are special measures there. There are £20 billion-worth of cuts taking place in England. We will not impose that level of cuts in Wales.

Mae arweinydd yr wrthblaid yn hoff o ddweud bod y rhain yn ffigurau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn; nid wyf yn gwybod pa ffigurau ydyn nhw. Yn ail, nid ydyn nhw byth yn dweud o ble fydd yr arian yn dod. Dydyn nhw byth yn dweud. Rydym ni'n gwybod eu bod wedi dweud yn onest y byddai toriad o 20% ym maes addysg. Maen nhw wedi dweud hynny; rydym ni wedi ei glywed. Byddai toriad o 12% i lywodraeth leol, a'r cwbl wedi ei gyfrifo fel cyllideb amgen, y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei alw'n ddatganiad i'r wasg—roedd yn un ochr tudalen, os cofiaf yn iawn. Rydym ni'n sicrhau mewn cyfnod anodd iawn ein bod yn archwilio cyllid y GIG er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth i bobl Cymru nad yw'n wasanaeth wedi ei breifateiddio. Rydym yn clywed newyddion yn Lloegr heddiw am ysbytai sy'n methu dan stiwardiaeth y Blaid Geidwadol. Ceir mesurau arbennig yno. Mae gwerth £20 biliwn o doriadau yn digwydd yn Lloegr. Ni fyddwn yn gorfodi'r lefel honno o doriadau yng Nghymru.

18:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move on to—

Symudwn ymlaen nawr at—

18:01

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

He posed a question to me. May I answer?

Gofynnodd gwestiwn i mi. A gaf i ateb?

18:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No; I think it was a rhetorical question.

Na chewch; rwy'n credu mai cwestiwn rhethregol oedd e.

18:01

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

He asked a question, Presiding Officer.

Gofynnodd gwestiwn, Lywydd.

18:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Was it a question, or was it rhetorical?

A oedd yn gwestiwn, neu a oedd yn rhethregol?

18:01

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is what he said about our figures not being robust enough.

Yr hyn a ddywedodd am y ffaith nad yw ein ffigurau'n ddigon cadarn yr wyf yn sôn amdano.

18:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

He is always saying that, so we will move on to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Mae'n dweud hynny bob amser, felly symudwn ymlaen at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

18:01

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, I spent two hours this morning travelling in a traffic jam from Penygraig in the Rhondda to Cardiff bay. While on the journey, I witnessed an ambulance struggling to get through the traffic. Under the south Wales programme, there will be longer journeys for patients with more serious injuries, as there will be for pregnant women who have problems with delivery and need a rapid transfer. First Minister, how confident are you that ambulances travelling further and for longer will make it in time?

Brif Weinidog, treuliais ddwy awr y bore yma yn teithio mewn tagfa draffig o Ben-y-graig yn y Rhondda i fae Caerdydd. Yn ystod y daith, gwelais ambiwlans yn cael trafferth i wneud ei ffordd drwy'r traffig. Dan raglen de Cymru, bydd teithiau hwy i gleifion ag anafiadau mwy difrifol, fel y bydd i fenywod beichiog sydd â phroblemau esgor ac sydd angen trosglwyddiad cyflym. Brif Weinidog, pa mor ffyddiog ydych chi y bydd ambiwlansys sy'n teithio ymhellach ac am fwy o amser yn cyrraedd mewn pryd?

18:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, the Minister for health has already given his response to the McClelland report. The issue of transport is a relevant factor for the south Wales programme board to consider, but so is the need to ensure that when people reach hospital, they are treated by people who are appropriately qualified. That already happens, of course. If somebody has burns, they are taken to Morriston Hospital in south Wales. If somebody has a serious head injury, they are always taken to the University Hospital of Wales in Cardiff. It is important that people get the right level of treatment at the right hospital.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog iechyd wedi rhoi ei ymateb i adroddiad McClelland eisoes. Mae'r mater o drafnidiaeth yn ffactor perthnasol i fwrdd rhaglen de Cymru ei ystyried, ond felly hefyd yr angen i sicrhau, pan fydd pobl yn cyrraedd yr ysbyty, eu bod yn cael eu trin gan bobl sydd â chymwysterau priodol. Mae hynny'n digwydd eisoes, wrth gwrs. Os bydd gan rywun losgiadau, cânt eu cludo i Ysbyty Treforys yn ne Cymru. Os oes gan rywun anaf difrifol i'r pen, cânt eu cludo i Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd bob amser. Mae'n bwysig bod pobl yn cael y lefel gywir o driniaeth yn yr ysbyty cywir.

Senedd.tv
Fideo Video

18:02 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

On that point about people needing to be treated by people who are properly qualified, statistics show that people are more likely to die at night or at weekends, because there is not proper cover. First Minister, 24-hour consultant cover has been used as one of the selling points of your hospital reconfiguration programme. However, people have been told at public meetings that there still will not be 24-hour consultant cover, even after these proposals are implemented. Will you at least give us an assurance now, this evening, that your Government will reject any plans that do not provide consultant-led services at night and on weekends?

Ar y pwynt yna am yr angen i bobl gael eu trin gan bobl sydd â'r cymwysterau priodol, mae ystadegau'n dangos bod pobl yn fwy tebygol o farw yn ystod y nos neu ar benwythnosau, gan nad oes digon o gymorth ar gael. Brif Weinidog, mae meddygon ymgynghorol ar gael 24 awr y dydd wedi cael ei ddefnyddio fel un o bwyntiau gwerthu eich rhaglen ad-drefnu ysbytai. Fodd bynnag, mae pobl wedi cael eu hysbysu mewn cyfarfodydd na fydd meddygon ymgynghorol 24 awr y dydd ar gael o hyd, hyd yn oed ar ôl rhoi'r cynigion hyn ar waith. A wnewch chi o leiaf roi sicrwydd i ni nawr, heno, y bydd eich Llywodraeth yn gwrthod unrhyw gynlluniau nad ydynt yn darparu gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr yn ystod y nos ac ar benwythnosau?

Senedd.tv
Fideo Video

18:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not know who has said that, or at which public meeting. Obviously, I cannot comment on that. Again, I make the point to the leader of Plaid Cymru that these changes are supported and proposed by those in the medical profession. They are saying to us that there need to be changes in order for there to be a safe and sustainable service in the future, and that means moving towards full consultant cover in A&E.

Nid wyf yn gwybod pwy sydd wedi dweud hynny, nac ym mha gyfarfod cyhoeddus. Yn amlwg, ni allaf gynnig sylwadau ar hynny. Unwaith eto, rwy'n gwneud y pwynt i arweinydd Plaid Cymru bod y newidiadau hyn yn cael eu cefnogi a'u cynnig gan y rhai sydd yn y proffesiwn meddygol. Maen nhw'n dweud wrthym bod angen newidiadau er mwyn cael gwasanaeth diogel a chynaliadwy yn y dyfodol, ac mae hynny'n golygu symud tuag at feddygon ymgynghorol llawn amser mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

Senedd.tv
Fideo Video

18:03 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

You did not answer the question, First Minister; you merely said that you do not know who made the statement. Will you give us the assurance, this evening, as I asked you to do, that your Government will reject any plans that do not provide consultant-led services at night and on weekends?

Ni wnaethoch chi ateb y cwestiwn, Brif Weinidog; y cwbl a ddywedasoch chi oedd nad ydych yn gwybod pwy wnaeth y datganiad. A wnewch chi roi'r sicrwydd i ni, heno, fel y gofynnais i chi ei wneud, y bydd eich Llywodraeth yn gwrthod unrhyw gynlluniau nad ydynt yn darparu gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr yn ystod y nos ac ar benwythnosau?

Senedd.tv
Fideo Video

18:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, this is a matter for the south Wales programme board. It is for its members to come forward with proposals. It is then a matter for the community health councils to analyse those proposals and to negotiate with the south Wales programme board in terms of the way forward. Any comment by me at this moment in time would inevitably torpedo the whole process. That is the issue that we have to remember here, because it is not appropriate for Government to give a view on what the structure should be when there is a consultation taking place, and a consultation that is particularly sensitive. That would not be fair on the people who live within the south Wales programme board area. The process has to go through the normal procedure, and when, and if, there is a call for Welsh Government to intervene, I am sure that the Minister for health will look at that, and a decision will be taken by a Minister who is not conflicted—that is important as well—with regard to taking a final decision.

Yn gyntaf oll, mater i fwrdd rhaglen de Cymru yw hwn. Cyfrifoldeb ei aelodau yw gwneud cynigion. Mae'n fater wedyn i'r cynghorau iechyd cymuned ddadansoddi'r cynigion hynny a thrafod y ffordd ymlaen gyda bwrdd rhaglen de Cymru. Byddai unrhyw sylwadau gennyf i ar hyn o bryd yn sicr o chwalu'r broses gyfan. Dyna'r mater y mae'n rhaid i ni ei gofio yma, oherwydd nid yw'n briodol i'r Llywodraeth roi barn ar yr hyn y dylai'r strwythur fod pan fo ymgynghoriad yn cael ei gynnal, a hwnnw'n ymgynghoriad arbennig o sensitif. Ni fyddai hynny'n deg ar y bobl sy'n byw yn ardal bwrdd rhaglen de Cymru. Mae'n rhaid i'r broses fynd drwy'r weithdrefn arferol, a phan, ac os, bydd galw i Lywodraeth Cymru ymyrryd, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog iechyd yn edrych ar hynny, ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Weinidog nad yw wedi ei gyfaddawdu—mae hynny'n bwysig hefyd—o ran gwneud penderfyniad terfynol.

## Tlodi

## Poverty

18:04 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? OAQ(4)1195(FM)*

*3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's strategy for tackling poverty? OAQ(4)1195(FM)*

18:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Lansiwyd y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi ar 3 Gorffennaf. Mae'n nodi'r tair ffordd y bydd y Llywodraeth gyfan yn mynd ati i wneud hyn: atal tlodi, helpu pobl i gael gwaith, a lliniaru effaith tlodi. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gynorthwyo aelwydydd heb waith yng Nghymru.

The tackling poverty action plan was launched on 3 of July. It sets out a cross-Government approach, which can be described in three strands: preventing poverty, helping people into work, and mitigating the impact of poverty. A key focus will be targeted help for workless households in Wales.

18:05 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Targed y Llywodraeth Llafur yn 2004 oedd cael gwared o dlodi plant erbyn 2020. Erbyn hyn, mae gennych ddau aelod o'r fainc flaen yn ymdrin â hyn, a strategaeth newydd yr ydych wedi cyfeirio ati, ond heb gyfeiriad o gwbl at y targed gwreiddiol hynny. Pam yr ydych wedi rhoi'r gorau i'r bwriad o ddileu tlodi plant yng Nghymru?

The Labour Government's target in 2004 was to eradicate child poverty by 2020. You now have two members of your front bench with this portfolio and a new strategy to which you have referred, but no reference has been made to that original target. Why have you given up on the intention to eradicate child poverty in Wales?

18:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r targed yn dal i fod yno. Mae'n uchelgeisiol dros ben, wrth gwrs, ac mae'n rhaid inni dderbyn hynny fel Llywodraeth. Mae'n bwysig dros ben bod y targed yn sefyll. Mae'n rhaid inni sylweddoli fel Llywodraeth nad oes gennym ni bob arf ynglŷn â delio â thlodi, ond, os edrychwch ar y cynllun ei hun, fe welwch ei fod yn anelu at sefyllfa lle mae mwy a mwy o bobl yn dod mas o dlodi erbyn 2020.

The target is still there. It is very ambitious of course, and we have to accept that as a Government. It is very important that the target remains. We have to realise, as a Government, that we do not have every weapon in the armoury when it comes to dealing with poverty, but, if you look at the plan itself, you will see that its aim is to reach a situation whereby an increasing number of people come out of poverty by 2020.

18:05 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I will focus in on the child poverty figures in Wales, because they make interesting reading. I think it was Alun Ffred Jones who mentioned 2004, which actually was a historical low for poverty figures in Wales, but even then it was not below the UK average. The figures in Wales have not been below the UK average since we have had devolution. That was in the run up to the credit crunch and banking crisis. First Minister, if you could not fix the proverbial roof on child poverty when the sun was shining, how on earth can you possibly hope to meet your target of eradicating poverty by 2020? That is not just an ambitious target, but a completely ridiculous target, is it not?

Brif Weinidog, byddaf yn canolbwyntio ar y ffigurau tlodi plant yng Nghymru, gan eu bod yn ddeunydd darllen diddorol. Rwy'n credu mai Alun Ffred Jones a grybwyllodd 2004, pan welwyd, mewn gwirionedd, y ffigurau tlodi isaf erioed yng Nghymru, ond hyd yn oed bryd hynny, nid oedd yn is na chyfartaledd y DU. Nid yw'r ffigurau yng Nghymru wedi bod yn is na chyfartaledd y DU ers datganoli. Roedd hynny yn y cyfnod yn arwain at y wasgfa gredyd a'r argyfwng bancio. Brif Weinidog, os nad oeddech yn gallu trwsio'r to diarhebol ar dlodi plant pan yr oedd yr haul yn tywynnu, sut ar y ddaear y gallwch chi obeithio cyrraedd eich targed o ddileu tlodi erbyn 2020? Mae hwnnw nid yn unig yn darged uchelgeisiol, ond yn darged hollol chwerthinllyd, onid yw?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

18:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are many of us who, I am sure, will remember the poverty-free days of the Tory Governments of the 1990s, and the glorious opportunities for employment and community development that were implemented by that party in the 1980s. They sit there and they cannot seem to understand that there are communities that they devastated in the 1980s by removing employment opportunities that have needed time to be put back on their feet—through Communities First, and through dealing with child poverty. They sit there, and what do they do? They blame people who are out of work in these communities for their own situation. They do not realise that they are culpable, because they took communities, wrecked them, took away their raison d'etre, their employment, their spirit, and they took away every single pillar that made communities in Wales so strong. [Interruption.]

Mae llawer ohonom a fydd, rwy'n siŵr, yn cofio dyddiau di-dlodi Llywodraethau Torïaidd y 1990au, a'r cyfleoedd cyflogaeth a datblygiad cymunedol gwych a gyflwynwyd gan y blaid honno yn y 1980au. Maen nhw'n eistedd yn y fan yna ac nid yw'n ymddangos eu bod yn gallu deall bod cymunedau a ddinistriwyd ganddyn nhw yn y 1980au trwy gael gwared ar gyfleoedd cyflogaeth sydd wedi bod angen amser i gael eu hadfywio-trwy Cymunedau yn Gyntaf, a thrwy ymdrin â thlodi plant. Maen nhw'n eistedd yn y fan yna, a beth maen nhw'n ei wneud? Maen nhw'n rhoi'r bai ar bobl sy'n ddi-waith yn y cymunedau hyn am eu sefyllfa eu hunain. Nid ydynt yn sylweddoli mai nhw sydd ar fai, gan eu bod wedi cymryd cymunedau, eu difetha, cael gwared ar y rheswm dros eu bodolaeth, eu cyflogaeth, eu hysbryd, ac maen nhw wedi chwalu pob un piler a oedd yn gwneud cymunedau yng Nghymru mor gryf. [Torri ar draws.]

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

18:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order.

Trefn.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

18:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We as a Government have been spending the last 14 years repairing the damage that they have done. We are not there yet, but at least we are going in the right direction.

Rydym ni fel Llywodraeth wedi bod yn treulio'r 14 mlynedd diwethaf yn atgyweirio'r difrod maen nhw wedi ei wneud. Nid ydym wedi gorffen eto, ond rydym ni'n symud i'r cyfeiriad iawn o leiaf.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

18:07 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, credit unions are an important part of your strategy in terms of tackling poverty, and it is vital that you get a joined-up approach between what you are doing here in Wales and what the UK Government is doing in terms of its credit union expansion projects. May I ask you, therefore, what progress has been made in arranging a discussion between the Welsh Government and DWP officials to ensure a proper alignment between your plans and those of the UK Government, both before the current funding runs out in April 2014 and subsequent to that date?

Brif Weinidog, mae undebau credyd yn rhan bwysig o'ch strategaeth chi i drechu tlodi, ac mae'n hanfodol eich bod yn cael ymagwedd gydgysylltiedig rhwng yr hyn yr ydych chi'n ei wneud yma yng Nghymru a'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud o ran ei phrosiectau ehangu undebau credyd. A gaf i ofyn i chi, felly, pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran trefnu trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod eich cynlluniau chi a chynlluniau Llywodraeth y DU yn cyd-fynd yn briodol, cyn i'r cyllid cyfredol ddod i ben ym mis Ebrill 2014, ac ar ôl y dyddiad hwnnw?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

18:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There will have been discussions between officials, of course, as is the normal course of events. As always, we will seek to ensure that any proposals put forward by the UK Government dovetail as seamlessly as possible with proposals put forward by the Welsh Government. It is important that there is no competition between the two.

Bydd trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion, wrth gwrs, dyna drefn arferol pethau. Fel bob amser, byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw gynigion a wneir gan Lywodraeth y DU yn cyd-fynd mor ddi-dor â phosibl gyda chynigion a wneir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nad oes unrhyw gystadleuaeth rhwng y ddwy.

Senedd.tv Fideo Video

## Cymwysterau

## Qualifications

18:08 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu ac i esbonio'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yng Nghymru? OAQ(4)1191(FM)*

*4. What steps is the Welsh Government taking to promote and explain the range of qualifications available in Wales? OAQ(4)1191(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

18:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyhoeddi strategaeth gyfathrebu hirdymor ar gyfer y Deyrnas Unedig ym mis Medi i helpu egluro ein cymwysterau, a sicrhau bod gan bobl ffydd ynddynt.

The Minister for Education and Skills will publish a UK-wide long-term communication strategy in September to help to explain our qualifications, and to ensure that people have confidence in them.

Senedd.tv Fideo Video

18:08 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Rwy'n falch o'r ateb, achos fe dderbyniwyd argymhellion adolygiad Huw Evans ym mis Ionawr, ac nid oes llawer o sôn wedi bod ers hynny ynglŷn â'r strategaeth hirdymor hon. A oes cyllideb wedi ei phennu ar gyfer y strategaeth, wrth feddwl mai strategaeth ar draws Prydain yr oedd hon i fod?

I am pleased to hear that response, because the recommendations of the Huw Evans review were received in January and we have heard little since then about this long-term strategy. Has a budget been allocated for the strategy, bearing in mind that this was meant to be a pan-UK strategy?

Senedd.tv Fideo Video

18:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn symud hyn ymlaen, fel y dywedais yn yr ateb. Mae arian wedi ei roi i'r ymgyrch, sef £236,000 i'r flwyddyn gyntaf. Bydd y strategaeth yn rhedeg lan i fis Medi 2015. Ar ôl hynny, bydd hyn yn rhywbeth i'r corff newydd, sef Cymwysterau Cymru, i ddelio â fe. Mae hyn yn symud ymlaen, fel y dywedais, a bydd cyhoeddiad ym mis Medi.

We are moving this forward, as I said in my response. Money has been given to the campaign, totalling £236,000 for the first year. The strategy will run until September 2015. After that, it will be something for the new body, namely Qualifications Wales, to deal with. Things are being progressed, as I said, and there will be an announcement in September.

Senedd.tv Fideo Video

18:09 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

First Minister, you mentioned £236,000—I think that is what you said. That is a very small amount of money when it comes to doing a UK-wide communications strategy. Television advertising is extremely expensive. Radio advertising is extremely expensive. Advertising in newspapers is very expensive, as is even just direct mail and writing to organisations, schools, colleges and universities. I am particularly concerned about how this communications strategy will get to businesses, so that students going forward to businesses in the UK for employment are not disadvantaged because there is a lack of understanding about the shape of qualifications in Wales.

Brif Weinidog, soniasoch am £236,000—rwy'n credu mai dyna ddywedwyd gennych. Mae hwnnw'n swm bach iawn o arian wrth ystyried strategaeth gyfathrebu ledled y DU gyfan. Mae hysbysebu ar y teledu yn eithriadol o ddrud. Mae hysbysebu ar y radio yn eithriadol o ddrud. Mae hysbysebu mewn papurau newydd yn ddrud iawn, ac felly hefyd post uniongyrchol ac ysgrifennu i sefydliadau, ysgolion, colegau a phrifysgolion hyd yn oed. Rwy'n arbennig o bryderus ynghylch sut y bydd y strategaeth gyfathrebu hon yn cyrraedd busnesau, fel nad yw myfyrwyr sy'n mynd ymlaen i fusnesau yn y DU i gael gwaith dan anfantais oherwydd bod diffyg dealltwriaeth ynghylch natur cymwysterau yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

18:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We believe that the money that has been allocated in the first year is sufficient, but we will of course keep that amount under review to ensure that it is sufficient in the years following.

Rydym o'r farn bod yr arian sydd wedi ei ddyrannu yn y flwyddyn gyntaf yn ddigonol, ond byddwn wrth gwrs yn cadw'r swm hwnnw dan adolygiad er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol yn y blynyddoedd dilynol.

18:10 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, wrth ateb y cwestiwn gwreiddiol, sonioch am ffydd yn y system. Rwy'n meddwl bod sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff annibynnol ar y Llywodraeth yn bwysig iawn er mwyn sefydlu bod y rheolydd y tu allan i'r Llywodraeth. Hwn oedd y cam cyntaf a awgrymwyd yn adroddiad Huw Evans. A fedrwch chi gadarnhau heddiw y byddwch yn mynd ati yn ddiymdroi i sicrhau bod rheolydd annibynnol, beth bynnag fydd yn digwydd gyda CBAC ar ddiwedd y dydd, i roi ffydd yn y system arholi hon?

First Minister, in responding to the original question, you mentioned the issue of confidence in the system. I think that the establishment of Qualifications Wales as a body that is independent of Government is a very important step in establishing the fact that the regulator is outwith Government. This was the first step suggested in the Huw Evans report. Can you confirm today that you will move forward without delay to ensure that there is an independent regulator, whatever happens with the WJEC, in order to give us confidence in the examination system?

18:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn gwybod beth sy'n cael ei ddweud ynglŷn â Cymwysterau Cymru. Mae'n bwysig dros ben hefyd i ni sylweddoli bod yn rhaid i ni gael hyder yn y cymwysterau. Mae'n wir dweud, yn y 1980au, er enghraifft, fod safonau yng Nghymru llawer yn uwch na safonau rhai o fyrddau arholi Lloegr. Gallaf ddweud hynny o'm profiad o wneud lefel A yn 1985. Roedd lot fawr o wahaniaeth rhwng safonau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r JMB yng ngogledd Lloegr ar yr un llaw a rhai o'r byrddau eraill ar y llaw arall, yn enwedig bwrdd de Lloegr, a oedd yn eithaf 'notorious' ar y pryd.

Of course, the Member will know what has been said about Qualifications Wales. It is very important that we should realise that we must have confidence in the qualifications. It is true to say that, in the 1980s, for example, standards in Wales were far higher than those under some of the examination boards in England. That was my experience of doing A-levels in 1985. There was a significant difference in standards between Wales, Northern Ireland and the JMB in the north of England on the one hand, and some of the other boards on the other hand, particularly the board in the south of England, which was quite notorious at the time.

Mae'n bwysig dros ben bod busnesau'n sylweddoli beth yw'r sefyllfa yng Nghymru. Rydym am sicrhau bod y system sydd gennym ar hyn o bryd yn system sy'n cael ei hadnabod dros y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

It is very important that businesses should realise what the situation is in Wales. We want to ensure that the system that we have in place at present is one that is recognised across the UK in future.

## Gwasanaethau Gofal Ataliol

## Preventative Care Services

18:12 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad at wasanaethau gofal ataliol i bobl hŷn yng Nghwm Cynon? OAQ(4)1193(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is improving access to preventative care services for older people in the Cynon Valley? OAQ(4)1193(FM)*

18:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Excellent examples of preventative services already exist within local communities in Wales, including Rhondda Cynon Taf's @Home service. All local authorities and local health boards will be required to jointly make available a range of preventative services for people with care and support needs.

Mae enghreifftiau ardderchog o wasanaethau ataliol yn bodoli eisoes mewn cymunedau lleol yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaeth @Home Rhondda Cynon Taf. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau ataliol ar gael ar y cyd i bobl ag anghenion gofal a chymorth.

18:12 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the importance of early intervention and preventative services in maintaining health and wellbeing during the ageing process has been well documented. Adult education plays a particular role in encouraging older people to get together, so it is worrying that Age Alliance Wales notes a 30% decline in participation rates. I am dealing with one group in my constituency that has lost support due to the cuts that originate from the UK Government. How can the Welsh Government enocurage local authorities, the third sector and other groups to come together to provide access to the services that play such a vital role in overcoming the isolation that one in two older people are living in.

Brif Weinidog, mae pwysigrwydd gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol i gynnal iechyd a lles yn ystod y broses heneiddio wedi cael llawer o sylw. Mae addysg i oedolion yn cyflawni swyddogaeth arbennig o ran annog pobl hŷn i ddod at ei gilydd, felly mae'n destun pryder bod Cynghrair Henoed Cymru yn nodi gostyngiad o 30% mewn cyfraddau cyfranogiad. Rwy'n ymdrin ag un grŵp yn fy etholaeth sydd wedi colli cefnogaeth oherwydd y toriadau sy'n deillio o Lywodraeth y DU. Sut all Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol, y trydydd sector a grwpiau eraill i ddod at ei gilydd i ddarparu mynediad at y gwasanaethau sy'n cyflawni swyddogaeth mor hanfodol i oresgyn yr unigrwydd y mae un o bob dau o bobl hŷn yn byw ynddo.

18:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is disappointing to see the decline that you have mentioned. My officials have met with Rachel Lewis from Age Alliance Cymru to discuss how to improve access to learning for older people, and to work with colleagues who lead on the older persons strategy. In that regard, what we are looking to do is to see how we can encourage more participation through working with the third sector and, ulitmately, with the commissioner.

Mae'n siomedig gweld y dirywiad yr ydych chi wedi ei grybwyll. Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â Rachel Lewis o Gynghrair Henoed Cymru i drafod sut i wella mynediad at ddysgu i bobl hŷn, ac i weithio gyda chydweithwyr sy'n arwain ar y strategaeth pobl hŷn. Yn hynny o beth, yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yw gweld sut y gallwn annog mwy o gyfranogiad trwy weithio gyda'r trydydd sector ac, yn y pen draw, gyda'r comisiynydd.

18:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the biggest issues that older people face in Cynon Valley and across the South Wales Central area is isolation. One of the things that they use and enjoy is public transport. However, because of your Government's cuts to the public bus service operators' grant, many routes have been cut. Therefore, isolation and the risk of mental health issues are greatly increased. What work is your Government undertaking to analyse the impact that the cuts that local authorities in South Wales Central are making to bus routes are having, which will increase the isolation that many elderly people face and the demands that they will then place on the health service and social care?

Brif Weinidog, un o'r problemau mwyaf y mae pobl hŷn yn eu hwynebu yng Nghwm Cynon a ledled ardal Canol De Cymru yw unigrwydd. Un o'r pethau y maen nhw'n eu defnyddio a'u mwynhau yw cludiant cyhoeddus. Fodd bynnag, oherwydd toriadau eich Llywodraeth i'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau cyhoeddus, mae llawer o lwybrau wedi cael eu torri. Felly, mae unigrwydd a'r risg o broblemau iechyd meddwl wedi eu cynyddu'n sylweddol. Pa waith mae eich Llywodraeth yn ei wneud i ddadansoddi'r effaith mae toriadau y mae awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru yn eu gwneud i lwybrau bysiau yn ei chael, ac a fydd yn cynyddu'r unigrwydd y mae llawer o bobl oedrannus yn ei wynebu a'r gofynion y byddant yn ei gosod wedyn ar y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol?

18:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no suggestion that bus routes are being cut because of Welsh Government funding. I remind the leader of the opposition that we have free bus passes that are provided far more generously in Wales than is the case in England. It is right to say that, in order to reduce isolation, one of the things you have to do is enable people to travel. We have done that with free bus passes, a policy that has been widely welocmed for many years.

Nid oes unrhyw awgrym bod llwybrau bysiau yn cael eu torri oherwydd cyllido gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn atgoffa arweinydd yr wrthblaid fod gennym basys bws rhad ac am ddim sy'n cael eu darparu yn llawer mwy hael yng Nghymru nag yw'r achos yn Lloegr. Mae'n iawn i ddweud mai un o'r pethau y mae'n rhaid i chi ei wneud er mwyn lleihau unigrwydd yw galluogi pobl i deithio. Rydym ni wedi gwneud hynny gyda phasys bws am ddim, polisi a groesawyd yn eang ers blynyddoedd lawer.

18:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 6, OAQ(4)1194(FM), has been withdrawn.

Mae Cwestiwn 6, OAQ (4) 1194 (FM), wedi ei dynnu'n ôl.

**Twyllwyr**

**Fraudsters**

18:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i amddiffyn pobl hŷn rhag twyllwyr? OAQ(4)1199(FM)*

*7. Will the First Minister outline measures undertaken by the Welsh Government to protect elderly people from fraudsters? OAQ(4)1199(FM)*

18:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are committed to addressing the problem of scams and rogue traders through the programme for government. We are, for example, supporting no-cold-calling zones to help prevent doorstep crime and are increasing by 500 the physical presence of police community support officers across Wales.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r broblem o sgamiau a masnachwyr twyllodrus drwy'r rhaglen ar gyfer llywodraethu. Rydym, er enghraifft, yn cefnogi parthau dim galw diwahoddiad er mwyn helpu i atal troseddau ar garreg y drws ac rydym yn cynyddu presenoldeb corfforol swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ledled Cymru o 500.

18:15 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am most grateful to the First Minister for his answer. Research by Age Cymru reveals that more than 2,500 scams were reported to trading standards departments in Wales between February 2012 and February 2013. The Office of Fair Trading, however, believes that only 5% of these frauds are ever reported. What is your Government doing to encourage people to report these frauds? More particularly, what influence do you have over local authorities to ensure that prosecutions are brought?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Mae gwaith ymchwil gan Age Cymru yn datgelu yr hysbyswyd am fwy na 2,500 o sgamiau i adrannau safonau masnach yng Nghymru rhwng Chwefror 2012 a Chwefror 2013. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg, fodd bynnag, yn credu mai dim ond 5% o'r achosion hyn o dwyll yr hysbysir amdanynt fyth. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i annog pobl i hysbysu am yr achosion hyn o dwyll? Yn fwy arbennig, pa ddylanwad sydd gennych chi dros awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn erlyn y twyllwyr?

18:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am aware of some very good projects that have been run by local authorities across Wales, including in my own authority in Bridgend, where the authority runs a very successful scheme dealing with fraudulent mail particularly but not exclusively. It is very vigilant in terms of prosecuting offenders.

Rwy'n ymwybodol o rai prosiectau da iawn sydd wedi cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys yn fy awdurdod fy hun ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle mae'r awdurdod yn rhedeg cynllun llwyddiannus iawn yn ymdrin â phost twyllodrus yn benodol, ond nid yn unig hynny. Mae'n benderfynol iawn o ran erlyn troseddwyr.

It is a matter for local authorities to allocate an appropriate level of funding to trading standards. However, we know that where there is a fear on the part of fraudsters that they will be prosecuted by a local authority, it will ensure that they think twice before committing a crime. I would, therefore, encourage all local authorities to ensure that, when it comes to trading standards, they are in a position to investigate and prosecute crimes—that much is true—but also to encourage people to come forward and report those crimes in the first place.

Mater i awdurdodau lleol yw neilltuo lefel briodol o gyllid i adrannau safonau masnach. Fodd bynnag, rydym yn gwybod pan fo twyllwyr yn ofni y byddant yn cael eu herlyn gan awdurdod lleol, bod hynny'n sicrhau eu bod yn meddwl ddwywaith cyn cyflawni trosedd. Byddwn, felly, yn annog pob awdurdod lleol i sicrhau, o ran adrannau safonau masnach, eu bod mewn sefyllfa i ymchwilio i droseddau a'u herlyn—mae cymaint â hynny'n wir—ond hefyd i annog pobl i ddod ymlaen a hysbysu am y troseddau hynny yn y lle cyntaf.

18:16 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I have been reading about the no-cold-calling zones, and areas need 66% of the population to be in favour for them to become dedicated no-cold-calling zones. This will take a lot of effort on behalf of communities. I believe that every area of Wales should be a no-cold-calling zone. What can you do, as a Government, to encourage proactively those areas that are not currently in any type of zone to become active in this particular scheme?

Brif Weinidog, rwyf wedi bod yn darllen am y parthau dim galw diwahoddiad, ac mae angen i 66% o boblogaeth ardal fod o'u plaid er mwyn iddynt fod yn barthau dim galw diwahoddiad dynodedig. Bydd hyn yn gofyn am lawer o ymdrech ar ran cymunedau. Rwy'n credu y dylai pob rhan o Gymru fod yn barth dim galw diwahoddiad. Beth allwch chi ei wneud, fel Llywodraeth, i annog yn rhagweithiol yr ardaloedd hynny nad ydynt mewn unrhyw barth o'r fath ar hyn o bryd i gymryd rhan yn y cynllun penodol hwn?

18:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have established a baseline for the number of zones in Wales. There are over 1,500 zones covering almost 40,000 residential households. We are working with the police and local government to identify ways in which we can help them to create more areas, informed by the experience of the existing zones. It is important that where no-cold-calling zones are established, there is sufficient support then with trading standards departments to ensure that those zones are respected. We continue to work very closely with local authorties and the police to ensure that no-cold-calling zones are respected.

Rydym wedi sefydlu llinell sylfaen ar gyfer nifer o ardaloedd yng Nghymru. Ceir dros 1,500 o ardaloedd sy'n cynnwys bron i 40,000 o gartrefi preswyl. Rydym yn gweithio gyda'r heddlu a llywodraeth leol i nodi'r ffyrdd y gallwn ni eu helpu i greu mwy o ardaloedd, ar sail y profiad o'r parthau presennol. Mae'n bwysig, lle mae parthau dim galw diwahoddiad wedi eu sefydlu, bod digon o gefnogaeth wedyn gydag adrannau safonau masnach er mwyn sicrhau bod yr parthau hynny'n cael eu parchu. Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol a'r heddlu i sicrhau bod parthau dim galw diwahoddiad yn cael eu parchu.

## Cynhwysiant Cymdeithasol yng Nghefn Gwlad Cymru

## Social Inclusion in Rural Wales

18:17 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith a gaiff cau canghennau banciau ar gynhwysiant cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(4)1198(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement regarding the impact that bank branch closures have on social inclusion in rural Wales? OAQ(4)1198(FM)*

18:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Closures are a matter for the banks, in terms of the commercial decisions that they make. However, this matter is of concern to us as the Welsh Government. We are committed to maintaining access to mainstream financial services, as has been evidenced by the support that we have given over the years to credit unions.

Mater i'r banciau yw achosion o gau, o ran y penderfyniadau masnachol maen nhw'n eu gwneud. Fodd bynnag, mae hwn yn fater o bryder i ni fel Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i gynnal mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd, fel y dangoswyd gan y gefnogaeth yr ydym ni wedi ei rhoi i undebau credyd dros y blynyddoedd.

18:18 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will, perhaps, be aware of HSBC's recent announcement of a branch closure in Llanidloes. I met with senior bank officials yesterday to discuss a range of issues, including the rationale for closing the branch. There is a growing awareness that groups in rural areas in particular across Wales are becoming ever-more excluded from banking services because they lack access to banking facilities that are widespread in the rest of society. Do you agree that banks have a social responsibility to think extremely carefully about any proposed closures and their impact? What facilities and services access mapping does the Welsh Government undertake to ensure that these key services are monitored?

Byddwch, efallai, yn ymwybodol o gyhoeddiad diweddar HSBC ynglŷn â chau cangen yn Llanidloes. Cefais gyfarfod ag uwch swyddogion y banc ddoe i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y rhesymeg dros gau'r gangen. Ceir ymwybyddiaeth gynyddol fod grwpiau mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig ledled Cymru, yn cael eu heithrio fwyfwy o wasanaethau bancio gan nad oes ganddynt fynediad at gyfleusterau bancio sydd mor gyffredin yng ngweddill cymdeithas. A ydych chi'n cytuno bod gan fanciau gyfrifoldeb cymdeithasol i feddwl yn ofalus iawn am unrhyw gau arfaethedig a'i effaith? Pa gyfleusterau a mapio mynediad at wasanaethau y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y gwasanaethau allweddol hyn yn cael eu monitro?

18:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member is absolutely right to say that banks have a social responsibility, even more so now than ever. HSBC is not, perhaps, in the same category as some of the other banks. However, it is right to say that a huge amount of faith has been lost in banks since the events of 9 August 2007.

Mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud bod gan fanciau gyfrifoldeb cymdeithasol, mwy nawr nag erioed. Nid yw HSBC, efallai, yn yr un categori â rhai o'r banciau eraill. Fodd bynnag, mae'n iawn i ddweud bod llawer iawn o ffydd wedi cael ei golli mewn banciau ers digwyddiadau 9 Awst 2007.

Strangely, I think that there may well be a reverse trend occurring. Banks like Handelsbanken are moving more toward branch-based provision and are devolving more power to branch managers, something that has gone the other way in the last few years. I suspect that we will see more branches opening in years to come, but that is of no consolation to the people of Llanidloes at the moment.

Yn rhyfedd iawn, rwy'n meddwl efallai fod tuedd i'r gwrthwyneb yn digwydd. Mae banciau fel Handelsbanken yn symud mwy tuag at ddarpariaeth mewn canghennau ac yn datganoli mwy o bŵer i reolwyr canghennau, rhywbeth sydd wedi bod yn mynd y ffordd arall yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwy'n credu y byddwn yn gweld mwy o ganghennau yn agor yn ystod y blynyddoedd i ddod, ond nid yw hynny o ddim cysur i bobl Llanidloes ar hyn o bryd.

Of course, credit unions can fill some of the gap that has been left by the banks. I am aware that, not last week, Hafren Credit Union opened a new office in Newtown. It is important that, where people can no longer access financial services through the commercial banks, they are able to access services—although the new service is clearly in Newtown and not Llanidloes—in other ways so that they do not fall prey to loan sharks.

Wrth gwrs, gall undebau credyd lenwi rhywfaint ar y bwlch sydd wedi ei adael gan y banciau. Rwy'n ymwybodol, dim ond yr wythnos diwethaf, bod Undeb Credyd Hafren wedi agor swyddfa newydd yn y Drenewydd. Mae'n bwysig, lle na all pobl gael mynediad at wasanaethau ariannol drwy'r banciau masnachol bellach, eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau—er bod y gwasanaeth newydd yn amlwg yn y Drenewydd ac nid yn Llanidloes—mewn ffyrdd eraill, fel nad ydynt yn cael eu gorfodi i ddefnyddio benthycwyr arian didrwydded.

### Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru

### Royal Welsh Agricultural Show

18:20 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru i amaethyddiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1196(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the importance of the Royal Welsh Agricultural Show to Welsh agriculture? OAQ(4)1196(FM)*

18:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

When I was the Minister for rural affairs, it was my practice to arrive at the show at 7 a.m. on Monday and leave at 10 p.m. and to do the same thing again on Tuesday. There are others who will know the experience of that. It is the only place in the world I have been to where, when offered a cooked breakfast, I was served lamb and eggs in order to show my unstinting and continuing support for the Welsh lamb sector. The Royal Welsh Show continues to be an important part of the annual Welsh agricultural calendar. I am looking forward to visiting the show again this year. It is good to see that, after a few difficult financial years, things are beginning to turn around.

Pan roeddwn i'n Weinidog materion gwledig, fy arfer oedd cyrraedd y sioe am 7 a.m. ddydd Llun a gadael am 10 p.m. a gwneud yr un fath eto ddydd Mawrth. Mae eraill a fydd yn gwybod am y profiad hwnnw. Dyma'r unig le yn y byd yr wyf wedi bod yno lle, ar ôl cael cynnig brecwast wedi'i goginio, y cefais i gig oen ac wyau er mwyn dangos fy nghefnogaeth ddiflino a pharhaus i sector cig oen Cymru. Mae Sioe Frenhinol Cymru yn parhau i fod yn rhan bwysig o galendr amaethyddol blynyddol Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at ymweld â'r sioe eto eleni. Mae'n dda gweld, ar ôl ychydig o flynyddoedd ariannol anodd, bod pethau yn dechrau gwella.

18:20 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, First Minister. As you are probably aware, it is now the fiftieth year that the show will have taken place at the permanent site in Llanelwedd. The site, in many ways, has served as a great showcase for the development of the show and to the benefit of Welsh agriculture. I know that the new chief executive of the Royal Welsh Agricultural Society, Steve Hughson, is very keen to develop the potential of the site, notably in terms of renewable energy potential on the site, especially solar energy, and also to develop an online ticketing facility, which would be to the great advantage of the future of the show. Will you outline how the Welsh Government might be supportive in taking these issues forward?

Diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel mae'n debyg eich bod yn gwybod, hon yw'r hanner canfed flwyddyn bellach y bydd y sioe wedi cael ei chynnal ar y safle parhaol yn Llanelwedd. Mae'r safle, mewn llawer ffordd, wedi bod yn llwyfan gwych ar gyfer datblygiad y sioe ac er budd i amaethyddiaeth Cymru. Gwn fod prif weithredwr newydd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Steve Hughson, yn awyddus iawn i ddatblygu potensial y safle, yn fwyaf amlwg o ran potensial ynni adnewyddadwy ar y safle, yn enwedig ynni'r haul, a hefyd i ddatblygu cyfleuster tocynnau ar-lein, a fyddai o fantais fawr i ddyfodol y sioe. A wnewch chi amlinellu sut y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gefnogol wrth fwrw ymlaen â'r materion hyn?

18:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will, of course, be interested in hearing the plans that may come forward in the future. The showground is an exceptionally important venue, used, as it is, all year round, as we know, particularly by organisations that have offices based at the showground. Financially, for the Royal Welsh Agricultural Society, having a permanent base has been a great advantage. From our point of view, we look forward to working with it on potential projects in the future.

Byddai gennym ddiddordeb, wrth gwrs, mewn clywed y cynlluniau a allai gael eu cyflwyno yn y dyfodol. Mae maes y sioe yn lleoliad eithriadol o bwysig, a ddefnyddir, fel y mae hi, trwy gydol y flwyddyn, fel y gwyddom, yn enwedig gan sefydliadau sydd â swyddfeydd ar faes y sioe. Yn ariannol, i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, mae cael canolfan barhaol wedi bod o fantais fawr. O'n safbwynt ni, rydym yn edrych ymlaen at weithio â hi ar brosiectau posibl yn y dyfodol.

18:22 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a little bit of a 'motherhood and apple pie' question, because we all enjoy the Royal Welsh Show and the good that it brings to Wales. I have to declare an interest in that my father was a director for 40 years and I am a life governor of the society.

The point that I would like to make to you, First Minister, is that the society reaches across all barriers in Wales and all communities and counties. The feature county system that the society has operated, even though its home has been in Builth Wells for 50 years, is a unique concept. I hope that you will commend that concept of feature counties and maybe take on board some of the lessons that it has brought forward for counties to feel that their home is Builth Wells as well as Anglesey, which is the feature county this year, and whichever other county is exhibiting at the show in that particular year.

Mae hwn yn dipyn o gwestiwn 'mamogaeth a tharten afal', gan ein bod i gyd yn mwynhau Sioe Frenhinol Cymru a'r daioni y mae'n ei gynnig i Gymru. Mae'n rhaid i mi ddatgan buddiant gan y bu fy nhad yn gyfarwyddwr am 40 mlynedd ac rwyf i'n llywodraethwr oes y gymdeithas.

Y pwynt yr hoffwn ei wneud i chi, Brif Weinidog, yw bod y gymdeithas yn estyn ar draws yr holl rwystrau yng Nghymru ac i bob cymuned a sir. Mae'r system pwysleisio sir y mae'r gymdeithas wedi ei gweithredu, er bod ei chartref wedi bod yn Llanfair-ym-Muallt ers 50 mlynedd, yn syniad unigryw. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cymeradwyo'r syniad hwnnw o bwysleisio siroedd ac efallai yn ystyried rhai o'r gwersi y mae wedi eu dysgu i siroedd deimlo bod eu cartref yn Llanfair-ym-Muallt, yn ogystal ag ar Ynys Môn, sef y sir sy'n cael ei phwysleisio eleni, a pha bynnag sir arall sy'n arddangos yn y sioe yn y flwyddyn benodol honno.

18:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I agree. I would imagine, although I do not remember it—nor does he—that, when the decision was taken to have a permanent base in Llanelwedd, it would have caused consternation among some of the counties. It was certainly a shrewd move to make sure that there was a host county—Ynys Môn, of course, this year—to make counties feel that they are the hosts of a very big event. However, I very much share the comment that he has made about the reach of the society and the show. It is unique to have a show that is, at its heart, an agricultural show and which has an important role as an agricultural show, but which is able to reach out beyond rural Wales to urban Wales. There is still, of course, a train—last year, it was between Rhymney and Builth Road—that brings people up through the middle of south Wales and up on the Heart of Wales line, showing that the show is as popular as ever and retains its appeal to people around Wales, whether they are from farming backgrounds or not. That is its great strength.

Rwy'n cytuno. Byddwn yn dychmygu, er nad wyf yn ei gofio—ac nid yw ef chwaith—pan wnaed y penderfyniad i gael safle parhaol yn Llanelwedd, y byddai wedi achosi siom ymhlith rhai o'r siroedd. Roedd yn sicr yn gam craff i wneud yn siŵr bod un sir yn westeiwr am y flwyddyn—Ynys Môn eleni, wrth gwrs—i wneud siroedd deimlo mai nhw sy'n cynnal digwyddiad mawr iawn. Fodd bynnag, rwy'n sicr yn rhannu'r sylw y mae wedi ei wneud am gyrhaeddiad y gymdeithas a'r sioe. Mae'n unigryw i gael sioe sydd, yn ei hanfod, yn sioe amaethyddol ac sydd â swyddogaeth bwysig fel sioe amaethyddol, ond sy'n gallu estyn allan y tu hwnt i Gymru wledig i ardaloedd trefol Cymru. Ceir trên o hyd, wrth gwrs—roedd rhwng Rhymni a gorsaf reilffordd Builth Road y llynedd—sy'n dod â phobl i fyny trwy ganol de Cymru ac i fyny ar reilffordd Calon Cymru, sy'n dangos bod y sioe mor boblogaidd ag erioed ac yn cadw ei hapêl i bobl o bob cwr o Gymru, pa un a ydynt yn dod o gefndir ffermio ai peidio. Dyna yw ei chryfder mawr.

## Blaenoriaethau o ran Gofal Cymdeithasol

## Priorities for Social Care

18:23 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau o ran gofal cymdeithasol? OAQ(4)1204(FM)*

*10. Will the First Minister provide an update on his priorities for social care? OAQ(4)1204(FM)*

18:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Those priorities are set out in the programme for government, but particularly in the Social Services and Well-Being (Wales) Bill, which will be hugely influential in improving the provision of social services across Wales.

Mae'r blaenoriaethau hynny wedi eu nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, ond yn enwedig yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), a fydd yn ddylanwadol iawn wrth wella'r ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

18:24 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Volunteers and good neighbours do a wonderful job in terms of helping out their older and vulnerable neighbours and combating loneliness. However, I was very disturbed to read about plans in England for the neighbourhood watch to take over the feeding and washing of vulnerable people. Will you reassure me, First Minister, that the role of volunteers in Wales will be to support a strong social care sector and that personal and intimate care will remain the responsibility of trained, paid professionals?

Mae gwirfoddolwyr a chymdogion da yn gwneud gwaith gwych o ran helpu eu cymdogion hŷn ac agored i niwed a mynd i'r afael ag unigrwydd. Fodd bynnag, cefais siom fawr o ddarllen am y cynlluniau yn Lloegr i'r cynllun gwarchod cymdogaeth gymryd cyfrifoldeb am fwydo ac ymolchi pobl sy'n agored i niwed. A wnewch chi fy sicrhau, Brif Weinidog, mai swyddogaeth gwirfoddolwyr yng Nghymru fydd cefnogi sector gofal cymdeithasol cryf ac y bydd gofal personol a phreifat yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i weithwyr proffesiynol, cyflogedig sydd wedi eu hyfforddi?

Senedd.tv Fideo Video

18:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes I will. The Bill, of course, recognises the absolutely central role that carers play in our communities by providing them with equal status in terms of an assessment of their own needs. However, we have to remember that neighbours and relatives, to a great extent, cannot replace the professionals who provide specialised care services for older people in Wales. We expect those services to be provided by high-quality and caring staff. We have no plans to involve organisations with no apparent expertise to look after older people. That would cause enormous problems, and it is probably unfair on those organisations being asked to do it as well.

Gwnaf, mi wnaf. Mae'r Bil, wrth gwrs, yn cydnabod y swyddogaeth gwbl ganolog y mae gofalwyr yn ei chyflawni yn ein cymunedau trwy roi statws cyfartal iddynt o ran asesiad o'u hanghenion eu hunain. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio na all cymdogion a pherthnasau, i raddau helaeth, ddisodli'r gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau gofal arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu gan aelodau staff gofalgar o ansawdd uchel. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gynnwys sefydliadau heb unrhyw arbenigedd amlwg wrth ofalu am bobl hŷn. Byddai hynny'n achosi problemau enfawr, ac mae'n debyg ei fod yn annheg gofyn i'r sefydliadau hynny ei wneud hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **William Graham** Bywgraffiad Biography

In the Health and Social Care Committee, we heard evidence that, in Wales, we set the bar too high between continuous healthcare and social care. The First Minister will be aware that the United Kingdom Government has created a pooled health and social care fund worth nearly £4 billion to get elderly patients out of hospital if they cannot easily receive social care support. Of your Government's budget in Wales, 27% is spent on social care. Do you think that it is a good idea to create a joint fund?

Yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, clywsom dystiolaeth ein bod, yng Nghymru, yn gosod y bar yn rhy uchel rhwng gofal iechyd parhaus a gofal cymdeithasol. Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi creu cronfa iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd sydd werth bron i £4 biliwn i gael cleifion oedrannus allan o'r ysbyty os na allant dderbyn cymorth gofal cymdeithasol yn rhwydd. O gyllideb eich Llywodraeth yng Nghymru, mae 27% yn cael ei wario ar ofal cymdeithasol. A ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da i greu cronfa ar y cyd?

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters within the consideration of the commission headed by Sir Paul Williams. There are good examples of this around Wales, such as the Gwent frailty programme, where there is a seamless care pathway for people in that part of Wales. There are similar schemes elsewhere in Wales, so we await with interest the outcome of the commission's thinking, with a view to seeing how we can ensure seamlessness between social care and health provision.

Mae'r rhain yn faterion i'w hystyried gan y comisiwn a arweinir gan Syr Paul Williams. Ceir enghreifftiau da o hyn ledled Cymru, fel rhaglen eiddilwch Gwent, lle ceir llwybr gofal di-dor i bobl yn y rhan honno o Gymru. Ceir cynlluniau tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru, felly rydym ni'n aros am ganlyniad safbwyntiau'r comisiwn gyda diddordeb, gyda'r bwriad o weld sut y gallwn sicrhau proses ddi-dor rhwng gofal cymdeithasol a darpariaeth iechyd.

Senedd.tv Fideo Video

18:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I see that Lindsay Whittle is not in the Chamber, so question 11, OAQ(4)1192(FM), will not be asked.

Gwelaf nad yw Lindsay Whittle yn y Siambr, felly ni fydd cwestiwn 11, OAQ (4) 1192 (FM), yn cael ei ofyn.

### Llygredd Aer

### Air Pollution

18:26 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r llygredd aer a gaiff ei achosi gan allyriadau cerbydau? OAQ(4)1202(FM)*

*12. What is the Welsh Government doing to tackle air pollution from vehicle emissions? OAQ(4)1202(FM)*

18:26 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Controlling air pollution is a key objective for us. We are committed to tackling all sources of pollution and ensuring people's rights to clean air. We work with local authorities and the Department for Environment, Food and Rural Affairs to meet European Union legislative requirements.

Mae rheoli llygredd aer yn amcan allweddol i ni. Rydym ni wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r holl ffynonellau llygredd a sicrhau hawliau pobl i aer glân. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i fodloni gofynion deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd.

18:26 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A report came out last week that linked pollution in cities to increased lung cancer, so this is a major public health issue for Cardiff Central constituents. What more can be done to have cleaner vehicles and cleaner buses and to get more people out of their cars, walking and cycling?

Cyhoeddwyd adroddiad yr wythnos diwethaf a oedd yn cysylltu llygredd mewn dinasoedd gyda mwy o ganser yr ysgyfaint, felly mae hwn yn fater iechyd cyhoeddus pwysig i etholwyr Canol Caerdydd. Beth arall y gellir ei wneud i gael cerbydau glanach a bysiau glanach a chael mwy o bobl allan o'u ceir, i gerdded a beicio?

18:27 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Active Travel (Wales) Bill is one way in which we are promoting more sustainable forms of travel, encouraging people to walk or cycle more. A recent study has shown that a 20% increase in cycling levels by 2015 could save the UK £207 million in reduced congestion, and £71 million in reduced pollution levels every year. Enshrining that commitment in primary legislation will give an important message to show that promoting active and healthy travel will not just benefit individuals in terms of their health, but will also help to reduce pollution.

Mae'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn un ffordd yr ydym yn hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio, gan annog pobl i gerdded neu feicio mwy. Mae astudiaeth ddiweddar wedi dangos y gallai cynnydd o 20% mewn lefelau beicio erbyn 2015 arbed £207 miliwn i'r DU trwy lai o dagfeydd, a £71 mewn lefelau llygredd is bob blwyddyn. Bydd ymgorffori'r ymrwymiad hwnnw mewn deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi neges bwysig i ddangos nad budd i unigolion yn unig o ran eu hiechyd yw hyrwyddo teithio llesol, ond ei fod hefyd yn helpu i leihau llygredd.

18:28 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, can you outline your plans to invest in supporting infrastructure for alternative fuel transport on our trunk road network? I am thinking specifically of electricity charging points and access to liquefied petroleum gas. What action has the Welsh Government taken to invest in the necessary supporting infrastructure to make access to alternative fuels feasible across Wales?

Brif Weinidog, a allwch chi amlinellu eich cynlluniau i fuddsoddi mewn seilwaith ategol ar gyfer cludiant tanwydd amgen ar ein rhwydwaith cefnffyrdd? Rwy'n meddwl yn benodol am bwyntiau gwefru trydan a mynediad at nwy petrolewm hylifedig. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i fuddsoddi yn y seilwaith ategol angenrheidiol i wneud mynediad at danwyddau amgen yn ymarferol ledled Cymru?

18:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

These are primarily matters for the market. There is greater provision for LPG than there is for electrical charging at this moment in time. We believe that, as there is a greater roll-out of hybrids and, ultimately, electric cars, we will see charging points being provided at a far greater rate than is the case at the moment. Ultimately, it is the price of oil that is driving the technology, in terms of cars in particular. Hydrogen cell technology has a role to play; we should not forget that the inventor of the hydrogen cell was Welsh, so we have made our contribution to reduce emission levels in that way as well. We look with interest at the hydrogen-cell-powered buses seen elsewhere in the world, and we would look in the future to encourage bus operators in Wales to consider the same technology.

Materion i'r farchnad yw'r rhain yn bennaf. Ceir mwy o ddarpariaeth ar gyfer LPG nag ar gyfer gwefru trydanol ar hyn o bryd. Rydym yn credu, wrth i fwy o geir hybrid ac, yn y pen draw, ceir trydan, gael eu cynhyrchu, y byddwn yn gweld pwyntiau gwefru yn cael eu darparu ar gyfradd llawer uwch nag ar hyn o bryd. Yn y pen draw, pris olew sy'n gyrru'r dechnoleg, o ran ceir yn arbennig. Mae gan dechnoleg cell hydrogen swyddogaeth i'w chyflawni; ni ddylem anghofio mai Cymro oedd dyfeisiwr y gell hydrogen, felly rydym ni wedi gwneud ein cyfraniad at leihau lefelau allyriadau yn y ffordd honno hefyd. Rydym yn edrych gyda diddordeb ar fysiau a bwerir gan gell hydrogen a welir mewn rhannau eraill o'r byd, a byddem yn ceisio yn y dyfodol, annog gweithredwyr bysiau yng Nghymru i ystyried yr un dechnoleg.

### Gwiriadau ar Wefannau Allanol

### Checks on External Websites

18:29 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*13. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa wiriadau sy'n cael eu cynnal ar wefannau allanol cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu linc iddynt o'i gwefan? OAQ(4)1189(FM)*

*13. Will the First Minister outline what checks are made on external websites before the Welsh Government website provides a link to them? OAQ(4)1189(FM)*

18:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

All content on the Welsh Government website is carefully considered before it is published, including links to any external websites. Links to external sites are included where they add value and provide additional useful or contextual information from a third party. Before a link to an external site is published, officials are requested to ensure that the content that it links to is relevant and does not contain information that could cause confusion. Links are checked to ensure that they are suitable in terms of content, and are not seen as an official endorsement.

Caiff yr holl gynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru ei ystyried yn ofalus cyn ei gyhoeddi, gan gynnwys dolenni i unrhyw wefannau allanol. Caiff dolenni i wefannau allanol eu cynnwys pan eu bod yn ychwanegu gwerth ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol neu gyd-destunol gan drydydd parti. Cyn y cyhoeddir dolen i wefan allanol, gofynnir i swyddogion sicrhau bod y cynnwys y mae'n cysylltu iddo yn berthnasol ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth a allai achosi dryswch. Caiff dolenni eu gwirio i sicrhau eu bod yn addas o ran cynnwys, ac nad ydynt yn cael eu hystyried fel bod yn cael cymeradwyaeth swyddogol.

18:30 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the First Minister for that response. It is normal for all organisations to link up to external websites, but do you agree, First Minister, that such sites need to be checked on a regular basis to ensure that no inappropriate or offensive content is displayed? Sometimes, sites get taken over. There is at least one Conservative Cabinet Minister whose name brings up a site with which she would probably not want to be associated.

Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Mae'n arferol i bob sefydliad gynnwys dolenni i wefannau allanol, ond a ydych chi'n cytuno, Brif Weinidog, bod angen gwirio gwefannau o'r fath yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gynnwys amhriodol neu sarhaus yn cael ei ddangos? Weithiau, mae gwefannau'n cael eu cymryd drosodd. Ceir o leiaf un Gweinidog Cabinet Ceidwadol y mae ei henw yn mynd at wefan y mae'n debyg na fyddai'n dymuno cael ei chysylltu â hi.

18:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The plot thickens. Having tempted Members with that news, he fails to provide the information. I am sure that that will be provided online at some point. This goes back to what happened on the Business Wales website. That has been fully investigated and it should not have happened. Even though that is not a Welsh Government website, nor was the content uploaded by Welsh Government officials, we understand that there is a duty to make sure that websites that could be linked to Government are appropriate.

Diddorol iawn. Wedi temtio Aelodau gyda'r newyddion yna, nid yw'n darparu'r wybodaeth. Rwy'n siŵr y bydd yn cael ei darparu ar-lein ar ryw bwynt. Mae hyn yn mynd yn ôl i'r hyn a ddigwyddodd ar wefan Busnes Cymru. Mae hynny wedi cael ei ymchwilio'n llawn, ac ni ddylai fod wedi digwydd. Er nad yw honno'n wefan Llywodraeth Cymru, ac na chafodd y cynnwys ei lanlwytho gan swyddogion Llywodraeth Cymru, rydym ni'n deall bod dyletswydd i wneud yn siŵr bod gwefannau a allai fod yn gysylltiedig â'r Llywodraeth yn briodol.

Senedd.tv Fideo Video

18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 14, OAQ(4)1203(FM), has been withdrawn.

Mae Cwestiwn 14, OAQ (4) 1203 (FM), wedi ei dynnu'n ôl.

Senedd.tv Fideo Video

**Masnach Deg**

**Fair Trade**

18:31 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

*15. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i fasnach deg? OAQ(4)1200(FM)*

*15. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's commitments to fair trade? OAQ(4)1200(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

18:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dyma'r bumed flwyddyn ers datgan mai Cymru yw cenedl masnach deg gyntaf y byd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei gweithgarwch i gefnogi'r ymgyrch. Cynhaliwyd 32 o weithgareddau ledled Cymru a dosbarthwyd 20 o grantiau bach gan Masnach Deg Cymru o gyllideb ein rhaglen Cymru o Blaid Affrica.

This is the fifth year since Wales was declared the world's first fair trade nation, and the Welsh Government has stepped up activities in support of the campaign. Thirty-two events have been held across Wales and 20 small grants have been distributed by Fair Trade Wales from our Wales for Africa programme budget.

Senedd.tv Fideo Video

18:31 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Diolch am hynny, Brif Weinidog. Nid yn unig y mae Cymru yn dathlu pum mlynedd fel cenedl masnach deg gyntaf y byd, ond tref Rhydaman oedd y dref gyntaf yng Nghymru i fod yn dref masnach deg. Yn awr, rydym yn gofyn i bobl ddod at ei gilydd i weithio er mwyn inni wneud tref Llanelli yn dref masnach deg. A ydych yn cytuno bod hyn yn beth da i'r dref, gan ei fod yn dod â mwy o bobl at ei gilydd, ac yn helpu pobl ar ffermydd yn Affrica?

Thank you for that, First Minister. Not only is Wales celebrating five years as the world's first fair trade nation, but Ammanford was the first town in Wales to become a fair trade town. We are now asking people to come together to work to make Llanelli a fair trade town. Do you agree that this is good for the town, as it brings more people together, and that it helps people on farms in Africa?

Senedd.tv Fideo Video

18:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n iawn. Mae'n bwysig dros ben am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae'n ffordd o sicrhau bod pobl yn prynu pethau sy'n gynaliadwy ac sy'n helpu ffermwyr dramor, yn enwedig yn Affrica. Hefyd, mae'n beth da i roi neges i bobl bod hyn yn rhywbeth sy'n werth ei wneud a bod hwn yn rhywbeth y dylai trefi eraill ei ystyried. Ar ddiwedd y dydd, mae'n llesol i ffermwyr tramor, sydd mewn sefyllfa bob blwyddyn lle nad ydynt yn gwybod a fyddant yn bwyta neu beidio. Wrth gwrs, rydym yn cymryd ein dyletswyddau fel Llywodraeth o ddifrif wrth sicrhau ein bod yn dangos ein bod yn gallu gweithio gyda nhw i sicrhau, fel pobl sy'n byw yn y byd hwn, ein bod yn gallu helpu ein gilydd.

That is right. It is exceptionally important for a number of reasons. First, it is a way of ensuring that people buy things that are sustainable and that help farmers in other countries, especially in Africa. It is also a good thing to send out the message that this is worth doing and that other towns should give it their consideration. At the end of the day, it benefits farmers in other countries, who face a situation every year of not knowing whether or not they will eat. Of course, we take our responsibilities as a Government seriously in ensuring that we demonstrate our ability to work with them to ensure that, as citizens of the world, we can help each other.

Senedd.tv Fideo Video

18:32 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Finance addressed the Fair Trade Wales sustainable procurement conference in May this year. During her speech, the Minister said that Wales can lead the way in making the trade in food fairer and more sustainable. What plans does the First Minister have to achieve this objective?

Anerchodd y Gweinidog Cyllid gynhadledd caffael cynaliadwy Masnach Deg Cymru ym mis Mai eleni. Yn ystod ei haraith, dywedodd y Gweinidog y gall Cymru arwain y ffordd i wneud y fasnach mewn bwyd yn decach ac yn fwy cynaliadwy. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gyflawni'r amcan hwn?

18:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Through supporting initiatives, as we have, to promote the buying of fair trade goods, particularly commodities such as—though not exclusively—coffee, chocolate and cotton. Those are all staple crops for farmers elsewhere in the world that are subject to wild price fluctuations. That much is important. In terms of trade in food, we have to bear in mind that we live in a society where food production is heavily subsidised. We must be mindful that, if we are not careful, that will be thrown back at us. I have said this many times before: subsidies for farming go beyond the economic; they go towards the social and cultural as well, otherwise they could not be justified. That is why we have them. However, we should bear in mind that there will be many farmers who struggle sometimes for under $1 a day, simply to feed their families. The help that we can give in buying their produce in a fair way through branded fair trade goods ensures that they are able to invest in a better future for their families.

Trwy fentrau ategol, fel sydd gennym, i hyrwyddo prynu nwyddau masnach deg, yn enwedig nwyddau fel—ond nid wedi'u cyfyngu i—coffi, siocled a chotwm. Mae'r rheini i gyd yn brif gnydau i ffermwyr mewn rhannau eraill o'r byd sy'n destun amrywiadau aruthrol mewn prisiau. Mae hynny'n bwysig. O ran masnach mewn bwyd, mae'n rhaid i ni gofio ein bod yn byw mewn cymdeithas lle mae cynhyrchu bwyd yn cael cymhorthdal sylweddol. Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol, os na fyddwn yn ofalus, y bydd hynny'n cael ei daflu yn ôl atom ni. Rwyf wedi dweud hyn lawer gwaith o'r blaen: mae cymorthdaliadau ar gyfer ffermio yn mynd y tu hwnt i fater economaidd; maen nhw'n mynd tuag at faterion cymdeithasol a diwylliannol hefyd, ni ellid eu cyfiawnhau fel arall. Dyna pam maen nhw gennym ni. Fodd bynnag, dylem gadw mewn cof y bydd llawer o ffermwyr yn gweithio'n galed iawn am lai na $1 y dydd weithiau, dim ond i fwydo eu teuluoedd. Mae'r cymorth y gallwn ei roi trwy brynu eu cynnyrch mewn ffordd deg trwy nwyddau masnach deg wedi'u brandio yn sicrhau y gallant fuddsoddi mewn dyfodol gwell i'w teuluoedd.

18:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

18:34

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have two changes to report to this week's business. The debate on the legislative consent motion on the Local Audit and Accountability Bill has been postponed until the autumn and I have reduced the time allocated to tomorrow's questions to the Counsel General. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol wedi ei gohirio tan yr hydref ac rwyf wedi lleihau'r amser a ddyrennir ar gyfer cwestiynau yfory i'r Cwnsler Cyffredinol. Dangosir busnes y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

18:34 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I thank you for your statement today and ask if you might consider two written statements from your colleagues. The first from the Minister for Economy, Science and Transport, because after a short debate held by my colleague, Suzy Davies, the Minister kindly undertook to consult on safe routes to school in the autumn. I wonder whether that could be brought up today, to know when that would take place and with whom she will be consulting.

Weinidog, rwyf yn diolch ichi am eich datganiad heddiw ac yn gofyn a fyddech yn fodlon ystyried dau ddatganiad ysgrifenedig gan eich cyd-weithwyr—y cyntaf gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, oherwydd ar ôl dadl fer a gynhaliwyd gan fy nghyd-weithiwr, Suzy Davies, cytunodd y Gweinidog yn garedig i ymgynghori ar lwybrau diogel i'r ysgol yn yr hydref. Tybed a ellid sôn am hynny heddiw, i gael gwybod pryd y bydd hynny'n digwydd a chyda phwy y bydd yn ymgynghori.

The second is a written statement from the Minister for Education and Skills. I and other Members in my region will have had a large number of e-mails from parents of Welsh-speaking pupils who are seeking to send their children to secondary school both this September and, more particularly, next September. The previous Minister for education was robust in requiring local authorities to make sure that they carried out their statutory obligations, particularly in places like Newport. It is a major worry, obviously, for pupils, not just for this September, as the provision of secondary schooling for Welsh-speaking pupils is at best poor in south-east Wales.

Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yw'r ail. Rwyf i ac Aelodau eraill yn fy rhanbarth wedi cael nifer fawr o negeseuon e-bost gan rieni disgyblion Cymraeg eu hiaith sydd am anfon eu plant i'r ysgol uwchradd y mis Medi hwn ac, yn fwy penodol, fis Medi nesaf. Roedd y Gweinidog addysg blaenorol yn gadarn o ran ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol, yn enwedig mewn llefydd fel Casnewydd. Mae'n peri pryder mawr, wrth gwrs, i ddisgyblion, nid dim ond ar gyfer y mis Medi hwn, gan fod darpariaeth addysg uwchradd ar gyfer disgyblion Cymraeg eu hiaith yn wael ar y gorau yn ne-ddwyrain Cymru.

18:36

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to the safe routes to school, the Minister for Economy, Science and Transport has said that she will update Members in the autumn and I am sure that she will do so. On the question regarding Welsh-language provision for high school pupils, the Minister for Education and Skills has heard your question and I am sure, like his predecessor, he will require local authorities to fulfil their statutory requirements.

O ran y llwybrau diogel i'r ysgol, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi dweud y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn yr hydref ac rwyf yn siŵr y bydd yn gwneud hynny. O ran y cwestiwn ynglŷn â darpariaeth Gymraeg i ddisgyblion ysgolion uwchradd, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi clywed eich cwestiwn ac rwyf yn siŵr y bydd, fel ei ragflaenydd, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni eu gofynion statudol.

18:36

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure, Minister that you share my disappointment that the Westminster Government has still not responded to part 1 of the Silk commission. Can I request a debate on the Westminster Government's response when it does finally come?

Rwyf yn siŵr, Weinidog eich bod yn rhannu fy siom fod Llywodraeth San Steffan yn dal heb ymateb i ran 1 comisiwn Silk. A gaf i ofyn am ddadl ar ymateb Llywodraeth San Steffan pan ddaw i law o'r diwedd?

18:36

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. The time for debating the UK Government's response to Silk part 1 will be when the UK Government does respond to it. The First Minister has asked for progress on Silk part 1 this week and, as I say, the time to debate it will be when we have that response.

Cewch. Bydd amser i drafod ymateb Llywodraeth y DU i ran 1 Silk pan fydd Llywodraeth y DU yn ymateb iddo. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn am gynnydd ar ran 1 Silk yr wythnos hon ac, fel y dywedais, bydd amser i'w drafod pan fydd yr ymateb hwnnw wedi dod i law.

18:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bethan Jenkins, do you wish to speak next? Stop gossiping with Jocelyn Davies.

Bethan Jenkins, a ydych am siarad nesaf? Rhowch y gorau i hel clecs gyda Jocelyn Davies.

18:37

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sorry; I was talking—my apologies. I want to ask about the merger of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales with Cadw, on which we had a statement this week from the Minister for Culture and Sport. I know that this has been an ongoing issue and we have taken evidence on this with the previous Minister, Huw Lewis. I wonder whether we could have a debate or a statement here in this Chamber, because I know that there are still people who are concerned about this particular merger and I would like for us in the National Assembly to have that discussion.

Mae'n ddrwg gennyf; roeddwn yn siarad—ymddiheuriadau. Rwyf am ofyn ynghylch uno Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw, y cawsom ddatganiad arno yr wythnos hon gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon. Gwn fod hwn wedi bod yn bwnc trafod parhaus ac rydym wedi cymryd tystiolaeth ar hyn gyda'r Gweinidog blaenorol, Huw Lewis. Tybed a allem gael dadl neu ddatganiad yma yn y Siambr hon, gan fy mod yn gwybod bod rhoi pobl yn dal i bryderu am yr uno penodol hwn a hoffwn i ni yn y Cynulliad Cenedlaethol gael y drafodaeth honno.

18:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Culture and Sport, in his written statement, stated that he would make a final decision on how to proceed once he had considered the further work that he had commissioned, along with the responses to the consultation. I am sure that when he has finalised his decision, he will come back to Members, either with a written statement or a statement in the Chamber.

Dywedodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, yn ei ddatganiad ysgrifenedig, y byddai'n gwneud penderfyniad terfynol ar sut i symud ymlaen wedi iddo ystyried y gwaith pellach yr oedd wedi'i gomisiynu, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rwyf yn siŵr y bydd, pan fydd wedi llunio'i benderfyniad terfynol, yn dod yn ôl at yr Aelodau, naill ai gyda datganiad ysgrifenedig neu ddatganiad yn y Siambr.

18:38 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, further to the written statement this morning from the Minister for Health and Social Services regarding the arrangements to second the chief executive of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board to Betsi Cadwaladr University Local Health Board to try to sort out its problems for three to four days a week, could we ask for a statement from the Minister for health on how exactly ABMU will manage, given that it is in the middle of a discussion about reconfiguration and has its own issues with regard to finances? How exactly will that arrangement tie in with the issues in Neath Port Talbot, Bridgend and Swansea and the part of the Vale of Glamorgan that comes under that area?

Weinidog, yn sgil y datganiad ysgrifenedig y bore yma gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y trefniadau i secondio prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i geisio datrys ei broblemau am dri i bedwar diwrnod yr wythnos, a allem ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ar sut yn union y bydd PABM yn ymdopi, o ystyried ei fod yng nghanol trafodaeth am ad-drefnu a bod ganddo ei broblemau ei hun o ran cyllid? Sut yn union y bydd y trefniant yn clymu â'r materion yng Nghastell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe a'r rhan o Fro Morgannwg sy'n dod o dan yr ardal honno?

Also, Minister, I noted on the BBC at 11.30 a.m. this morning, the details of the First Minister's statement on the next item—the legislative programme. May I ask whether it is now the Government's habit to release statements to the media before they are given to this Chamber, or even before they are made available to business managers? The Liberal Democrat business manager had that written statement at 1 p.m. and it was on the BBC about an hour and a half before that. It is important that we establish what this Government's priorities are on how statements are released.

Hefyd, Weinidog, nodais ar y BBC am 11:30 y bore yma, fanylion datganiad y Prif Weinidog ar yr eitem nesaf —y rhaglen ddeddfwriaethol. A gaf i ofyn a yw'n arfer gan y Llywodraeth bellach i ryddhau datganiadau i'r cyfryngau cyn iddynt gael eu rhoi i'r Siambr hon, neu hyd yn oed cyn iddynt fod ar gael i reolwyr busnes? Cafodd rheolwr busnes y Democratiaid Rhyddfrydol y datganiad ysgrifenedig hwnnw am 1 p.m. ac roedd ar y BBC tua awr a hanner cyn hynny. Mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth hon o ran y ffordd y mae datganiadau'n cael eu rhyddhau.

18:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure the Member that the statement for the legislative programme was finalised just before 1 p.m. when my officials gave out the legislative programme statement to business managers. In relation to ABMU, I am sure that the Minister for Health and Social Services has been given very robust assurance that ABMU will be very adequately managed while David Jenkins is, as you say, helping BCU health board with its difficulties.

Gallaf sicrhau'r Aelod fod y datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol wedi'i lunio'n derfynol ychydig cyn 1 p.m. pan roddodd fy swyddogion ddatganiad y rhaglen ddeddfwriaethol i reolwyr busnes. O ran PABM, rwyf yn siŵr bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael sicrwydd cadarn iawn y bydd PABM yn cael ei reoli'n ddigonol iawn tra bydd David Jenkins, fel y dywedwch, yn helpu Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gyda'i anawsterau.

18:39 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Welsh football is certainly picking up and going places. It is an exciting time now for teams in my constituency, with Prestatyn going through to the next round in Europe, taking the Welsh flag there, following in the footsteps of Rhyl, which did that previously, and also with Rhyl going into the Welsh Premier League. All is going well until you read about the sad state of Barry Town and Llanelli, which have been taken out of the Football Association of Wales, and what can only be described as the disgraceful behaviour of the FAW council members who refused to discuss this like grown-up people. Do you think that the Minister for sport could look at what he could do to make sure that the FAW does not make these sweeping statements and does not put Welsh football back down into the doldrums, but that we do have something to celebrate?

Weinidog, mae pêl-droed Cymru yn sicr yn gwella ac yn llwyddo. Mae'n gyfnod cyffrous yn awr i dimau yn fy etholaeth i, wrth i Brestatyn fynd ymlaen i'r rownd nesaf yn Ewrop, gan fynd â baner Cymru yno, a dilyn yn ôl traed y Rhyl, a wnaeth hynny eisoes, a hefyd wrth i'r Rhyl gyrraedd Uwch Gynghrair Cymru. Mae popeth yn mynd yn dda hyd nes y byddwch yn darllen am gyflwr trist Tref y Barri a Llanelli, sydd wedi eu cymryd allan o Gymdeithas Bêl-droed Cymru, a'r hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel ymddygiad gwarthus aelodau cyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru a wrthododd drafod hyn fel oedolion. A ydych yn credu y gallai'r Gweinidog chwaraeon edrych ar yr hyn y gallai ei wneud i wneud yn siŵr nad yw Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n gwneud y datganiadau ysgubol hyn ac nad yw'n rhoi pêl-droed Cymru yn ôl mewn sefyllfa farwaidd, ond fod gennym rywbeth i'w ddathlu?

18:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ultimately, these are matters that fall under the responsibility of the FAW, but I am aware that the Minister for Culture and Sport's officials are in regular contact with the FAW on these matters. I understand that several Members have met with the Minister to discuss their concerns face-to-face.

Yn y pen draw, cyfrifoldeb y Gymdeithas Bêl-droed yw'r materion hyn, ond gwn fod swyddogion y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon mewn cysylltiad rheolaidd â'r Gymdeithas ar y materion hyn. Rwyf ar ddeall bod nifer o Aelodau wedi cwrdd â'r Gweinidog i drafod eu pryderon wyneb yn wyneb.

18:41 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would like to request a statement on upcoming trade missions that are planned to be undertaken by the Welsh Government. I would very much welcome specific details about travel arrangements, following concerns in certain aviation circles that the Welsh-Government-owned airport has yet to have the pleasure of a Welsh Government Minister travelling officially on a trade mission from it. It is extremely important to keep airline providers engaged at this important and pivotal time for our publicly owned airport, and I believe that travelling on Cardiff-based KLM for official trade missions would be a great way for this Government to show that it values its loyalty.

Weinidog, hoffwn ofyn am ddatganiad ar deithiau masnach sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn croesawu'n fawr iawn fanylion penodol am drefniadau teithio, yn sgil pryderon mewn rhai cylchoedd hedfan nad oes yr un o Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi teithio'n swyddogol ar daith fasnach o faes awyr Caerdydd, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Mae'n eithriadol bwysig cynnal cyswllt â chwmnïau hedfan ar yr adeg bwysig ac allweddol hon i'n maes awyr sy'n eiddo cyhoeddus, ac rwyf yn credu y byddai teithio ar awyrennau KLM o Gaerdydd ar deithiau masnach swyddogol yn ffordd wych i'r Llywodraeth hon i ddangos ei bod yn gwerthfawrogi teyrngarwch y cwmni.

18:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure Byron Davies that the First Minister flew out of Cardiff Airport two weeks ago, and I understand that he is flying out again—is it next week?

Gallaf sicrhau Byron Davies fod y Prif Weinidog wedi hedfan o Faes Awyr Caerdydd bythefnos yn ôl, ac rwyf ar ddeall ei fod yn hedfan eto—ai'r wythnos nesaf?

18:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I was there last week.

Yr oeddwn yno yr wythnos diwethaf.

18:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, that is twice.

Felly, dyna ichi ddwywaith.

18:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r rhaglen i adleoli swyddfeydd post y Goron i fusnesau preifat yn pryderu staff a defnyddwyr yn y gogledd. Rwy'n meddwl yn benodol am swyddfa Caernarfon—

The programme to relocate Crown post offices to private businesses is a matter of concern for staff and users in north Wales. I am thinking specifically about the office in Caernarfon—

18:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry, I am not getting the translation.

Mae'n ddrwg gennyf, nid wyf yn clywed y cyfieithiad.

18:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydych yn ei glywed rŵan? A yw'r cyfieithu'n dod drwyddo?

Can you hear it now? Is the translation coming through?

18:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is now, thank you.

Y mae yn awr, diolch ichi.

18:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'r rhaglen i adleoli swyddfeydd post y Goron i fusnesau preifat yn pryderu staff a defnyddwyr fel ei gilydd yn y gogledd. Rwy'n meddwl yn benodol am swyddfa Caernarfon a hefyd swyddfa Llangefni. Ni wn pa bwysau mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hyn, ond a gawn ddatganiad am y camau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i ddiogelu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn ym mhob rhan o Gymru?

The programme to relocate Crown post offices to private businesses is a matter of concern for staff and users alike in north Wales. I am thinking specifically about the office in Caernarfon and also the office in Llangefni. I do not know what pressure the Welsh Government has brought to bear on the UK Government in relation to this, but could we have a statement on the steps that the Welsh Government has taken to safeguard this valuable service in all parts of Wales?

18:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Post offices are a valuable service, and I am sure that the Minister has made his views known to the UK Government, but I will ask him to make a statement at the most appropriate time.

Mae swyddfeydd post yn wasanaeth gwerthfawr, ac rwyf yn siŵr bod y Gweinidog wedi lleisio'i farn wrth Lywodraeth y DU, ond byddaf yn gofyn iddo wneud datganiad ar yr adeg fwyaf priodol.

18:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I wonder whether you could prevail upon your colleague to make a statement on support for the voluntary sector in Wales. The Welsh Government gives a not inconsiderable amount of money to support volunteering in Wales, yet Hay and District Community Support and Llandrindod Wells Volunteer Bureau and Community Support are shortly to meet with a view to winding up their operations, leaving two of our market towns without a volunteer bureau and community support structure. I am sure that you will be as concerned as I am that that is the case. Could we have a statement on what the Welsh Government can do to support local volunteering in all parts of Wales?

Weinidog, tybed a allech bwyso ar eich cyd-weithiwr i wneud datganiad am gefnogaeth i'r sector gwirfoddol yng Nghymru? Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi swm nid ansylweddol o arian i gefnogi gwirfoddoli yng Nghymru, ac eto bydd Cefnogaeth Gymunedol y Gelli a'r Fro a Chanolfan Gwirfoddolwyr a Chymorth Cymunedol Llandrindod yn cwrdd cyn hir â'r bwriad o ddirwyn eu gweithrediadau i ben, gan adael dwy o'n trefi marchnad heb ganolfan gwirfoddolwyr a heb strwythur cymorth cymunedol. Rwyf yn siŵr y byddwch mor bryderus â minnau am hynny. A gawn ni ddatganiad am yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi gwirfoddoli lleol ym mhob rhan o Gymru?

Secondly, could we have a statement on the Government's approach to dealing with freedom of information requests? I submitted a freedom of information request regarding correspondence between the previous Minister for education and Powys County Council on the issue of John Beddoes School on 1 May. My office has chased that department five times, and we have been told that we would get a response on 21 June, 26 June and 1 July, and now I am told that I will get it on 18 July. If it comes on 18 July, that will be just 24 hours before the statutory notice for objections to the proposal goes through. My constituents would like to see the nature of the correspondence between the Minister for education and the council before deciding whether to object to those proposals and what the content of that objection should be. Do you think that this is a satisfactory state of affairs, when Assembly Members and their constituents are unable to access such information between two public bodies?

Yn ail, a gawn ni ddatganiad ar ymagwedd y Llywodraeth tuag at ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth? Cyflwynais gais rhyddid gwybodaeth ynghylch gohebiaeth rhwng y Gweinidog addysg blaenorol a Chyngor Sir Powys ar fater Ysgol John Beddoes ar 1 Mai. Mae fy swyddfa wedi mynd ar ôl yr adran honno bum gwaith, a chawsom wybod y byddem yn cael ymateb ar 21 Mehefin, 26 Mehefin ac 1 Gorffennaf, ac yn awr rwyf yn clywed y byddaf yn ei gael ar 18 Gorffennaf. Os daw ar 18 Gorffennaf, fydd hynny ddim ond 24 awr cyn y bydd yr hysbysiad statudol ar gyfer gwrthwynebiadau i'r cynnig yn mynd drwodd. Byddai fy etholwyr yn hoffi gweld natur yr ohebiaeth rhwng y Gweinidog addysg a'r cyngor cyn penderfynu p'un ai i wrthwynebu'r cynigion hynny a'r hyn y dylid ei gynnwys yn y gwrthwynebiad hwnnw. A ydych yn credu bod hon yn sefyllfa foddhaol, pan nad yw Aelodau'r Cynulliad a'u hetholwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth o'r fath rhwng dau gorff cyhoeddus?

18:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very concerned to hear that you have been given assurances that you would receive this information on several dates, and I will certainly speak to the Minister after Plenary today to see whether we can expedite that for you.

Rwyf yn bryderus iawn o glywed eich bod wedi cael sicrwydd y byddech yn derbyn y wybodaeth hon ar nifer o ddyddiadau, a byddaf yn sicr yn siarad â'r Gweinidog ar ôl y Cyfarfod Llawn heddiw i weld a allwn hwyluso hynny ichi.

In relation to your concerns about the voluntary sector, obviously, as a Government, we do support many aspects of the third sector. It is very concerning to hear of the two volunteer bureaux—which I think you said—in your constituency. We, obviously, have to look at the way that we fund the third sector in the light of the UK Government cutting our budget so heavily, but I am sure that, once we have made the decisions, we will be able to bring a statement forward.

O ran eich pryderon am y sector gwirfoddol, yn amlwg, fel Llywodraeth, rydym yn cefnogi llawer o agweddau ar y trydydd sector. Mae'n destun pryder mawr clywed am y ddwy ganolfan wirfoddoli—yr wyf yn meddwl ichi ei ddweud—yn eich etholaeth. Yn amlwg, mae'n rhaid inni edrych ar y ffordd yr ydym yn ariannu'r trydydd sector ar ôl i Lywodraeth y DU dorri ein cyllideb mor drwm, ond rwyf yn siŵr y byddwn, ar ôl inni wneud y penderfyniadau, yn gallu cyflwyno datganiad.

18:45

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to ask for two statements. The first would be an update on the Welsh Government's approach to plain packaging for cigarettes, following the very disappointing UK Government u-turn on the issue. Hopefully, that statement will include some reassurances that the Welsh Government will put health first and will not bow to the profit-driven arguments put forward by the tobacco industry.

Hoffwn ofyn am ddau ddatganiad. Y wybodaeth ddiweddaraf am ymagwedd Llywodraeth Cymru at becynnau plaen ar sigaréts yw'r cyntaf, yn dilyn tro pedol siomedig iawn Llywodraeth y DU ar y mater. Rwyf yn gobeithio y bydd y datganiad yn rhoi rhywfaint o sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi iechyd yn gyntaf ac na fydd yn plygu i'r dadleuon sy'n cael eu gyrru gan elw a gyflwynwyd gan y diwydiant tybaco.

Secondly, I would like an update on the Welsh Government's approach to the implementation of EU regulation 1099/2009 on the protection of animals at the time of killing. The Welsh Government has consulted on this, so I would welcome some clarity on how the Welsh Government intends to proceed.

Yn ail, hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am ymagwedd Llywodraeth Cymru at weithredu rheoliad yr UE 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar hyn, felly byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu bwrw ymlaen.

18:46

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Following the recent statement by the Secretary of State for Health postponing the introduction of standardised packaging, obviously, that is a matter for concern. I know that the Minister for Health and Social Services has made his views very clear on the issue. I understand that he has written to the Secretary of State for Health several times, urging him to take this decision forward and put legislation in place on a UK-wide basis. We will continue to make our views known to the Secretary of State for Health, and I am sure that other devolved administrations will also do so.

Yn sgil y datganiad diweddar gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn gohirio cyflwyno pecynnu safonol, wrth gwrs, mae hynny'n destun pryder. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud ei farn yn glir iawn ar y mater. Rwyf ar ddeall ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd sawl gwaith, yn ei annog i fynd â'r penderfyniad hwn yn ei flaen a rhoi deddfwriaeth ar waith ledled y DU. Byddwn yn parhau i leisio'n barn wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, ac rwyf yn siŵr y bydd y gweinyddiaethau datganoledig eraill hefyd yn gwneud hynny.

In relation to your question regarding the approach to the implementation of the regulations in relation to the protection of animals at the time of killing, the Welsh Government is working with DEFRA and other administrations to implement the regulations. Until such time that new enforcement legislation is in place, the industry has been kept informed about current arrangements and enforcement measures that are in place and that are required by the Food Standards Agency. Ultimately any legal sanction required at present will be brought either under the Animal Welfare Act 2006 or even the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006.

O ran eich cwestiwn ynghylch y dull o weithredu'r rheoliadau o ran diogelu anifeiliaid adeg eu lladd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda DEFRA a gweinyddiaethau eraill i weithredu'r rheoliadau. Hyd nes y bydd deddfwriaeth orfodi newydd yn ei lle, mae'r diwydiant wedi bod yn cael gwybod am y trefniadau a'r mesurau gorfodi presennol sydd ar waith ac sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Yn y pen draw bydd unrhyw gosb gyfreithiol sy'n ofynnol ar hyn o bryd yn dod naill ai o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu hyd yn oed Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

18:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I endorse the comments from Peter Black about the legislative statement that we are going to have. The BBC had it up on its website a full hour and a half before it was released to Members. The Government does have form on this, with the programme for government. Obviously, the information was very slow coming forward, and the Government had actually begun the statement before the information was available to Members. It is a great discourtesy on the part of the Government, and I hope that it will rectify this shortfall by showing more courtesy to Members when statements are brought forward.

Ategaf sylwadau gan Peter Black am y datganiad deddfwriaethol yr ydym yn mynd i'w gael. Roedd y datganiad ar wefan y BBC awr a hanner gyfan cyn iddo gael ei ryddhau i'r Aelodau. Mae gan y Llywodraeth hanes o wneud hyn, gyda'r rhaglen lywodraethu. Wrth gwrs, roedd y wybodaeth yn araf iawn yn dod ymlaen, ac yn wir roedd y Llywodraeth wedi dechrau'r datganiad cyn bod y wybodaeth ar gael i'r Aelodau. Mae'n anghwrteisi mawr ar ran y Llywodraeth, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn unioni'r diffyg hwn drwy ddangos mwy o gwrteisi tuag at yr Aelodau pan fydd datganiadau'n cael eu cyflwyno.

I also seek two statements, the first of which is on bus services. Could we have an impact assessment statement from the Government? Due to the cuts to the bus service operators grants, many local authorities, particularly in South Wales Central and the Vale of Glamorgan, are cutting back dramatically on the bus services that are there. The First Minister said, during questions to the First Minister, that you provide free travel for pensioners, but there is no point in having a card that entitles you to free travel if you cannot access a bus to undertake that. It is a bit like having a can of baked beans but not having a tin opener to open it. We need to understand exactly what work the Government is undertaking with local authorities.

Rwyf finnau hefyd yn gofyn am ddau ddatganiad, y cyntaf yn ymwneud â gwasanaethau bysiau. A gawn ni ddatganiad ar yr asesiad o'r effaith gan y Llywodraeth? Oherwydd y toriadau i grantiau gweithredwyr gwasanaethau bysiau, mae llawer o awdurdodau lleol, yn enwedig yng Nghanol De Cymru a Bro Morgannwg, yn torri'n ôl yn ddramatig ar y gwasanaethau bysiau sydd yno. Dywedodd y Prif Weinidog, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, eich bod yn darparu teithio am ddim i bensiynwyr, ond nid oes unrhyw bwynt mewn cael cerdyn sy'n rhoi hawl ichi i deithio am ddim os nad oes bws lle gallwch ddefnyddio eich cerdyn. Mae ychydig fel cael tun o ffa pob, ond heb agorwr tuniau i'w agor. Mae angen inni ddeall yn union pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud gydag awdurdodau lleol.

Secondly, could we have a statement from the Minister for local government—your good self—over the way that local authorities are funded in Wales? My colleague Alun Cairns has done considerable research in this field, and he has indicated that the Vale of Glamorgan, in particular, is massively underfunded in relation to neighbouring authorities. There is no wonder that the First Minister has such a big smile on his face, because his own local authority has tens of millions of pounds more, as opposed to what the Vale of Glamorgan Council has. Could we have a statement on exactly how the Welsh Government works out the funding formula and why it discriminates so much against residents in the Vale of Glamorgan and supports the First Minister's constituency so heavily?

Yn ail, a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog llywodraeth leol—chi yw hwnnw—am y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cael eu hariannu yng Nghymru? Mae fy nghyd-weithiwr Alun Cairns wedi gwneud cryn dipyn o waith ymchwil yn y maes hwn, ac mae wedi dangos bod Bro Morgannwg, yn arbennig, yn cael ei thanariannu'n aruthrol o'i chymharu ag awdurdodau cyfagos. Does dim rhyfedd fod gan y Prif Weinidog wên mor fawr ar ei wyneb, oherwydd mae gan ei awdurdod lleol ef ddegau o filiynau o bunnoedd yn fwy, o'i gymharu â'r hyn sydd gan Gyngor Bro Morgannwg. A gawn ni ddatganiad ar sut yn union y mae Llywodraeth Cymru'n cyfrifo'r fformiwla ariannu a pham ei bod yn gwahaniaethu cymaint yn erbyn trigolion ym Mro Morgannwg ac yn cefnogi etholaeth y Prif Weinidog mor drwm?

18:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that Alun Cairns would be better off using his time to lobby his own Government to make sure that our budget was not being cut so much. Clearly, I have a budget for local government that I then have to share out to all the local authorities. You will appreciate that having our budget cut by £1.7 billion over two years is not conducive to giving local authorities the funding that he so wishes.

Rwyf yn meddwl y byddai'n well i Alun Cairns fod wedi defnyddio'i amser i lobïo ei Lywodraeth ei hun i wneud yn siŵr nad oedd ein cyllideb yn cael ei thorri cymaint. Wrth gwrs, mae gennyf gyllideb ar gyfer llywodraeth leol y mae'n rhaid imi ei rhannu rhwng pob un o'r awdurdodau lleol. Byddwch yn cydnabod nad yw torri ein cyllideb £1.7 biliwn dros ddwy flynedd yn ei gwneud yn hawdd rhoi i'r awdurdodau lleol yr arian y mae am ei weld.

Regarding the legislative programme, you heard me give assurance that the statement regarding the legislative programme was only finalised just before 1 p.m. I have not seen what is on the BBC website, but it does not take Einstein to work out our legislative programme. We have a legislative programme that is very well known, and I can assure you that the actual statement was not given to the BBC before it went to Assembly Members.

O ran y rhaglen ddeddfwriaethol, rydych wedi fy nghlywed yn rhoi sicrwydd mai ychydig cyn 1 p.m. y cafodd y datganiad am y rhaglen ddeddfwriaethol ei gwblhau'n derfynol. Nid wyf wedi gweld yr hyn sydd ar wefan y BBC, ond nid oes rhaid bod yn Einstein i weithio allan beth fydd ein rhaglen ddeddfwriaethol. Mae gennym raglen ddeddfwriaethol sy'n hysbys iawn, a gallaf eich sicrhau na roddwyd y datganiad ei hun i'r BBC cyn ei anfon at Aelodau'r Cynulliad.

18:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Russell George. Russell George is not in the Chamber. Thank you, Minister.

Galwaf ar Russell George. Nid yw Russell George yn y Siambr. Diolch, Weinidog.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 6:50 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 6:50 p.m.*

18:50

# Datganiad: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

# Statement: The Legislative Programme

Senedd.tv Fideo Video

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Pan gyflwynais raglen ddeddfwriaethol bum mlynedd y Llywodraeth, dywedais ei bod yn rhaglen uchelgeisiol iawn, ac y byddai'n helpu ni i wella gwasanaethau cyhoeddus ac yn creu cyfleoedd i bobl ledled Cymru. Rydym wedi gweld sawl Bil yn cael eu cyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf, a sawl yn cael Cydsyniad Brenhinol ac yn dod yn Ddeddfau.

When I introduced the Government's five-year legislative programme, I said that it was a very ambitious programme, and that it would help us to improve public services and create opportunities for people across Wales. We have seen several Bills introduced over the last year, and several get Royal Assent and become Acts.

This year, as I said, has seen the introduction of some significant and life-changing Bills for the people of Wales. In January, we introduced the Social Services and Well-being (Wales) Bill, which will provide, for the first time, a coherent legal framework to transform social services in Wales. In February we introduced the Active Travel (Wales) Bill, which has already been mentioned in the course of today's proceedings, to help people become healthier, more active and more environmentally aware. In April, we introduced the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill, which, among other things, will establish a more co-ordinated approach between all providers of post-16 education. On 1 July, we introduced the Education (Wales) Bill to provide for the registration of the education workforce and reform of the statutory framework for children and young people with special educational needs. On 2 July, a historic day for Wales, I believe, this Assembly approved the Human Transplantation (Wales) Bill, which all parties helped to shape, demonstrating true cross-party working. One of the more remarkable things about the debate on 2 July was hearing Members say that they would not make their minds up until the end of the debate, which, as we know, is unusual in politics. It was an unusual, but perhaps refreshing, approach taken by some Members on that occasion.

Mae eleni, fel y dywedais, wedi gweld cyflwyno rhai Biliau arwyddocaol ac sy'n newid bywyd i bobl Cymru. Ym mis Ionawr, cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gennym, a fydd yn darparu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol cydlynol i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Ym mis Chwefror, cyflwynwyd y Bil Teithio Llesol (Cymru), sydd eisoes wedi cael ei grybwyll yn ystod trafodion heddiw, i helpu pobl i ddod yn iachach, yn fwy heini ac yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Ym mis Ebrill, cyflwynwyd y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) gennym, a fydd, ymhlith pethau eraill, yn sefydlu dull mwy cydgysylltiedig rhwng yr holl ddarparwyr addysg ôl-16. Ar 1 Gorffennaf, cyflwynwyd Bil Addysg (Cymru) i ddarparu ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg a diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Ar 2 Gorffennaf, diwrnod hanesyddol i Gymru, yn fy marn i, cymeradwyodd y Cynulliad hwn y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), y mae pob plaid wedi helpu i'w lunio, gan ddangos gweithio trawsbleidiol gwirioneddol. Un o'r pethau mwyaf nodedig am y ddadl ar 2 Gorffennaf oedd clywed Aelodau yn dweud na fyddent yn penderfynu tan ddiwedd y ddadl, sydd, fel y gwyddom, yn anghyffredin mewn gwleidyddiaeth. Defnyddiwyd ymagwedd anghyffredin, ond calonogol efallai, gan rai Aelodau ar yr achlysur hwnnw.

We will be introducing a further eight Bills this year. We are committed as a Government to the delivery of efficient, effective and accessible public services across the whole of Wales. This is important because of the impact that they have on the day-to-day quality of the lives of our communities, and, specifically, the most vulnerable individuals and families. As far as our legislative progress is concerned, discussions are under way with regard to publishing a draft public services workforce Bill. This comes on the back of a Green Paper that was consulted on in 2012, and the responses were published in May. Although we had intended bringing forward legislation in the second year of the programme, it was important that we considered all of the issues raised with us to ensure that any legislation in this area was appropriate and robust. We will therefore publish the Bill for consultation this autumn, with a view to introducing the Bill before the 2014 summer recess.

Byddwn yn cyflwyno wyth Bil arall eleni. Rydym wedi ymrwymo fel Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a hygyrch ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn bwysig oherwydd yr effaith a gânt ar ansawdd bywydau ein cymunedau o ddydd i ddydd, ac, yn benodol, yr unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Cyn belled ag y mae ein cynnydd deddfwriaethol yn y cwestiwn, mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chyhoeddi Bil gweithlu gwasanaethau cyhoeddus drafft. Daw hyn yn sgil Papur Gwyrdd yr ymgynghorwyd arno yn 2012, a chafodd yr ymatebion eu cyhoeddi ym mis Mai. Er ein bod wedi bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn ail flwyddyn y rhaglen, roedd yn bwysig ein bod yn ystyried yr holl faterion a godwyd gyda ni i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn briodol ac yn gadarn. Felly, byddwn yn cyhoeddi'r Bil ar gyfer ymgynghoriad yr hydref hwn, gyda golwg ar gyflwyno'r Bil cyn toriad yr haf 2014.

After the summer recess, we will introduce the national health service finance (Wales) Bill, which will bring about the financial flexibility that local health boards need to ensure that they focus on the challenges of service delivery. A three-year financial regime, rather than an annual financial regime, will mean that LHBs will be able to make prudent long-term decisions in the interests of both patients and the NHS as a whole. In view of the urgent need for financial flexibility, with the agreement of the Presiding Officer and the support of the Business Committee, I propose that we use the fast-track procedure through the legislative process. This is not in any way intended to limit the scrutiny that Assembly Members are able to give to the Bill, but reflects the high level of support in principle that Members have already given, and the window of opportunity that we have to ensure that LHBs have the financial flexibility to deliver the best value services that they can, for the largest number of patients, within the most appropriate timescale.

Ar ôl toriad yr haf, byddwn yn cyflwyno Bil cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), a fydd yn arwain at yr hyblygrwydd ariannol sydd ei angen ar fyrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar heriau darparu gwasanaethau. Bydd trefn ariannol tair blynedd, yn hytrach na threfn ariannol flynyddol, yn golygu y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gallu gwneud penderfyniadau tymor hir doeth er lles y cleifion a'r GIG yn ei gyfanrwydd. O ystyried yr angen brys am hyblygrwydd ariannol, gyda chytundeb y Llywydd a chefnogaeth y Pwyllgor Busnes, rwy'n cynnig ein bod yn defnyddio'r weithdrefn llwybr cyflym drwy'r broses ddeddfwriaethol. Nid oes bwriad yn hyn o beth, mewn unrhyw ffordd, i gyfyngu ar y gwaith craffu y mae Aelodau'r Cynulliad yn gallu ei roi i'r Bil, ond mae'n adlewyrchu'r lefel uchel o gefnogaeth mewn egwyddor y mae Aelodau eisoes wedi'i roi, a'r cyfle sydd gennym i sicrhau bod gan Fyrddau Iechyd Lleol hyblygrwydd ariannol i ddarparu'r gwerth gorau y gallant o ran gwasanaethau, ar gyfer y nifer fwyaf o gleifion, o fewn yr amserlen fwyaf priodol.

During November, we will bring forward the housing (Wales) Bill, which will address several key issues. It will strengthen homelessness legislation by putting more emphasis on prevention. It will improve standards in the private rented sector by introducing a licensing system for landlords and letting agents.

Yn ystod mis Tachwedd, byddwn yn cyflwyno Bil Tai (Cymru), a fydd yn mynd i'r afael â sawl mater allweddol. Bydd yn cryfhau deddfwriaeth ddigartrefedd drwy roi mwy o bwyslais ar atal. Bydd yn gwella safonau yn y sector rhentu preifat drwy gyflwyno system drwyddedu ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod.

It will allow local authorities to charge a higher rate of council tax on long-term empty properties and will assist the development of housing co-operatives. The Bill will also set standards for local authority rents, service charges and quality of accommodation. It will place duties on local authorities to meet the needs of Gypsies and Travellers, and, following agreement with the Treasury, the Bill will abolish the housing revenue account subsidy system, giving local authorities the flexibility to invest in tenants' homes.

Bydd yn caniatáu i awdurdodau lleol godi cyfraddau uwch o dreth gyngor ar eiddo gwag tymor hir a bydd yn cynorthwyo datblygu tai cydweithredol. Bydd y Bil hefyd yn gosod safonau ar gyfer rhenti awdurdodau lleol, taliadau gwasanaeth ac ansawdd y llety. Bydd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr, ac, yn dilyn cytundeb gyda'r Trysorlys, bydd y Bil yn diddymu system gymhorthdal y cyfrif refeniw tai, gan roi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn cartrefi tenantiaid.

We are aware that fly grazing, or the abandonment of horses, is an increasing problem for local authorities. The legislation that is currently available to local authorities has proved inadequate to tackle the issues on the scale that we are currently experiencing. It is therefore proposed that local authorities across Wales be given the tools to enable them to seize, impound and dispose of horses, through selling, re-homing or destruction in a humane manner, as appropriate and where circumstances dictate. We believe that legislation on fly grazing and the abandonment of horses and ponies will deliver an effective solution to the problem, by making those individuals who fly graze horses and ponies accountable for their actions, and through addressing the unacceptable nuisance of fly grazing that causes social, public safety, economic and environmental harm, and places financial burdens on individuals and the taxpayer. Legislation that will tackle this problem will be brought forward before the end of this year.

Rydym yn ymwybodol bod pori anghyfreithlon, neu fynd a gadael ceffylau, yn broblem gynyddol i awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd ar gael i awdurdodau lleol wedi bod yn annigonol i fynd i'r afael â'r materion ar y raddfa yr ydym yn eu profi ar hyn o bryd. Felly cynigir bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael yr offer i'w galluogi i atafaelu, corlannu a chael gwared ar geffylau, drwy werthu, ailgartrefu neu ladd heb boen, fel y bo'n briodol a phan fo amgylchiadau yn mynnu hynny. Rydym yn credu y bydd deddfwriaeth ar bori anghyfreithlon a mynd a gadael ceffylau a merlod yn darparu ateb effeithiol i'r broblem, trwy wneud i'r unigolion hynny sy'n pori ceffylau a merlod yn anghyfreithlon yn atebol am eu gweithredoedd, a thrwy fynd i'r afael â'r niwsans annerbyniol o bori anghyfreithlon sy'n achosi niwed i ddiogelwch y cyhoedd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac yn gosod beichiau ariannol ar unigolion a'r trethdalwr. Bydd deddfwriaeth a fydd yn mynd i'r afael â'r broblem hon yn cael ei chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn hon.

Members will be aware that, in response to the UK Government's decision to increase the tuition fees for students in England up to £9,000, we decided to pursue a different route to funding higher education needs in Wales, and, indeed, the needs of learners from Wales. So, in the early part of next year, we will introduce the higher education (Wales) Bill to provide the Higher Education Funding Council for Wales with a robust regulatory framework within which to operate to ensure equality of higher education. The revised regulatory framework will provide assurance about the financial health and governance of higher education providers, and the quality of their provision. It is also needed to enforce fee controls and to safeguard equality of opportunity for those accessing, or intending to access, higher education.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr yn Lloegr hyd at £9,000, ein bod wedi penderfynu dilyn llwybr gwahanol i ariannu anghenion addysg uwch yng Nghymru, ac, yn wir, anghenion dysgwyr o Gymru. Felly, yn gynnar y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno Bil addysg uwch (Cymru) i ddarparu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru â fframwaith rheoleiddio cadarn i weithredu oddi mewn iddo i sicrhau cydraddoldeb addysg uwch. Bydd y fframwaith rheoleiddio diwygiedig yn darparu sicrwydd ynghylch iechyd ariannol a llywodraethu darparwyr addysg uwch, ac ansawdd eu darpariaeth. Mae ei angen hefyd i orfodi rheolaeth ffioedd ac i ddiogelu cyfle cyfartal i'r rhai sy'n cael mynediad, neu'n bwriadu cael mynediad, i addysg uwch.

We have been very clear about our duty to seek to protect the most vulnerable individuals and families. Everyone in Wales has the right to live in a safe community, free from violence and abuse. To achieve this, we need to tackle the enduring social problems of violence against women, domestic abuse and sexual violence. So, next June, we will introduce the ending violence against women and domestic abuse Bill to tackle all forms of violence against women and domestic abuse.

Rydym wedi bod yn glir iawn ynghylch ein dyletswydd i geisio amddiffyn yr unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae gan bawb yng Nghymru yr hawl i fyw mewn cymuned ddiogel, yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni fynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol parhaus o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, fis Mehefin nesaf, byddwn yn cyflwyno'r Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

When I first announced the Welsh Government's legislative programme for this term in office, I said that we would be bringing forward a sustainable development Bill designed to ensure that today's decisions secure a safe and prosperous future for our children and grandchildren. As committed to in my last legislative statement, we have consulted on a White Paper setting out our proposals for a Bill, and that concluded earlier this year. The Minister for Communities and Tackling Poverty is responsible for bringing this legislation forward, and he has been considering the consultation responses carefully. Our position, of course, and our ambition as a Government, is to create jobs to enable growth and to tackle poverty, and sustainable development is the way in which we drive those priorities. However, from considering the consultation responses, it was evident that we needed to better communicate the purpose of the Bill. We felt that calling it the 'sustainable development Bill' did not provide that clarity of purpose. As a result, the working title for this legislation will now be the 'future generations Bill'.

Pan gyhoeddais gyntaf raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor hwn yn y swydd, dywedais y byddem yn cyflwyno Bil datblygu cynaliadwy a gynlluniwyd i sicrhau bod penderfyniadau heddiw yn sicrhau dyfodol diogel a ffyniannus ar gyfer ein plant a'n hwyrion. Fel yr ymrwymwyd iddo yn fy natganiad deddfwriaethol diwethaf, rydym wedi ymgynghori ynghylch Papur Gwyn sy'n nodi ein cynigion ar gyfer Bil, a daeth hynny i ben yn gynharach eleni. Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi sy'n gyfrifol am gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, ac mae ef wedi bod yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus. Ein safbwynt, wrth gwrs, a'n huchelgais fel Llywodraeth, yw creu swyddi i alluogi twf a threchu tlodi, a datblygu cynaliadwy yw'r ffordd yr ydym yn sbarduno'r blaenoriaethau hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd yn amlwg bod angen i ni gyfathrebu diben y Bil yn well. Rydym yn teimlo nad oedd ei alw y 'Bil datblygu cynaliadwy' yn darparu'r eglurder angenrheidiol o ran ei ddiben. O ganlyniad, y teitl ymarferol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon bellach fydd 'Bil cenedlaethau'r dyfodol'.

Our communities form the heart of our nation and culture, and the purpose of this Bill is to futureproof them in ensuring that they and the people who live in them are protected—[Interruption.] It may be that future generations are not important to other parties, but they are to us, I can promise you. We want to ensure that the people who live in our communities are protected from pressures that threaten their viability and their survival. This Bill is about how we tackle the generational challenges that Wales faces in a more joined-up and integrated way—we cannot afford to leave this burden to our grandchildren.

Mae ein cymunedau yn ffurfio calon ein cenedl a'n diwylliant, a phwrpas y Bil hwn yw eu diogelu ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau eu bod hwy a'r bobl sy'n byw ynddynt yn cael eu diogelu—[Torri ar draws.] Efallai nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig i bleidiau eraill, ond maent yn bwysig i ni, gallaf eich sicrhau o hynny. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y bobl sy'n byw yn ein cymunedau yn cael eu diogelu rhag y pwysau sy'n bygwth eu hyfywedd a'u goroesiad. Mae'r Bil hwn yn ymwneud â sut yr ydym yn mynd i'r afael â heriau'r cenedlaethau sy'n wynebu Cymru mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac integredig —ni allwn fforddio gadael y baich hwn i'n hwyrion.

The change of title does not mean a move away from sustainable development. It remains the Welsh Government's central organising principle. The Bill will put what we mean by sustainable development at the heart of Government and Welsh public services, and the future generations Bill will be introduced before next year's summer recess.

Nid yw'r newid teitl yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth ddatblygu cynaliadwy. Mae hynny'n parhau i fod yr egwyddor drefnu ganolog ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd y Bil yn rhoi'r hyn yr ydym ni'n ei olygu wrth ddatblygu cynaliadwy wrth wraidd y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a bydd Bil cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei gyflwyno cyn toriad yr haf y flwyddyn nesaf.

Finally, we will also be introducing the planning reform Bill before the summer recess of next year. It provides a significant opportunity to capitalise on the devolution dividend, by delivering a step change in our planning reform agenda. The Bill will build on our established planning system, which has served us well since 1947, by setting out new roles and responsibilities for Welsh Ministers, local authorities, developers and communities. The changes that we will propose will ensure that our planning system is positive in outlook, smart in application, swift in process and inclusive in operation.

Yn olaf, byddwn hefyd yn cyflwyno'r Bil diwygio cynllunio cyn toriad yr haf y flwyddyn nesaf. Mae'n darparu cyfle sylweddol i fanteisio ar y difidend datganoli, drwy ddarparu newid sylweddol yn ein hagenda diwygio cynllunio. Bydd y Bil yn adeiladu ar ein system gynllunio sefydledig, sydd wedi ein gwasanaethu'n dda ers 1947, drwy nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, datblygwyr a chymunedau. Bydd y newidiadau y byddwn yn eu cynnig yn sicrhau bod ein system gynllunio yn gadarnhaol o ran agwedd, yn gall o ran defnydd, yn gyflym o ran proses ac yn gynhwysol yn weithredol.

I commend this ambitious legislative statement to the Assembly.

Cymeradwyaf y datganiad deddfwriaethol uchelgeisiol i'r Cynulliad.

19:00

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I shall be my usual ray of sunshine in responding to this legislative statement today. There are issues here where we will find common ground with the Government, but it is a fact that there are many other issues that, sadly, have not been brought forward by the Government. I refer the First Minister to our own legislative programme, which was in our manifesto—it had an enterprise Bill in it, a young person's Bill in it, a creative industries Bill in it, a food hygiene Bill, a heritage Bill, a Welsh language Bill, a climate change Bill: many innovative ideas that could have radically improved the quality of life of the people of Wales. I had a wry smile on my face when I read the statement, and when the First Minister talked about the fly grazing and the abandonment of horses Bill, because, last year, in the response that he gave to my contribution to the legislative statement, he roundly ridiculed such a suggestion. In fact, he spent a good two or three minutes going on about that being all that we had to offer. Here we are today, and there is such a Bill included—I commend the First Minister for putting that Bill forward, because that is a critical area, certainly in animal welfare terms, that needs addressing. It is noted that, today, emergency powers have been used to ram a Bill through this Assembly, much to our regret, but I believe that much of the regulatory improvement proposed by that fly grazing Bill could be required this winter, if we have a particularly bleak and hard winter, and rather than allowing animals to suffer another winter of unfortunate conditions, with death and other animal welfare issues inflicted upon them, I hope that the First Minister and his Minister will reach out to the opposition parties to try to instigate a speedy passage for that Bill, so that local authorities are able to implement the new legislation.

Byddaf mor ddisglair ag arfer wrth ymateb i'r datganiad deddfwriaethol heddiw. Mae materion yma lle y byddwn yn dod o hyd i dir cyffredin gyda'r Llywodraeth, ond mae'n ffaith fod llawer o faterion eraill nad ydynt, yn anffodus, wedi cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth. Cyfeiriaf y Prif Weinidog at ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain, a oedd yn ein maniffesto—roedd yn cynnwys Bil menter, Bil person ifanc, Bil diwydiannau creadigol, Bil hylendid bwyd, Bil treftadaeth, Bil yr iaith Gymraeg, Bil newid yn yr hinsawdd: llawer o syniadau arloesol a allai fod wedi gwella ansawdd bywyd pobl Cymru yn sylweddol. Roedd gen i wên gam ar fy wyneb pan ddarllenais y datganiad, a phan siaradodd y Prif Weinidog am y Bil pori anghyfreithlon a mynd a gadael ceffylau, oherwydd, y llynedd, yn yr ymateb a roddodd i fy nghyfraniad i at y datganiad deddfwriaethol, roedd yn gwawdio awgrym o'r fath yn hallt. Yn wir, treuliodd ddau neu dri munud da yn ein cyhuddo mai dyna'r cyfan oedd gennym i'w gynnig. Dyma ni heddiw, ac mae Bil o'r fath wedi'i gynnwys—cymeradwyaf y Prif Weinidog am gyflwyno'r Bil hwnnw, oherwydd mae'n faes hollbwysig, yn sicr o ran lles anifeiliaid, y mae angen mynd i'r afael ag ef. Nodir, heddiw, bod pwerau argyfwng wedi cael eu defnyddio i wthio Bil drwy'r Cynulliad hwn, er gofid mawr i ni, ond rwy'n credu y gallai llawer o'r gwelliant mewn rheoleiddio a gynigir gan y Bil pori anghyfreithlon fod yn angenrheidiol y gaeaf hwn, os cawn ni aeaf arbennig o lwm a chaled, ac yn hytrach na chaniatáu i anifeiliaid ddioddef gaeaf arall o gyflyrau anffodus, gyda marwolaeth a materion lles anifeiliaid eraill yn peri niwed iddynt, rwy'n gobeithio y bydd y Prif Weinidog a'i Weinidog yn estyn allan at y gwrthbleidiau i geisio cychwyn taith gyflym ar gyfer y Bil hwnnw, fel bod awdurdodau lleol yn gallu gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

I would also like to draw attention to the national health service finance Bill that is coming forward, which has been trailed in the media following comments from the Minister for health. Obviously, we are aware of the challenging financial circumstances that the health service finds itself in, and allowing greater flexibility is something that has to be welcomed, but, if you do not change the dynamics of the financing, all you end up with is a far bigger deficit at the end of the three-year process. The Government needs to give us assurances that, by moving to a three-year financing window, we are not just pushing the problem further out. I think that there needs to be far greater clarity around that issue.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at Fil cyllid y gwasanaeth iechyd gwladol sy'n cael ei gyflwyno, ac sydd wedi cael sylw teilwng yn y cyfryngau yn dilyn sylwadau gan y Gweinidog iechyd. Yn amlwg, rydym yn ymwybodol o'r amgylchiadau ariannol heriol y mae'r gwasanaeth iechyd wedi darganfod ei hun ynddynt, ac mae caniatáu mwy o hyblygrwydd yn rhywbeth y mae'n rhaid ei groesawu, ond, os nad ydych yn newid deinameg yr ariannu, y cyfan a gewch chi yn y pen draw yw diffyg llawer mwy ar ddiwedd y broses tair blynedd. Mae angen i'r Llywodraeth roi sicrwydd, drwy symud at ffenestr ariannu dair blynedd, nad ydym ddim ond yn gwthio'r broblem ymhellach allan. Rwy'n meddwl bod angen llawer mwy o eglurder ynghylch y mater hwnnw.

I notice the planning Bill has slipped into next year. In the original legislative statement that was given at the start of this Assembly, the First Minister talked of it coming in this year, in 2013, but it will now be 2014. I appreciate that it is a very complex area of legislation. Is the First Minister able to confirm that this will be a radical and complete overhaul of the planning system here in Wales, or will it merely look to make some minor amendments that will not go far enough in changing a system that, in my view, and that of many other people, is out of date?

Rwy'n sylwi bod y Bil cynllunio wedi llithro i'r flwyddyn nesaf. Yn y datganiad deddfwriaethol gwreiddiol a roddwyd ar ddechrau'r Cynulliad hwn, soniodd y Prif Weinidog ei fod yn dod yn y flwyddyn hon, yn 2013, ond yn 2014 y bydd yn digwydd erbyn hyn. Rwy'n sylweddoli ei fod yn faes cymhleth iawn o ddeddfwriaeth. A yw'r Prif Weinidog yn gallu cadarnhau y bydd hyn yn ailwampio sylfaenol a chyflawn o'r system gynllunio yma yng Nghymru, neu a fydd yn ceisio gwneud rhai mân newidiadau yn unig na fydd yn mynd yn ddigon pell o ran newid system sydd, yn fy marn i, a llawer o bobl eraill, wedi dyddio?

I also notice the change of name on the future generations Bill. Very snappy. I am sure the delivery unit worked around the clock to come up with that title. I also notice the language that has been used:

Rwyf hefyd yn sylwi ar y newid enw ar y Bil cenedlaethau'r dyfodol. Bachog iawn. Rwy'n siŵr bod yr uned gyflenwi wedi gweithio rownd y cloc i feddwl am y teitl hwnnw. Rwyf hefyd yn sylwi ar yr iaith a ddefnyddiwyd:

'tackle the generational challenges that Wales faces in a more joined-up and integrated way—we cannot afford to leave this burden to our grandchildren.'

mynd i'r afael â heriau'r cenedlaethau sy'n wynebu Cymru mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac integredig—ni allwn fforddio gadael y baich hwn i'n hwyrion.

Could you explain what that 'motherhood and apple pie' actually means, First Minister? No-one will disagree with that statement, but, actually, there is very little meat in this legislative statement to indicate what you will achieve. After 14 years of Labour Government here in the Assembly, I have to say that many of us remain to be convinced as to whether you can make any difference in this field.

A wnewch chi esbonio beth mae 'mamogaeth a tharten afal' yn ei olygu, Brif Weinidog? Ni fydd neb yn anghytuno â'r datganiad hwnnw, ond, mewn gwirionedd, nid oes llawer iawn o gig yn y datganiad deddfwriaethol i ddangos beth y byddwch yn ei gyflawni. Ar ôl 14 mlynedd o Lywodraeth Lafur yma yn y Cynulliad, mae'n rhaid i mi ddweud bod llawer ohonom yn dal i fod heb ein hargyhoeddi ynghylch ba un a allwch chi wneud unrhyw wahaniaeth yn y maes hwn.

I welcome the ending violence against women and domestic abuse Bill. Again, that will have our wholehearted support. I would draw the First Minister's attention—because I believe it is gender specific in talking about women, and, predominantly, domestic violence is against women—to a recent storyline in a very successful soap opera, which touched on the fact that there is abuse against men as well, albeit on a very limited basis. If this Bill is gender specific, I ask the First Minister to clarify whether it will capture all forms of domestic violence, because while it was a soap opera that highlighted that very troubling storyline, for some people, it is a very real issue that they face. I would be grateful for clarification on that particular issue.

Rwy'n croesawu'r Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Unwaith eto, bydd yn cael ein cefnogaeth lwyr. Hoffwn dynnu sylw'r Prif Weinidog —oherwydd rwy'n credu ei fod yn benodol i un rhyw wrth siarad am fenywod, ac, yn bennaf, yn erbyn menywod y mae trais domestig yn digwydd—at stori ddiweddar mewn opera sebon lwyddiannus iawn, a oedd yn crybwyll y ffaith y ceir cam-drin yn erbyn dynion, yn ogystal, er mai'n anaml y gwelir hynny. Os yw'r Bil hwn yn benodol ar gyfer un rhyw, rwy'n gofyn i'r Prif Weinidog egluro pa un a fydd yn cynnwys pob math o drais yn y cartref, oherwydd, er mai opera sebon a amlygodd y stori honno a oedd yn peri gofid mawr, i rai pobl, mae'n broblem real iawn y maent yn ei hwynebu. Byddwn yn ddiolchgar am eglurhad ar y mater penodol hwnnw.

The higher education Bill that will be coming forward talks a lot about motherhood and apple pie. It talks about safeguarding equity of opportunity and its intention is to increase access to higher education. How will the Bill specifically help greater access to higher education? The Government's fee policy has, to date, not achieved that. It has kept fees down in Wales—I accept that—but when you look at the figures, you will see that it has not actually increased greater access to higher education for those in low-income families. How does the First Minister believe that that particular Bill will actually make a difference? It also talks about addressing fee income and the framework around fee income. It is a fact that, through your own policy, £50 million of Welsh Government money intended for higher education is going into English higher education. I appreciate that you cannot legislate for that, but it is a fact that your policy is taking money out of higher education.

Mae'r Bil addysg uwch a fydd yn cael ei gyflwyno yn sôn llawer am famogaeth a tharten afal. Mae'n sôn am ddiogelu cyfle teg a'i fwriad yw cynyddu mynediad i addysg uwch. Sut y bydd y Bil yn helpu mwy o fynediad i addysg uwch yn benodol? Nid yw polisi ffioedd y Llywodraeth, hyd yn hyn, wedi cyflawni hynny. Mae wedi cadw ffioedd i lawr yng Nghymru—rwy'n derbyn hynny—ond pan fyddwch yn edrych ar y ffigurau, byddwch yn gweld nad yw wedi cynyddu mwy o fynediad i addysg uwch ar gyfer y rhai mewn teuluoedd incwm isel mewn gwirionedd. Sut y mae'r Prif Weinidog yn credu y bydd y Bil penodol hwnnw yn gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd? Mae hefyd yn sôn am fynd i'r afael ag incwm o ffioedd a'r fframwaith ar gyfer incwm o ffioedd. Mae'n ffaith, trwy eich polisi eich hun, bod £50 miliwn o arian Llywodraeth Cymru sydd wedi'i fwriadu ar gyfer addysg uwch yn mynd i mewn i addysg uwch yn Lloegr. Rwy'n sylweddoli na allwch ddeddfu ar gyfer hynny, ond mae'n ffaith fod eich polisi yn cymryd arian allan o addysg uwch.

I will also touch on the housing (Wales) Bill, which touches on local authorities having duties placed on them to meet the needs of Gypsies and Travellers. I would be grateful to learn exactly what you mean by that and what you will include in that Bill to place specific obligations on local authorities in respect of Gypsies and Travellers, so that we can have a greater discussion and debate on that.

Byddaf hefyd yn sôn am y Bil tai (Cymru), sy'n sôn am awdurdodau lleol yn cael dyletswyddau wedi'u gosod arnynt i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth yn union yr ydych yn ei olygu wrth hynny a beth y byddwch yn ei gynnwys yn y Bil hwnnw i osod rhwymedigaethau penodol ar awdurdodau lleol ynglŷn â Sipsiwn a Theithwyr, er mwyn inni gael mwy o drafodaeth a dadl ar hynny.

Finally, I will touch on the public service workforce Bill. I presume that this Bill will be informed by the work of the commission on public services, which is chaired by Paul Williams, or is the First Minister confident that the information that he has from the Green Paper that was put out earlier in the year is sufficient to take this Bill forward? Will this Bill wait until the commission has undertaken all its work, and then for the commission's work to inform the preparation of the legislation in this field?

Yn olaf, soniaf am y Bil gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus. Rwy'n cymryd y bydd y Bil hwn yn cael ei lywio gan waith y comisiwn ar wasanaethau cyhoeddus, sy'n cael ei gadeirio gan Paul Williams, neu a yw'r Prif Weinidog yn ffyddiog fod y wybodaeth sydd ganddo o'r Papur Gwyrdd a gyflwynwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn ddigonol i fynd â'r Bil hwn yn ei flaen? A fydd y Bil hwn yn aros nes bod y comisiwn wedi gwneud ei holl waith, ac yna i waith y comisiwn lywio'r gwaith o baratoi'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn?

With those comments, I thank the First Minister for his statement this afternoon and look forward to hearing his responses.

Gyda'r sylwadau hynny, rwy'n diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac yn edrych ymlaen at glywed ei ymatebion.

19:07

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the leader of the opposition for his observations. I note his legislative programme and I commend the fact that the Conservative Party had a legislative programme in its manifesto—not all parties did that, but they did. However, of course, they were not elected to deliver it. From our point of view, we will look to take forward good ideas from any party, but, as a Government, we will take forward what we were elected to do.

Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau. Nodaf ei raglen ddeddfwriaethol ac rwy'n cymeradwyo'r ffaith fod gan y Blaid Geidwadol raglen ddeddfwriaethol yn ei maniffesto—ni wnaeth pob plaid hynny, ond fe wnaethon nhw. Fodd bynnag, wrth gwrs, ni chawsant eu hethol i'w chyflawni. O'n safbwynt ni, byddwn yn fodlon i ddatblygu syniadau da gan unrhyw blaid, ond, fel Llywodraeth, byddwn yn datblygu'r hyn yr etholwyd ni i'w wneud.

He talked of the issue of fly grazing. I am not sure whether he was suggesting that he would support an emergency Bill in relation to fly grazing, so I will not hold him to that, but he stressed the urgency of the need to take forward legislation. We are aware of that, in terms of the affect that it has had on so many people across south Wales particularly, but not exclusively.

Soniodd am y mater o bori anghyfreithlon. Nid wyf yn siŵr a oedd yn awgrymu y byddai'n cefnogi Bil argyfwng ynglŷn â phori anghyfreithlon, felly ni fyddaf yn ei gadw i hynny, ond pwysleisiodd frys yr angen i fwrw ymlaen â deddfwriaeth. Rydym yn ymwybodol o hynny, o ran yr effaith y mae hyn wedi'i chael yn enwedig, ond nid yn unig, ar gymaint o bobl ledled de Cymru,.

With the NHS finance (Wales) Bill, there is no doubt that three years will give greater flexibility to local health boards in terms of planning their budgets. One year is a very short time indeed—that has to be accepted in terms of budget planning. Spreading costs and financial provision over three years will make things easier for them.

O ran Bil cyllid y GIG (Cymru), nid oes unrhyw amheuaeth y bydd tair blynedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd lleol o ran cynllunio eu cyllidebau. Mae blwyddyn yn amser byr iawn yn wir— mae'n rhaid derbyn hynny o ran cynllunio cyllideb. Bydd gwasgaru costau a darpariaeth ariannol dros gyfnod o dair blynedd yn gwneud pethau yn haws iddynt.

With regard to the planning Bill, it is not the intention, at this stage, that it should be a planning consolidation Bill. It will look to improve the planning system. However, I can say that a planning consolidation Bill is being given thought in terms of future legislative statements. I suspect that there would need to be input from the Law Commission in particular, because it would be a substantial piece of work. That is something that we are working on. The planning Bill will seek to improve the planning system, but not fundamentally reshape it in terms of it being a consolidation Bill, at this stage. He mentioned the timing, but I believe that I have said consistently over the past few months that the White Paper would be introduced by the end of 2013. That remains the intention.

O ran y Bil cynllunio, nid yw'n fwriad, ar hyn o bryd, iddo fod yn Fil cydgrynhoi cynllunio. Bydd yn ceisio gwella'r system gynllunio. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod Bil cydgrynhoi cynllunio dan ystyriaeth yn nhermau datganiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Rwy'n amau y byddai angen cael mewnbwn gan Gomisiwn y Gyfraith yn benodol, oherwydd byddai'n ddarn sylweddol o waith. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn gweithio arno. Bydd y Bil cynllunio yn ceisio gwella'r system gynllunio, ond nid ei hail-lunio'n sylfaenol drwy fod hwn yn Fil cydgrynhoi , ar hyn o bryd. Soniodd am yr amseru, ond rwy'n credu fy mod wedi dweud yn gyson yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf y byddai'r Papur Gwyn yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd 2013. Dyna'r bwriad o hyd.

The future generations Bill is a truly cross-cutting Bill. It is led by the Minister Jeff Cuthbert for good reason. Quite often when people talk of sustainable development, they tend to think only of the environmental pillar; important though that is, there is a social pillar and, indeed, an economic pillar to sustainable development. We thought that it was important, as the Bill is taken forward, that its title helped to explain to the public what the Bill was about. The future generations Bill is one way of doing that, and work will be taken forward, drawing together all Ministers in terms of putting that Bill into effect.

Mae'r Bil cenedlaethau'r dyfodol yn Fil gwirioneddol drawsbynciol. Caiff ei arwain gan y Gweinidog Jeff Cuthbert am reswm da. Yn aml iawn pan fydd pobl yn sôn am ddatblygu cynaliadwy, maent yn tueddu i feddwl am y piler amgylcheddol yn unig; er mor bwysig yw hynny, ceir piler cymdeithasol ac, yn wir, piler economaidd i ddatblygu cynaliadwy. Rydym yn credu ei bod yn bwysig, wrth i'r Bil gael ei symud ymlaen, bod ei deitl yn helpu i egluro i'r cyhoedd beth y mae'r Bil yn ymwneud ag ef. Mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn un ffordd o wneud hynny, a bydd y gwaith yn cael ei ddatblygu, gan dynnu ynghyd yr holl Weinidogion o ran rhoi'r Bil hwnnw ar waith.

The Member asked questions about the ending violence against women and domestic abuse Bill. It is correct to say that most domestic violence occurs against women, which is why it is referred to discretely in the Bill. He refers to the plotline that was used in 'Coronation Street'. While recognising that the vast majority of violence is against women, there is still that element of violence against men and unacceptable violence against children. It is important that the Bill is as all-encompassing as possible, while recognising that women are the prime targets of violence; that is what the Bill seeks to address.

Gofynnodd yr Aelod gwestiynau am y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Mae'n gywir dweud bod y rhan fwyaf o drais domestig yn digwydd yn erbyn menywod, a dyna pam y cyfeirir ato ar wahân yn y Bil. Mae'n cyfeirio at y plot a ddefnyddiwyd yn 'Coronation Street'. Er fy mod yn cydnabod bod y mwyafrif helaeth o drais yn erbyn menywod, ceir yr elfen honno o drais yn erbyn dynion a thrais annerbyniol yn erbyn plant. Mae'n bwysig bod y Bil mor hollgynhwysol ag y bo modd, ond yn cydnabod mai menywod yw prif dargedau trais; dyna mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

With regard to higher education, I have already explained what this legislative programme will mean for the Higher Education Funding Council for Wales, particularly in terms of higher education governance. It is right to say that we took the decision that we did not want students in Wales to be overburdened with the fees that they have to pay. We want to give them the best opportunities that they can have. This means that some of them will travel to England to study. Some will do so because the subjects that they wish to study are not available in Wales; veterinary science is one such example. We do not think that they should be held back from studying those subjects because they are not available in Wales at present.

O ran addysg uwch, rwyf eisoes wedi egluro beth fydd y rhaglen ddeddfwriaethol hon yn ei olygu ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn enwedig o ran llywodraethu addysg uwch. Mae'n iawn i ddweud ein bod wedi cymryd y penderfyniad nad oeddem yn dymuno i fyfyrwyr yng Nghymru gael eu llethu gan y ffioedd y mae'n rhaid iddynt eu talu. Rydym yn awyddus i roi'r cyfleoedd gorau iddynt y gallant eu cael. Mae hyn yn golygu y bydd rhai ohonynt yn teithio i Loegr i astudio. Bydd rhai yn gwneud hynny oherwydd nad oedd y pynciau y maent yn dymuno eu hastudio ar gael yng Nghymru; mae gwyddoniaeth filfeddygol yn un enghraifft o'r fath. Nid ydym yn credu y dylent gael eu hatal rhag astudio'r pynciau hynny oherwydd nad ydynt ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

The Member asked a question about the housing Bill, in terms of Gypsy/Traveller sites. As part of the Bill, a duty will be introduced on local authorities to provide sites where such a need is identified; I can make that clear to him.

Gofynnodd yr Aelod gwestiwn am y Bil tai, o ran safleoedd Sipsiwn / Teithwyr. Yn rhan o'r Bil, bydd dyletswydd yn cael ei chyflwyno ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd lle mae angen o'r fath wedi ei nodi; gallaf wneud hynny'n glir iddo.

With regard to the public service workforce Bill, the Bill is not dependent on the report of the Sir Paul Williams commission. Primarily, it looks to deal with issues such as the two-tier code, so it will proceed under its own steam. It is not dependent on work that is carried out elsewhere.

O ran Bil gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus, nid yw'r Bil yn dibynnu ar adroddiad comisiwn Syr Paul Williams. Yn bennaf, mae'n ceisio ymdrin â materion fel y cod dwy-haen, felly bydd yn mynd yn ei flaen dan ei bwysau ei hunan. Nid yw'n dibynnu ar y gwaith a wneir mewn mannau eraill.

19:12 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for outlining his legislative programme for the next year. I am also grateful for having the opportunity to respond on behalf of Plaid Cymru—The Party of Wales. It is always worth reiterating the point that Wales is currently run by a minority Government. Throughout the past year, we have seen Ministers forced to make revisions, compromises and u-turns because they have tried to bring forward legislation and regulations without carrying out the necessary consultation with us, the opposition parties. Governments without majorities have to work with others.

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am amlinellu ei raglen ddeddfwriaethol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rwy'n ddiolchgar hefyd am gael y cyfle i ymateb ar ran Plaid Cymru—The Party of Wales. Mae bob amser werth ailadrodd y pwynt bod Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd gan Lywodraeth leiafrifol. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld Gweinidogion yn cael eu gorfodi i wneud diwygiadau, i gyfaddawdu a gwneud troeon pedol oherwydd eu bod wedi ceisio dod â deddfwriaeth a rheoliadau ymlaen heb gynnal yr ymgynghori angenrheidiol gyda ni, y gwrthbleidiau. Mae'n rhaid i lywodraethau heb fwyafrif weithio gydag eraill.

Plaid Cymru has co-operation built into its roots—into its DNA, if you like. We will always be prepared to co-operate with the Government, where we can, and we have done so. However, I want to place on record that we have some concerns about the volume of enabling legislation being passed. Too much of this legislation contains little detail—just a promise of regulation later on, which may not get the same level of scrutiny. If policies exist, they should be placed on the face of the Bill.

Mae cydweithredu wedi ei adeiladu i mewn i wreiddiau Plaid Cymru — i mewn i'w DNA, os mynnwch chi. Byddwn bob amser yn barod i gydweithredu â'r Llywodraeth, pryd y gallwn, ac rydym wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, hoffwn iddo fod ar y cofnod bod gennym rai pryderon am faint o ddeddfwriaeth alluogi sy'n cael ei phasio. Mae gormod o'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys ychydig iawn o fanylder—dim ond addewid o reoleiddio yn nes ymlaen, na fydd yn cael yr un lefel o graffu efallai. Os yw polisïau yn bodoli, dylid eu gosod ar wyneb y Bil.

First Minister, last year, you promised eight Bills. Only six were published, with the additional emergency legislation for the agricultural advisory panel. Of those, only two have passed through all four stages, and both of those only in the last few weeks. Three Bills are still at Stage 1. Your Government can complete only two pieces of legislation in a year, but then you rush through emergency legislation in a fortnight, without proper scrutiny.

Brif Weinidog, y llynedd, fe addawsoch wyth Bil. Dim ond chwech gafodd eu cyhoeddi, ynghyd â'r ddeddfwriaeth argyfwng ychwanegol ar gyfer y panel cynghori amaethyddol. O'r rheini, dim ond dau sydd wedi pasio drwy bob un o'r pedwar cyfnod, a'r ddau hynny dim ond yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Mae tri Bil yn dal i fod yng Nghyfnod 1. Nid yw eich Llywodraeth ond yn gallu cwblhau dau ddarn o ddeddfwriaeth mewn blwyddyn, ond yna rydych chi'n rhuthro deddfwriaeth argyfwng drwodd mewn pythefnos, heb graffu priodol.

There have been criticisms of legislation being weakened, such as the Active Travel (Wales) Bill, while the Social Services and Well-being (Wales) Bill has been criticised for trying to do too much and for being too complicated.

Cafwyd beirniadaeth o ddeddfwriaeth yn cael ei gwanhau, megis y Bil Teithio Llesol (Cymru), tra bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael ei feirniadu am geisio gwneud gormod ac am fod yn rhy gymhleth.

First Minister, Plaid Cymru has put forward a substantial number of ideas for legislation—[Interruption.]

Brif Weinidog, mae Plaid Cymru wedi cyflwyno nifer sylweddol o syniadau ar gyfer deddfwriaeth—[Torri ar draws.]

19:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Comments are being made from a sedentary position, and are still being repeated; I will not put up with it.

Trefn. Mae sylwadau'n cael eu gwneud gan bobl oddi ar eu heistedd, ac yn dal i gael eu hailadrodd; did wyf yn fodlon derbyn hynny.

19:14 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We could use legislation to ensure best practice in procurement to make it easier for small companies in Wales to win public contracts, making the Welsh pound work for Wales; such legislation could create up to 50,000 jobs. We have advocated legislating for Robbie's law—a duty of candour in the health service, so that no family has to go through the same awful experience as the Powell family.

Diolch. Gallem ddefnyddio deddfwriaeth i sicrhau arfer gorau o ran caffael i'w gwneud yn haws i gwmnïau bach yng Nghymru i ennill contractau cyhoeddus, gan wneud i bunt Cymru weithio dros Gymru; gallai deddfwriaeth o'r fath greu hyd at 50,000 o swyddi. Rydym wedi argymell deddfu ar gyfer cyfraith Robbie—dyletswydd o onestrwydd yn y gwasanaeth iechyd, fel nad oes unrhyw deulu yn gorfod mynd trwy'r un profiad ofnadwy â'r teulu Powell.

We want to legislate to protect and safeguard whistleblowers—those who work with children in care and are concerned that vulnerable children and adults are being put at risk. We want to legislate to ensure that communities properly benefit from the renewable energy that they generate. We could also legislate for a disability commissioner.

Rydym yn awyddus i ddeddfu er mwyn amddiffyn a diogelu chwythwyr chwiban—y rhai sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal ac sy'n pryderu bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu rhoi mewn perygl. Rydym eisiau deddfu i sicrhau bod cymunedau'n elwa'n briodol o'r ynni adnewyddadwy y maent yn ei gynhyrchu. Gallem hefyd ddeddfu ar gyfer comisiynydd anabledd.

Legislation could be brought forward for greater democracy and transparency in the health service and to ensure that health and social services budgets are pooled in the best interests of patients.

Gallai deddfwriaeth gael ei dwyn ymlaen ar gyfer mwy o ddemocratiaeth a thryloywder yn y gwasanaeth iechyd ac i sicrhau bod cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyfuno er lles gorau cleifion.

I now have a number of questions for the First Minister on his programme. Many people have expressed concerns at the potential for your sustainable development Bill, or, as it is now to be called, your future generations Bill, and that it will be weakened or watered down. I would be grateful if you would take this opportunity to confirm that that will not be the case. An alliance of over 20 organisations today published its alternative legislation, setting out a clear definition of sustainable development. It also proposes a sustainable development commissioner for Wales who would promote and facilitate sustainable development, as well as handle complaints about how public authorities carry out their duties. I would be grateful if you would confirm that this legislation will include the Welsh language and sustainability for Welsh-language communities. My final question on this Bill is this: does this name change have anything to do with difficulties over definitions?

Mae gennyf nifer o gwestiynau i'r Prif Weinidog ar ei raglen. Mae llawer o bobl wedi mynegi pryderon ar y potensial ar gyfer eich Bil datblygu cynaliadwy, neu, fel y mae am gael ei alw bellach, eich Bil cenedlaethau'r dyfodol, ac y bydd yn cael ei wanhau neu ei lastwreiddio. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cymryd y cyfle hwn i gadarnhau na fydd hynny'n digwydd. Cyhoeddodd cynghrair o dros 20 o sefydliadau heddiw eu deddfwriaeth amgen, gan amlinellu diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn cynnig comisiynydd datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru a fyddai'n hyrwyddo a hwyluso datblygiad cynaliadwy, yn ogystal ag ymdrin â chwynion am sut mae awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Fy nghwestiwn olaf ar y Bil hwn yw hyn: a oes gan y newid enw hwn unrhyw beth i'w wneud ag anawsterau ynghylch diffiniadau?

I would also like to know what powers the ending violence against women and domestic abuse Bill will propose, and specifically whether or not it will outlaw violence against children. Also, how will this Bill ensure the interaction between the powers of the various agencies, the police and the criminal justice system, which are not yet devolved?

Byddwn hefyd yn hoffi gwybod pa bwerau y bydd y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn eu cynnig, ac yn benodol, pa un a fydd yn gwahardd trais yn erbyn plant ai peidio. Hefyd, sut y bydd y Bil hwn yn sicrhau'r rhyngweithio rhwng pwerau'r gwahanol asiantaethau, yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol, nad ydynt wedi'u datganoli eto?

Will you confirm that the homelessness measures will not be weakened in the housing Bill? Plaid Cymru is pleased to see the end of the housing revenue account subsidy, and we generally support the aims of the housing Bill. However, again, we do need to see the detail.

A wnewch chi gadarnhau na fydd y mesurau digartrefedd yn cael ei gwanhau yn y Bil tai? Mae Plaid Cymru yn falch o weld diwedd ar y cymhorthdal cyfrif refeniw tai, ac rydym yn gyffredinol yn cefnogi amcanion y Bil tai. Fodd bynnag, unwaith eto, mae angen i ni weld y manylion.

You were just asked about the NHS finance Bill. You said that it would provide some flexibility, but you did not answer the central question: will the NHS finance Bill avoid the issues that were raised in the Wales Audit Office report today—for example, operations being delayed to break even—or will problems be stored up in a multi-annual framework, leading to desperate problems at the end of the three-year cycle?

Gofynnwyd i chi am y Bil cyllid y GIG. Dywedasoch y byddai'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd, ond ni wnaethoch ateb y cwestiwn canolog: a fydd Bil cyllid y GIG yn osgoi'r materion a godwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru heddiw—er enghraifft, llawdriniaethau'n cael eu gohirio rhag colli arian—neu a fydd problemau'n cael ei storio mewn fframwaith aml-flynyddol, gan arwain at broblemau dybryd ar ddiwedd y cylch tair blynedd?

We would like to see more detail on the public service workforce Bill, which is being published as a draft.

Byddem yn hoffi gweld mwy o fanylion am y Bil gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cael ei gyhoeddi fel drafft.

Some of these Bills are still nowhere near being ready. The ending violence against women and domestic abuse Bill will not be introduced until next June; the future generations Bill and planning reform Bill will not be introduced before next summer recess; and the same applies for the full draft of the public service workforce Bill. I would be grateful if the First Minister could tell us today how many of these eight Bills, launched today, will be completed by next July. Why are so many of them already so far behind schedule?

Mae rhai o'r Biliau hyn yn dal i fod ymhell o fod yn barod. Ni fydd y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn cael ei gyflwyno tan fis Mehefin nesaf, ac ni fydd y Bil cenedlaethau'r dyfodol a'r Bil diwygio cynllunio yn cael eu cyflwyno cyn toriad yr haf nesaf, ac mae'r un peth yn wir am ddrafft llawn Bil gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog ddweud wrthym heddiw faint o'r wyth Bil hyn, a lansiwyd heddiw, a fydd yn cael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf nesaf. Pam mae cynifer ohonynt eisoes mor bell y tu ôl i'r amserlen?

Finally, First Minister, will you ensure that your Ministers meet with opposition parties in advance of Bills being published, so that we can avoid some of the difficult and thorny issues that we have seen thus far this year, and so that we can make sure that the Senedd uses its resources in the best way possible to produce good, if not excellent, legislation that will improve the lives of people in Wales?

Yn olaf, Brif Weinidog, a wnewch chi sicrhau bod eich Gweinidogion yn cwrdd gyda'r gwrthbleidiau cyn i'r Biliau gael eu cyhoeddi, fel y gallwn osgoi rhai o'r materion anodd a dyrys yr ydym wedi'u gweld hyd yma eleni, ac fel y gallwn wneud yn siŵr bod y Senedd yn defnyddio ei hadnoddau yn y ffordd orau bosibl i gynhyrchu deddfwriaeth dda, os nad rhagorol, a fydd yn gwella bywydau pobl yng Nghymru?

19:18

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I begin by reminding the leader of Plaid Cymru that it is far from being the case that two Bills have been passed. Four Bills have actually become law by receiving Royal assent, and two have been passed and are in the process of receiving the Royal Assent. Five are in transit in the Assembly itself, and I mentioned another eight today. An allegation was made two years ago that, somehow, there was not enough legislative momentum, but I do not think that that is fair to say now, given the fact that, there, we have a total of some 20 Bills that have either been passed, are in transit, or are about to be introduced. So, I do not think that that allegation is fairly based. I remind you that Plaid Cymru, of course, was the party that went into the Assembly election in 2011 without a single proposal for any Bill of any kind. There was not one. [Interruption.] We have had this before. We had the manifesto, but there was not one. [Interruption.] There were two, were there? If the bidding is two, perhaps we could go from there. In fairness, the Conservatives did produce a clutch of Bills.

Dechreuaf drwy atgoffa arweinydd Plaid Cymru ei fod yn bell o fod yn wir mai dau Fil sydd wedi eu pasio. Mae pedwar Bil mewn gwirionedd wedi dod yn gyfraith trwy dderbyn cydsyniad Brenhinol, ac mae dau wedi eu pasio ac maent yn y broses o dderbyn y Cydsyniad Brenhinol. Mae pump ar eu taith yn y Cynulliad ei hun, a chrybwyllais wyth arall heddiw. Cafodd honiad ei wneud ddwy flynedd yn ôl, nad oedd, rywsut, digon o fomentwm deddfwriaethol, ond nid wyf yn meddwl ei bod yn deg dweud hynny nawr, o ystyried y ffaith fod gennym yna gyfanswm o tua 20 Bil sydd naill ai wedi eu pasio, ar eu taith, neu ar fin cael eu cyflwyno. Felly, nid wyf yn credu bod sail deg i'r honiad. Rwy'n eich atgoffa mai Plaid Cymru, wrth gwrs, oedd y blaid a aeth i mewn i etholiad y Cynulliad yn 2011 heb unrhyw gynnig ar gyfer unrhyw Fil o unrhyw fath. Nid oedd yr un. [Torri ar draws.] Rydym wedi cael hyn o'r blaen. Cawsom y maniffesto, ond nid oedd un. [Torri ar draws.] Roedd dau, oedd yna? Os mai dau a nodir, efallai y gallem fynd ymlaen o'r fan honno. A bod yn deg, fe wnaeth y Ceidwadwyr gynhyrchu dyrnaid o Filiau.

19:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I will not allow any sedentary comments, or at least not those repeated over and over again. Now, let us hear the First Minister.

Ni fyddaf yn caniatáu unrhyw sylwadau gan bobl oddi ar eu heistedd, neu o leiaf nid y rhai sy'n cael eu hailadrodd drosodd a throsodd. Nawr, gadewch i ni glywed y Prif Weinidog.

19:19

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In fairness, the Conservatives did produce a clutch of Bills, whether the principles or detail would have been agreed to or not.

A bod yn deg, fe wnaeth y Ceidwadwyr gynhyrchu dyrnaid o Filiau, pa un a fyddai'r egwyddorion neu'r manylion wedi eu cytuno ai peidio.

She asked, first of all, with regard to the future generations Bill, whether that would be weakened or watered down? The answer is 'no'. That is not the intention in any way. She also asked regarding the definition of sustainable development. I think that it is right to say that the concept of sustainable development has not gained traction among the wider public. It does have traction among those who are more involved in politics on a day-to-day basis, but when I talk to members of the public, I tend to find that they think that it is something to do with the environment. It is about a lot more than that. Therefore, taking forward the principles by using a title that will help to do that is certainly what we believe to be the way forward.

Gofynnodd, yn gyntaf oll, o ran y Bil cenedlaethau'r dyfodol, a fyddai hwnnw'n cael ei wanhau neu ei lastwreiddio? Yr ateb yw 'na fydd'. Nid dyna'r bwriad mewn unrhyw ffordd. Gofynnodd hefyd am y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy. Rwy'n credu ei bod yn iawn i ddweud nad yw'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy wedi ennill poblogrwydd ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. Mae ganddo boblogrwydd ymhlith y rhai sy'n cymryd mwy o ran mewn gwleidyddiaeth o ddydd i ddydd, ond pan fyddaf yn siarad ag aelodau o'r cyhoedd, rwy'n tueddu i weld eu bod yn credu ei fod yn rhywbeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Mae'n ymwneud â llawer mwy na hynny. Felly, datblygu'r egwyddorion drwy ddefnyddio teitl a fydd yn helpu i wneud hynny, yw'r ffordd ymlaen yn sicr yn ein barn ni.

In terms of the ending violence against women and domestic abuse Bill, it is not planned that that will include a ban on smacking—I believe that is the question that she was asking. There is no proposal to water down the housing Bill in terms of homelessness. I am not sure where that comes from, given that the Bill has not yet been introduced in the first place. How you can allege that a Bill has been watered down before anyone has even seen it is difficult to understand.

O ran y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, nid yw'n fwriad iddo gynnwys gwaharddiad ar daro—credaf mai dyna'r cwestiwn yr oedd yn ei ofyn. Nid oes unrhyw fwriad i lastwreiddio'r Bil tai o ran digartrefedd. Nid wyf yn siŵr o ble y daw hynny, o ystyried nad yw'r Bil wedi cael ei gyflwyno yn y lle cyntaf eto. Mae sut y gallwch chi honni bod Bil wedi ei lastwreiddio cyn i unrhyw un hyd yn oed ei weld yn anodd ei ddeall.

With regard to the NHS Bill, of course, we can debate at length the issue of how much money should go into the NHS, but that is not a matter for legislation; it is a matter of budget. These are matters that I am sure will be discussed over the course of the next few months.

O ran Bil y GIG, wrth gwrs, gallwn drafod yn fanwl y mater o faint o arian a ddylai fynd i mewn i'r GIG, ond nid yw hynny'n fater ar gyfer deddfwriaeth; mae'n fater o gyllideb. Mae'r rhain yn faterion yr wyf yn siŵr y byddant yn cael eu trafod yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

I can assure the leader of Plaid Cymru that we are more than aware of the arithmetic in the Chamber. All parties, I am sure, will await the result of the by-election on 1 August to see whether that changes, or not. Nevertheless, it remains the case that it will be incumbent upon us as a Government to work with other parties, regardless of what happens, because it is important to get as much support for the budget, to my mind, as is possible to get. We are always willing to work with other parties if they bring forward legislation by way of Member-proposed legislation. We have done that already, of course, with Peter Black as he took forward his Mobile Homes (Wales) Bill, and we are prepared, of course, on occasion, to give as much help as we can with regard to those Bills. However, I believe that there is a desire in the Chamber to take forward legislation that will benefit the people of Wales. The detail will need to be thrashed out; that much is true. We understand that, and that will be the subject of negotiation and agreement between parties. Nevertheless, I am not sure that I have heard anybody yet in the Chamber take issue with the principles behind any of these Bills particularly. However, the devil is in the detail and that will be an occasion for all parties to consider their positions with a view to taking legislation through.

Gallaf sicrhau arweinydd Plaid Cymru ein bod yn fwy nag ymwybodol o'r rhifyddeg yn y Siambr. Mae pob plaid, rwy'n siŵr, yn aros am ganlyniad yr isetholiad ar 1 Awst i weld a fydd hynny'n newid pethau, ai peidio. Serch hynny, mae'n dal yn wir y bydd yn ddyletswydd arnom fel Llywodraeth i weithio gyda'r pleidiau eraill, ni waeth beth fydd yn digwydd, oherwydd ei bod yn bwysig i gael cymaint o gefnogaeth ar gyfer y gyllideb, yn fy marn i, ag y mae'n bosibl ei gael. Rydym bob amser yn barod i weithio gyda phleidiau eraill os ydynt yn cyflwyno deddfwriaeth drwy ddeddfwriaeth a gynigir gan Aelod. Rydym wedi gwneud hynny eisoes, wrth gwrs, gyda Peter Black wrth iddo ddatblygu ei Fil Cartrefi Symudol (Cymru), ac rydym yn barod, wrth gwrs, ar adegau, i roi cymaint o gymorth ag y gallwn o ran y Biliau hynny. Fodd bynnag, rwy'n credu bod awydd yn y Siambr i fwrw ymlaen â deddfwriaeth a fydd o fudd i bobl Cymru. Bydd angen trafod y manylion yn helaeth; mae hynny'n wir. Rydym yn deall hynny, a bydd hynny'n destun trafod a chytundeb rhwng pleidiau. Serch hynny, nid wyf yn siŵr fy mod wedi clywed unrhyw un eto yn y Siambr yn anghytuno â'r egwyddorion y tu ôl i unrhyw un o'r Biliau hyn yn benodol. Fodd bynnag, yn y manylion y mae'r diafol a bydd hynny'n achlysur i bob plaid ystyried eu safbwynt gyda golwg ar basio deddfwriaeth.

19:22 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Rwy'n siŵr eich bod yn eithaf iawn nad oes llawer o anghytuno ynglŷn ag egwyddor unrhyw un o'r Biliau hyn, ond hwyrach bod angen i ni weld tipyn yn fwy o'r manylion.

I would like to thank the First Minister for his statement today. I am sure that you are quite right that there is not much disagreement with regard to the principles behind any of these Bills, but perhaps we need to see a little more detail.

Rwy'n cytuno â chi bod y sesiwn olaf wedi bod yn un hanesyddol, yn arbennig wrth inni basio Bil Trawsblannu Dynol (Cymru). Mae nifer o Filiau eisoes wedi'u cyflwyno gan y Llywodraeth, ac rydym yng nghanol edrych ar rai o'r Biliau hynny. Rwy'n anghytuno gyda Leanne Wood i ryw raddau ynghylch anghysondeb Gweinidogion o fewn y Llywodraeth. Mae rhai wedi bod yn awyddus iawn i drafod gyda llefarwyr gwahanol bleidiau, tra bod eraill wedi bod yn amharod i wneud hynny. Mae gennyf brofiad personol o hynny gyda Gwenda Thomas ynghylch y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae nifer o gyfarfodydd wedi bod, a chynhelir un arall yfory, pan fyddwn yn trafod ymhellach y ffordd y mae'r Bil hwnnw yn mynd yn ei flaen.

I agree with you that this final session has been historic, particularly as we passed the Human Transplantation (Wales) Bill. A number of Bills have already been introduced by the Government, and we are in the process of looking at some of those Bills. I disagree with Leanne Wood to a certain extent with regard to inconsistency among Ministers within the Government. Some have been very eager to discuss with the spokespeople of the different parties, while others have not been prepared to do that. I have personal experience of that, having worked with Gwenda Thomas on the Social Services and Well-being (Wales) Bill, for which a number of meetings have been held, and there is another tomorrow, at which we will discuss further the way that that Bill is progressing.

Fodd bynnag, credaf fod pryder cyffredinol ynghylch rhai o'r Biliau sydd o'n blaenau ni ar hyn o bryd a'r rhai y bu ichi gyfeirio atynt yn eich datganiad heddiw. Mae cwestiwn ynghylch a yw'r asesiadau cyllidol y tu ôl i Fil yn ddigonol. Mae cwestiynau yn codi gyda rhai o'r Biliau sydd ger ein bron ni o ran a yw'r Biliau yn fforddiadwy. Mae'n anodd iawn i ni, hyd yn oed os ydym yn derbyn egwyddor y ddeddfwriaeth, gefnogi'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad os nad ydym wedi cael asesiad llawn o'r gost. Rwyf wedi gwneud y sylwadau hynny ynghylch Bil Addysg (Cymru) a byddaf yn eu gwneud gyda Biliau eraill yn y dyfodol.

However, there has been general concern in relation to some of the Bills before us at present and those that you referred to in your statement today. There is the question of whether the financial assessments behind Bills are adequate. Questions arise with some of the Bills before us with regard to whether or not they are affordable. It is very difficult for us, even if we accept the principle of a piece of legislation, to support the Bill as it goes through the Assembly if we have not had a full assessment of the cost. I have made these comments in relation to the Education (Wales) Bill and I will do so in relation to other Bills as time progresses.

Today's statement refers to eight Bills. We have had a lengthy debate this afternoon with regard to the emergency legislation. Obviously, there is a difference of opinion with regard to the need for that emergency legislation and whether or not it has given us the opportunity sufficiently to scrutinise the legislation. However, there is reference in the statement to a fast-track process being used for the NHS Finance (Wales) Bill. While most of us would accept that there is a need for greater financial flexibility, and are aware that specific problems arise as a result of the need for health boards to balance books at the year end, I would ask, First Minister, that the drafting of the Bill takes into account the evidence that we are hearing in the Public Accounts Committee. If we are to give health boards a greater degree of flexibility, there is a need for us to have greater assurance with regard to the robustness of their financial controls. We heard evidence last week from Betsi Cadwaladr health board that there was no agreed budget in place at the beginning of the financial year, and that there was no internal agreement with regard to its budget, in some instances until the end of September of that year. If we are to give health boards greater flexibility, we need to have greater confidence in relation to the way in which they operate.

Mae datganiad heddiw yn cyfeirio at wyth Bil. Rydym wedi cael dadl hir y prynhawn yma o ran y ddeddfwriaeth argyfwng. Yn amlwg, mae gwahaniaeth barn o ran yr angen am y ddeddfwriaeth argyfwng a pha un a yw wedi rhoi cyfle digonol i ni i graffu ar y ddeddfwriaeth ai peidio. Fodd bynnag, mae cyfeiriad yn y datganiad at broses llwybr carlam yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Bil Cyllid y GIG (Cymru). Er y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn derbyn bod angen mwy o hyblygrwydd ariannol, ac yn ymwybodol bod problemau penodol yn codi o ganlyniad i'r angen i fyrddau iechyd fantoli'r llyfrau ar ddiwedd y flwyddyn, rwyf yn gofyn, Brif Weinidog, i ddrafftio'r Bil ystyried y dystiolaeth yr ydym yn ei chlywed yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Os ydym am roi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd, mae angen i ni gael mwy o sicrwydd o ran cadernid eu rheolaeth ariannol. Clywsom dystiolaeth yr wythnos diwethaf gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr nad oedd cyllideb y cytunwyd arni ar waith ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac nad oedd unrhyw gytundeb mewnol o ran ei gyllideb, mewn rhai achosion hyd at ddiwedd mis Medi y flwyddyn honno . Os ydym am roi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd, mae angen i ni gael mwy o hyder o ran y ffordd y maent yn gweithredu.

Given that the housing Bill will be introduced in about three months' time, in November, are you confident that the consultation that will be needed with local authorities and tenants with regard to the implications of the removal of the housing revenue account subsidy will be sufficient to enable us to properly consider that at committee stage after its introduction? Is it also the Government's intention to revisit the principle of intentional homelessness, because my recollection when I was a local authority leader was that the Government at that stage was giving active consideration to removing that particular clause? Does that feature in your deliberations on this Bill?

O gofio y bydd y Bil tai yn cael ei gyflwyno ymhen rhyw dri mis, ym mis Tachwedd, a ydych chi'n hyderus y bydd yr ymgynghoriad y bydd ei angen gydag awdurdodau lleol a thenantiaid o ran goblygiadau cael gwared ar y cymhorthdal cyfrif refeniw tai yn ddigonol er mwyn ein galluogi i ystyried hynny'n briodol yn y cyfnod pwyllgor ar ôl ei gyflwyno? A yw hefyd yn fwriad gan y Llywodraeth i edrych eto ar yr egwyddor o ddigartrefedd bwriadol, oherwydd fy atgof i o pan oeddwn yn arweinydd awdurdod lleol oedd bod y Llywodraeth ar y cyfnod hwnnw yn rhoi ystyriaeth weithredol i ddileu'r cymal penodol hwnnw? A yw hynny'n rhan o'ch trafodaethau ar y Bil hwn?

I cannot see that anyone here would oppose the introduction of the ending violence against women and domestic abuse Bill. However, having had numerous conversations over the past few weeks with organisations involved with domestic violence, there is a need for the reviews currently being undertaken to have regard to the grant funding streams and the inconsistencies in provision from county to county, because services are very much moulded by historic patterns of funding. I hope that the Bill does away with that evident degree of inconsistency from county to county.

Ni allaf weld y byddai unrhyw un yma yn gwrthwynebu cyflwyno'r Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Fodd bynnag, ar ôl cael nifer o sgyrsiau dros yr ychydig wythnosau diwethaf gyda sefydliadau sy'n ymwneud â thrais domestig, mae angen i'r adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ystyried y ffrydiau ariannu grant a'r anghysondebau yn y ddarpariaeth o sir i sir, oherwydd bod gwasanaethau yn cael eu trefnu i raddau helaeth gan batrymau hanesyddol o gyllido. Gobeithio y bydd y Bil yn cael gwared â'r radd amlwg honno o anghysondeb o sir i sir.

With regard to something that was not mentioned in the statement this afternoon, there was a pledge in the programme for government to introduce a children and young persons Bill. In legislative statements in 2011, you mentioned that it was the Government's intention to bring forward legislation building on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. We pressed in the recent debate on the programme for government as to whether or not that had been put to one side, and I would like to hear whether it is your intention to introduce that sometime in the future. In giving evidence to the Children and Young People's Committee in May 2013, the Children's Commissioner for Wales asked whether that was still in the Government's legislative programme.

O ran rhywbeth na chafodd ei grybwyll yn y datganiad y prynhawn yma, cafwyd addewid yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu i gyflwyno Bil plant a phobl ifanc. Mewn datganiadau deddfwriaethol yn 2011, soniasoch mai bwriad y Llywodraeth oedd cyflwyno deddfwriaeth yn adeiladu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Fe wnaethom bwyso yn y ddadl ddiweddar ar y rhaglen ar gyfer llywodraethu ar ba un a oedd hynny wedi cael ei roi o'r neilltu ai peidio, a hoffwn glywed a yw'n fwriad gennych i gyflwyno hynny rywbryd yn y dyfodol. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Mai 2013, gofynnodd Comisiynydd Plant Cymru a oedd hynny'n dal i fod yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth.

Finally, as far as the future generations Bill is concerned, you will be aware that 20 organisations issued a joint statement today questioning how well the Government is delivering. They agree fully with the rhetoric, but perhaps delivery has not been as evident. A lot of us are questioning whether or not it is the Government's intention to look at the sustainability of Welsh-language communities within that Bill. That is clearly an issue that has to be dealt with.

Yn olaf, cyn belled ag y mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn y cwestiwn, byddwch yn ymwybodol bod 20 o sefydliadau wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd heddiw yn holi pa mor dda y mae'r Llywodraeth yn cyflawni. Maent yn cytuno'n llawn â'r rhethreg, ond nid yw'r cyflawni efallai wedi bod mor amlwg. Mae llawer ohonom yn cwestiynu a yw'n fwriad gan y Llywodraeth i edrych ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith o fewn y Bil hwnnw. Mae hynny'n amlwg yn fater y mae'n rhaid ymdrin ag ef.

The written statement ends by saying 'check against delivery', and that is what we will need to do as opposition parties. However, given the comments made by Leanne Wood, perhaps we will enter an era where more pre-legislative discussion is held with opposition parties to avoid some of the discussion and amendments that we have seen at committee stage in the future.

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn dod i ben drwy ddweud 'gwirio cyflawniad', a dyna'r hyn y bydd angen i ni ei wneud fel gwrthbleidiau. Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a wnaed gan Leanne Wood, efallai y byddwn yn mynd i mewn i gyfnod pryd y bydd mwy o drafodaeth cyn-ddeddfwriaethol yn cael ei chynnal gyda'r gwrthbleidiau yn y dyfodol, i osgoi rhai o'r trafodaethau a'r gwelliannau yr ydym wedi'u gweld yn ystod y cyfnod pwyllgor.

19:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Liberal Democrat Member for North Wales for his comments. In terms of the issue of cost, I expect regulatory impact assessment to be robust. That is something that Members have a right to expect. Where those assessments are scrutinised, they must stand up to scrutiny where that happens. This is relevant to the point that was made about the ending violence against women and domestic abuse Bill. If there are consequences for funding, then that would be picked up in the process of the RIA, in order to ensure that they are fully understood and to ensure that the financial consequences of the legislation are understood and provided for. That would be part of the legislative process itself.

Diolch i Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Ogledd Cymru am ei sylwadau. O ran y mater o gost, rwy'n disgwyl i asesiad effaith rheoleiddiol fod yn gadarn. Mae hynny'n rhywbeth y mae gan yr Aelodau yr hawl i'w ddisgwyl. Pan fo craffu ar yr asesiadau hynny, mae'n rhaid iddynt wrthsefyll craffu pan fo hynny'n digwydd. Mae hyn yn berthnasol i'r pwynt a wnaed am y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Os oes canlyniadau ar gyfer ariannu, yna byddai hynny'n cael ei godi ym mhroses yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn llawn ac i sicrhau bod canlyniadau ariannol y ddeddfwriaeth yn cael eu deall ac y darperir ar eu cyfer. Byddai hynny'n rhan o'r broses ddeddfwriaethol ei hun.

With regard to the NHS finances Bill, I would anticipate that it would be a very short Bill, simply to introduce a three-year cycle of funding for local health boards. I would not anticipate it being a lengthy Bill, nor would I anticipate it looking at actual figures in terms of NHS funding. Those are dealt with in other ways. The NHS finances Bill is an example of dealing with a situation where something should not have been put on the face of primary legislation—that is, something that may well have been dealt with in secondary legislation at the time the legislation was passed. It predates the powers that we have in this Assembly. However, it illustrates the delicate balance that has to be measured between including detail on the face of a Bill and introducing that detail through secondary legislation. There will be debates, of course, as to what the balance should be, but, ultimately, it is down to flexibility. If you have something on the face of the Bill that makes it wholly inflexible, it makes it much more difficult to change things. It means, as we are doing with the NHS finances Bill, having to introduce, effectively, an amending Bill to deal with a situation, rather than dealing with it much more quickly via other routes if those routes had been available to us.

O ran Bil cyllid y GIG, byddwn yn rhagweld y byddai'n Fil byr iawn, dim ond i gyflwyno cylch tair blynedd o gyllid ar gyfer byrddau iechyd lleol. Ni fyddwn yn disgwyl iddo fod yn Fil hir, ac ni fyddwn yn rhagweld ei fod yn edrych ar ffigurau gwirioneddol o ran cyllid y GIG. Mae'r rheini'n cael eu trin mewn ffyrdd eraill. Mae Bil cyllid y GIG yn enghraifft o ymdrin â sefyllfa lle na ddylai rhywbeth fod wedi cael ei roi ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol—hynny yw, rhywbeth y gellid yn hawdd fod wedi ymdrin ag ef mewn is-ddeddfwriaeth ar adeg pasio'r ddeddfwriaeth. Mae'n rhagflaenu'r pwerau sydd gennym yn y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, mae'n dangos y cydbwysedd bregus y mae'n rhaid ei fesur rhwng cynnwys manylion ar wyneb Bil a chyflwyno'r manylion drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd dadleuon, wrth gwrs, o ran yr hyn y dylai'r cydbwysedd hwnnw fod, ond, yn y pen draw, mae'n fater o hyblygrwydd. Os oes gennych rywbeth ar wyneb y Bil sy'n ei wneud yn gwbl anhyblyg, mae'n ei gwneud yn llawer mwy anodd i newid pethau. Mae'n golygu, fel yr ydym yn ei wneud gyda Bil cyllid y GIG, gorfod cyflwyno, mewn gwirionedd, Bil diwygio i ymdrin â sefyllfa, yn hytrach nag ymdrin â hi'n llawer cyflymach drwy lwybrau eraill pe byddai'r llwybrau hynny wedi bod ar gael i ni.

In terms of the housing Bill, we are confident that any consultation over the housing revenue account subsidy will be robust and proper. We are still considering the issue of intentional homelessness, and the Minister will make his views known in the course of the legislation.

O ran y Bil tai, rydym yn hyderus y bydd unrhyw ymgynghoriad ynglŷn â'r cymhorthdal cyfrif refeniw tai yn gadarn ac yn briodol. Rydym yn dal i ystyried y mater o ddigartrefedd bwriadol, a bydd y Gweinidog yn gwneud ei farn yn hysbys yn ystod y ddeddfwriaeth.

Consideration is being given to a children and young persons Bill, although it is not part of the legislative programme this year.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i Fil plant a phobl ifanc, er nad yw'n rhan o raglen ddeddfwriaethol eleni.

With regard to the future generations Bill, it is important to emphasise that environmental sustainability is important, but it is of equal importance to social and economic sustainability. It is important that people are able to live their lives in secure communities while enjoying an acceptable quality of environment. These balances are often difficult to measure, but there will be some economic activities that, on the face of them, are not sustainable from an environmental point of view but nevertheless provide many thousands of jobs. Tata Steel in Port Talbot is an example. From an environmental point of view, clearly it has an impact, although that impact has reduced considerably over the last few years. However, it sustains 5,000 jobs, pretty much, in terms of direct employment and probably an equal number in terms of indirect employment. Yes, the environmental sustainability of the area might be improved if it was not there, but the economic sustainability would be shot to pieces. So, getting that balance right as part of the future generations Bill will be crucial in order to take what has been sometimes a nebulous concept and turn it into something clear that people can see on the ground.

O ran y Bil cenedlaethau'r dyfodol, mae'n bwysig pwysleisio bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn bwysig, ond mae'r un mor bwysig i gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd. Mae'n bwysig bod pobl yn gallu byw eu bywydau mewn cymunedau diogel gan fwynhau amgylchedd o ansawdd derbyniol. Mae'r cydbwysedd hyn yn aml yn anodd ei fesur, ond bydd rhai gweithgareddau economaidd nad ydynt, ar yr wyneb, yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, ond serch hynny, yn darparu llawer o filoedd o swyddi. Mae Tata Steel ym Mhort Talbot yn enghraifft o hynny. O safbwynt amgylcheddol, mae'n amlwg ei fod yn cael effaith, er bod yr effaith honno wedi gostwng yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n cynnal 5,000 o swyddi, mwy neu lai, o ran cyflogaeth uniongyrchol a nifer cyfartal mae'n debyg o ran cyflogaeth anuniongyrchol. Mae'n wir, efallai y byddai cynaliadwyedd amgylcheddol yr ardal yn cael ei wella pen na byddai yno, ond byddai'r cynaliadwyedd economaidd yn cael ei chwalu'n ddarnau mân. Felly, bydd cael y cydbwysedd yn iawn fel rhan o'r Bil cenedlaethau'r dyfodol yn hanfodol er mwyn cymryd yr hyn sydd weithiau wedi bod yn gysyniad niwlog a'i droi yn rhywbeth clir y gall pobl ei weld ar lawr gwlad.

19:33 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The sustainability Bill is a Bill that is of quite considerable importance and is one that, as far as the name is concerned, I have got quite attached to; it is a bit like having an invisible friend, I suppose. The danger with the sustainability Bill, however, is that it risks being over-aspirational and becomes what you might call a sort of paper tiger. The direction for it, it seems to me, is that it must look at establishing a framework. I see the future for this legislation as very much being the equivalent of a framework directive; framework legislation that sets the overarching parameters for this particular type of legislation. If you look at the international examples of sustainability legislation, you will see that they involve the creation of a sustainability commission that is there to research, to advise, to resolve conflicts and to assist in encompassing legislation within that particular framework. It seems to me that that is the direction that we need to go in with the Bill, whatever it is actually called.

Mae'r Bil cynaliadwyedd yn Fil sydd o bwysigrwydd eithaf sylweddol ac yn un sydd, cyn belled ag y mae'r enw yn y cwestiwn, yr wyf wedi dod yn eithaf hoff ohono; mae ychydig fel cael ffrind anweledig, mae'n debyg. Y perygl gyda'r Bil cynaliadwyedd, fodd bynnag, yw bod perygl iddo fod yn or-uchelgeisiol a dod yn hyn y gallech ei alw'n rhyw fath o deigr papur. Y cyfeiriad ar ei gyfer, mae'n ymddangos i mi, yw bod yn rhaid iddo geisio sefydlu fframwaith. Rwy'n gweld y dyfodol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon i raddau helaeth yr hyn sy'n cyfateb i gyfarwyddeb fframwaith, deddfwriaeth fframwaith sy'n gosod y paramedrau cyffredinol ar gyfer y math penodol hwn o ddeddfwriaeth. Pe byddech yn edrych ar yr enghreifftiau rhyngwladol o ddeddfwriaeth cynaliadwyedd, byddech yn gweld eu bod yn cynnwys creu comisiwn cynaliadwyedd sydd yno i ymchwilio, i gynghori, i ddatrys gwrthdaro ac i gynorthwyo i gwmpasu deddfwriaeth o fewn y fframwaith penodol hwnnw. Mae'n ymddangos i mi mai dyna'r cyfeiriad y mae angen i ni fynd â'r Bil, beth bynnag y'i gelwir mewn gwirionedd.

On your statement as a whole, First Minister, what I would say is this: my first 12 months in the Assembly very much involved listening to the repeated mantra of 'We've got these powers, so where is the legislation and why can't we get on with it?' All I would say is that I do not hear that refrain very much these days. However, the challenge and issue for us will be—I think that the points have been fairly made—the quality and the scrutiny of the legislation.

Ar eich datganiad yn ei gyfanrwydd, Brif Weinidog, yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw hyn: roedd fy 12 mis cyntaf yn y Cynulliad yn ymwneud i raddau helaeth â gwrando ar y mantra dro ar ôl tro o 'Rydym wedi cael y pwerau hyn, felly ble mae'r ddeddfwriaeth a pham na allwn fwrw ymlaen â hi?' Y cwbl a ddywedaf yw nad wyf yn clywed y byrdwn hwnnw'n aml iawn y dyddiau hyn. Fodd bynnag, yr her a'r mater i ni fydd—credaf fod y pwyntiau wedi cael eu gwneud yn deg—yr ansawdd a'r craffu ar y ddeddfwriaeth.

19:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for Pontypridd for his comments. We are committed to establishing a statutory independent body, and we see it playing a key role as an advocate for future generations. We aim to ensure that—to use the phrase that has been in vogue this afternoon—something that is a 'motherhood and apple pie' Bill means something, rather than imposing duties that are quite difficult to enforce and a Bill that, perhaps, might not make a difference to people's lives on the ground. It is important that that is avoided as far as the future generations Bill is concerned. It is crucial, as the Member rightly said, that we have a body that is able to advise and to monitor how the Bill progresses.

Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ei sylwadau. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu corff annibynnol statudol, ac rydym yn ei weld yn chwarae rôl allweddol fel eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ein nod yw sicrhau bod—i ddefnyddio'r ymadrodd sydd wedi bod yn ffasiynol y prynhawn yma—rhywbeth sy'n Fil 'mamogaeth a tharten afal' sy'n golygu rhywbeth, yn hytrach na gosod dyletswyddau sy'n eithaf anodd eu gorfodi a Bil, efallai, nad yw'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ar lawr gwlad. Mae'n bwysig bod hynny'n cael ei osgoi cyn belled ag y mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn y cwestiwn. Mae'n hollbwysig, fel y dywedodd yr Aelod yn gywir, fod gennym gorff sy'n gallu cynghori a monitro sut y mae'r Bil yn mynd yn ei flaen.

When it comes to sustainable development, coming back to a point that has been made twice in the Chamber—I apologise that I did not address it—the Welsh language is part of many communities, in terms of their sustainability. It is difficult to legislate in that way for the Welsh language. It needs to be a more all-encompassing package than that, which is why the 'gynhadledd fawr' was so important in developing our thinking for the future in this regard.

Pan ddaw'n fater o ddatblygiad cynaliadwy, gan ddod yn ôl at bwynt sydd wedi ei wneud ddwywaith yn y Siambr—rwy'n ymddiheuro na wneuthum roi sylw iddo—mae'r iaith Gymraeg yn rhan o lawer o gymunedau, o ran eu cynaliadwyedd. Mae'n anodd deddfu yn y ffordd honno ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae angen iddo fod yn becyn mwy hollgynhwysfawr na hynny, a dyna pam yr oedd y 'gynhadledd fawr' mor bwysig o ran datblygu ein syniadau ar gyfer y dyfodol yn hyn o beth.

However, he is absolutely correct to say that the future generations Bill has two challenges. The first is to make a difference to people's lives on the ground and the second is to be able to balance the varying pillars of sustainability in order to ensure that we have vibrant and sustainable communities in Wales.

Fodd bynnag, mae'n gwbl gywir i ddweud bod gan y Bil cenedlaethau'r dyfodol ddwy her. Y gyntaf yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ar lawr gwlad a'r ail yw gallu cydbwyso pileri amrywiol cynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod gennym gymunedau bywiog a chynaliadwy yng Nghymru.

19:36 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I very much welcomed the announcement of the NHS finances Bill when it was made a few weeks ago and I am very pleased also to see that it was referred to today in your statement. You know that the Public Accounts Committee has done some work on NHS finances over the past two years, and there have been two reports in which we have made clear recommendations to address the inflexibility of the financial arrangements for Welsh local health boards. In our 'A Picture of Public Services' report in April 2012, we recommended that there should be flexibility across financial years, in line with local authorities. In February 2013, we said that brokerage ought to continue to be provided to local health boards, pending a more permanent legislative solution. Therefore, I am pleased that we have a permanent legislative opportunity to address these things in the longer term.

Brif Weinidog, roeddwn yn croesawu'n fawr cyhoeddi Bil cyllid y GIG pan wnaed hynny ychydig wythnosau yn ôl ac rwy'n falch iawn hefyd o weld y cyfeiriwyd ato heddiw yn eich datganiad. Rydych yn gwybod bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi gwneud peth gwaith ar gyllid y GIG dros y ddwy flynedd diwethaf, a chafwyd dau adroddiad lle'r ydym wedi gwneud argymhellion clir i fynd i'r afael ag anhyblygrwydd y trefniadau ariannol ar gyfer byrddau iechyd lleol Cymru. Yn ein hadroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' ym mis Ebrill 2012, roeddem yn argymell y dylid cael hyblygrwydd ar draws blynyddoedd ariannol, yn unol ag awdurdodau lleol. Ym mis Chwefror 2013, dywedasom y dylid parhau i ddarparu broceriaeth i fyrddau iechyd lleol, cyn i ni gael ateb deddfwriaethol mwy parhaol. Felly, rwy'n falch bod gennym gyfle deddfwriaethol parhaol i fynd i'r afael â'r pethau hyn yn y tymor hwy.

However, at no point has the Public Accounts Committee recommended a three-year budget process. In fact, we did not take a lot of evidence from people that suggested that a three-year period of budgeting would be a more appropriate solution. Therefore, I wonder what the evidence base is that a three-year period of budgeting is the most appropriate way forward. My party will support flexibility and we will try to support the Government's proposals to try to allow the NHS to have more flexibility in its finances, but I would appreciate some information from you on what the evidence base is for that.

Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi argymell proses cyllideb tair blynedd ar unrhyw bwynt. Mewn gwirionedd, ni chawsom lawer o dystiolaeth gan bobl a oedd yn awgrymu y byddai cyfnod o dair blynedd o gyllidebu yn ateb mwy priodol. Felly, rwy'n meddwl tybed beth yw sail y dystiolaeth mai cyfnod o dair blynedd o gyllidebu yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Bydd fy mhlaid i'n cefnogi hyblygrwydd a byddwn yn ceisio cefnogi cynigion y Llywodraeth i geisio caniatáu i'r GIG gael mwy o hyblygrwydd yn ei gyllid, ond byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o wybodaeth gennych am sylfaen y dystiolaeth ar gyfer hynny.

Very quickly, to turn to the housing Bill—again, something that I certainly welcome—you referred in your statement to addressing the quality of accommodation provided by local authorities, but you did not refer to registered social landlords. You did not refer to the quality of their accommodation. We know that we have had the Welsh housing quality standard, which has slipped in terms of delivery, but I wonder whether you can tell us a little more about whether registered social landlords will be included in those aims of trying to improve the quality of accommodation across Wales.

Yn gyflym iawn, i droi at y Bil tai —unwaith eto, rhywbeth yr wyf yn sicr yn ei groesawu—roeddech yn cyfeirio yn eich datganiad at fynd i'r afael ag ansawdd y llety a ddarperir gan awdurdodau lleol, ond ni wnaethoch gyfeirio at landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ni wnaethoch gyfeirio at ansawdd eu llety hwy. Rydym yn gwybod ein bod wedi cael y safon ansawdd tai Cymru, sydd wedi llithro o ran cyflawni, ond tybed a allwch chi ddweud ychydig mwy wrthym ynghylch pa un a fydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu cynnwys yn yr amcanion hynny o geisio gwella ansawdd llety ledled Cymru.

Finally, you did not refer to this in your comments on the housing Bill, but I wonder whether you will take the opportunity to address this: one of the concerns that my constituents raise on a regular basis is that they do not feel that enough attention is paid to their local connection in the housing allocation policies that local authorities and registered social landlords use. They feel that there ought to be a stronger emphasis on local connection for access to local housing. The complaint often is that people from outside seem to queue-jump the housing waiting lists and seem to be able to access local housing more regularly than people who have a long-established connection to an area, who may have been living there for decades and are on a waiting list. I wonder whether you would be able to address that somehow through the housing Bill.

Yn olaf, ni wnaethoch gyfeirio at hyn yn eich sylwadau ar y Bil tai, ond tybed a fyddwch yn achub ar y cyfle i roi sylw i hyn: un o'r pryderon y mae fy etholwyr yn ei godi yn rheolaidd yw nad ydynt yn teimlo bod digon o sylw'n cael ei dalu i'w cysylltiad lleol yn y polisïau dyrannu tai y mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn eu defnyddio. Maent yn teimlo y dylai fod mwy o bwyslais ar gysylltiad lleol ar gyfer mynediad at dai lleol. Y gŵyn yn aml yw bod pobl o'r tu allan yn ymddangos fel eu bod yn neidio ciw y rhestrau aros am dai ac yn ymddangos i fod yn gallu cael mynediad at dai lleol yn fwy rheolaidd na phobl sydd â chysylltiad hir-sefydlog ag ardal, a allai fod wedi bod yn byw yno ers degawdau ac sydd ar restr aros. Tybed a fyddech yn gallu mynd i'r afael â hynny rywsut drwy'r Bil tai.

19:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In relation to the first issue, the three-year period has been chosen because it is standard in the public sector. It is standard in terms of the revenue and capital settlements that we get from the UK Government and it is standard in local government, where it has become the norm for a three-year funding period or budget period to be incorporated. Therefore, that is where the three years come from.

O ran y mater cyntaf, mae'r cyfnod o dair blynedd wedi ei ddewis oherwydd ei fod yn safonol yn y sector cyhoeddus. Mae'n safonol o ran y setliadau refeniw a chyfalaf yr ydym yn eu cael gan Lywodraeth y DU ac mae'n safonol mewn llywodraeth leol, lle y mae wedi dod yn norm i gyfnod cyllido neu gyfnod cyllideb tair blynedd i gael ei ymgorffori. Felly, dyna o ble mae'r tair blynedd yn dod.

In terms of the housing Bill, local connections are not something that we have yet considered as part of the Bill, but we will give consideration to that issue. The reason why I specifically mentioned local authorities is because high standards have already been applied to housing associations. Therefore, the intention is to ensure that local authority standards are brought up to the level that already exists within housing associations. In the response to the White Paper, a lot of support was proffered on introducing standards for rent, for service charges and for improving the quality of accommodation within local authority housing. Therefore, it is a question not of forgetting about registered social landlords, but of ensuring that local authorities are at the same level of quality as registered social landlords.

O ran y Bil tai, nid yw cysylltiadau lleol yn rhywbeth yr ydym eto wedi'i ystyried fel rhan o'r Bil, ond byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r mater hwnnw. Y rheswm pam y soniais yn benodol am awdurdodau lleol yw oherwydd bod safonau uchel eisoes wedi eu cymhwyso i gymdeithasau tai. Felly, y bwriad yw sicrhau bod safonau awdurdod lleol yn cael eu codi at y lefel sydd eisoes yn bodoli o fewn cymdeithasau tai. Mewn ymateb i'r Papur Gwyn, cynigiwyd llawer o gefnogaeth ar gyflwyno safonau ar gyfer rhent, ar gyfer taliadau gwasanaeth ac ar gyfer gwella ansawdd y llety mewn tai awdurdodau lleol. Felly, nid yw'n fater o anghofio am landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ond o sicrhau bod awdurdodau lleol ar yr un lefel o ansawdd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

19:41 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister for his statement and for the legislative proposals. I think that the statement is significant, because it shows that, with the powers that were given to us by the people of Wales, we are now fulfilling our promise and we are making a significant difference to the people of Wales. I particularly welcome the domestic abuse and housing Bills.

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad ac am y cynigion deddfwriaethol. Credaf fod y datganiad yn arwyddocaol, oherwydd mae'n dangos, gyda'r pwerau a roddwyd i ni gan bobl Cymru, ein bod bellach yn cyflawni ein haddewid ac yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i bobl Cymru. Croesawaf yn arbennig y Biliau cam-drin domestig a thai.

However, I wanted to ask whether there were any plans for a public health Bill. Earlier this afternoon, Rebecca Evans mentioned Westminster's abandonment of plain packaging for cigarettes and of minimum pricing for alcohol. I wondered whether there was any way that the Assembly could do something to bring in plain packaging for cigarettes, because we all know that trying to stop young people smoking before they start is absolutely crucial, and that is one way of doing that. I also wanted to ask whether he has made any assessment yet about legislating to stop smoking when there are children in cars.

Fodd bynnag, rwy'n awyddus i ofyn a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer Bil iechyd y cyhoedd. Yn gynharach y prynhawn yma, soniodd Rebecca Evans am San Steffan yn cefnu ar becynnau plaen ar gyfer sigaréts ac isafswm prisio ar gyfer alcohol. Roeddwn yn meddwl tybed a oedd unrhyw ffordd y gallai'r Cynulliad wneud rhywbeth i gyflwyno pecynnau plaen ar gyfer sigaréts, oherwydd ein bod i gyd yn gwybod bod ceisio atal pobl ifanc rhag ysmygu cyn iddynt ddechrau yn gwbl hanfodol, a dyna un ffordd o wneud hynny. Rwyf hefyd yn awyddus i ofyn a yw wedi gwneud unrhyw asesiad hyd yma am ddeddfu i atal ysmygu pan fo plant mewn ceir.

19:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

In relation to the public health Bill, I can say to the Member that it is still something that we are considering. It has not made it into this year's legislative programme. She will be aware that a Green Paper was produced, and the consultation exercise was very encouraging. We will aim to use the coming months to develop more detailed proposals for a public health Bill, with a view to looking to introduce it in subsequent years. It certainly has not been forgotten about. With smoking in cars, we continue to monitor the situation. I met with the chief medical officer the week before last to discuss this issue, and I think that it is fair to say that we are still very much of the view that if there is no reduction in smoking in cars with children present, we will seek to legislate; we reserve the right to do so.

O ran y Bil iechyd y cyhoedd, gallaf ddweud wrth yr Aelod ei fod yn dal yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried. Nid yw wedi cyrraedd rhaglen ddeddfwriaethol eleni. Bydd hi'n ymwybodol bod Papur Gwyrdd wedi ei gynhyrchu, ac roedd yr ymarfer ymgynghori yn galonogol iawn. Byddwn yn ceisio defnyddio'r misoedd nesaf i ddatblygu cynigion mwy manwl ar gyfer Bil iechyd cyhoeddus, gyda golwg ar ystyried ei gyflwyno yn y blynyddoedd dilynol. Yn sicr nid yw wedi ei anghofio. O ran ysmygu mewn ceir, rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Cefais gyfarfod â'r prif swyddog meddygol yr wythnos cyn diwethaf i drafod y mater hwn, ac rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud ein bod yn dal i fod o'r farn os nad oes gostyngiad mewn ysmygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol, byddwn yn mynd ati i ddeddfu; rydym yn cadw'r hawl i wneud hynny.

19:43 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I wanted to ask a question with regard to the planning Bill. You said in your statement that you want to deliver a step change in our planning reform agenda, but, earlier today, you said that you do not want to fundamentally reshape it. I come at this from the angle of campaigning hard on opencast mining, and I know that you, your colleague Carl Sargeant and others have already rejected plans to include a buffer zone in the planning Bill. I want to understand why that is, especially given the fact that you have used words like 'positive,' 'smart in application' and 'inclusive in operation' with regard to how the planning Bill will go ahead. How can we be sure that the Government will work to the best of its ability to make sure that areas that are currently suffering from opencast mining are fully involved and included in the planning Bill and can feel ownership over what happens to their communities in the future? Currently, in many areas, they are not.

Roeddwn eisiau gofyn cwestiwn am y Bil cynllunio. Dywedasoch yn eich datganiad eich bod am gyflawni newid sylweddol yn ein hagenda diwygio cynllunio, ond, yn gynharach heddiw, dywedasoch nad ydych eisiau ei hail-lunio'n sylfaenol. Rwy'n dod at hyn o gyfeiriad ymgyrchu'n galed ar gloddio glo brig, a gwn eich bod chi, eich cydweithiwr Carl Sargeant ac eraill eisoes wedi gwrthod cynlluniau i gynnwys parth clustogi yn y Bil cynllunio. Rwyf eisiau deall pam y mae hynny'n bod, yn enwedig o ystyried y ffaith eich bod wedi defnyddio geiriau fel 'cadarnhaol', 'call o ran defnydd' a 'chynhwysol mewn gweithrediad' o ran sut bydd y Bil cynllunio yn mynd yn ei flaen. Sut y gallwn ni fod yn siŵr y bydd y Llywodraeth yn gweithio hyd eithaf ei gallu i sicrhau bod ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn dioddef o gloddio glo brig yn ymwneud yn llawn ac yn cael eu cynnwys yn y Bil cynllunio ac y gallant deimlo perchnogaeth dros yr hyn a fydd yn digwydd i'w cymunedau yn y dyfodol? Ar hyn o bryd, mewn llawer o ardaloedd, nid ydynt yn gallu gwneud hynny.

The other issue that I had was with regard to the future generations Bill and how that links up with the planning Bill, because, when we look at issues like opencast mining, the question always arises as to how this particular form of investment is sustainable. I feel that, by calling it the future generations Bill, it will take away, perhaps, that intensity of discussion for the future. We had a petition this morning at the Petitions Committee meeting about using simple language and people being able to understand what this Assembly does. For me, standing here today, I do not think that the future generations Bill delivers that. However, I will take it in good faith and see that we can discuss this and the detail—as others have said, the devil is in the detail. However, I would not want people to not understand the fact that sustainability, in its core essence, will be watered down in any way.

Roedd y mater arall a oedd gennyf yn ymwneud â Bil cenedlaethau'r dyfodol a sut mae hynny'n cysylltu â'r Bil cynllunio, oherwydd, pan ein bod yn edrych ar faterion fel cloddio glo brig, mae'r cwestiwn bob amser yn codi ynghylch sut mae'r math arbennig hwn o fuddsoddiad yn gynaliadwy. Rwy'n teimlo, trwy ei alw'n Fil cenedlaethau'r dyfodol, y bydd yn colli, efallai, dwysedd y trafod ar gyfer y dyfodol. Cawsom ddeiseb y bore yma yng nghyfarfod y Pwyllgor Deisebau ynghylch defnyddio iaith syml a phobl yn gallu deall beth y mae'r Cynulliad hwn yn ei wneud. I mi, yn sefyll yma heddiw, nid wyf yn credu bod Bil cenedlaethau'r dyfodol yn cyflawni hynny. Fodd bynnag, byddaf yn ei dderbyn yn ddidwyll a gwelaf y gallwn drafod hyn a'r manylion—fel y mae eraill wedi ei ddweud, y diafol yn y manylion. Fodd bynnag, ni fyddwn am i bobl beidio â deall y ffaith y bydd cynaliadwyedd, yn ei hanfod craidd, yn cael ei wanhau mewn unrhyw ffordd.

19:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I can give assurance to the Member that the intention of the name change is not to water down the delivery, but to make it more accessible to the wider public, in terms of what the Bill is meant to do.

Gallaf roi sicrwydd i'r Aelod nad glastwreiddio'r cyflawni yw bwriad y newid enw, ond ei wneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol, o ran yr hyn y mae'r Bil i fod i'w wneud.

She mentioned the issue of the buffer zone, which is something that I introduced, originally, as Minister for the environment. The approach in planning law has always been that planning Bills provide the structure within which decisions are taken. Planning Bills will also give Ministers the power to amend or introduce the use classes Order, the general permitted development Order and the general development procedure Order, but planning policy is always expressed through planning guidance in order for there to be flexibility. The danger is that making planning legislation too prescriptive runs the risk of having to introduce an amending Bill every year in order to change policy, rather than introducing new technical advice notes. You would not have TANs if everything was on the face of the Bill.

Soniodd am fater y parth clustogi, sy'n rhywbeth a gyflwynais i, yn wreiddiol, fel Gweinidog yr amgylchedd. Yr ymagwedd mewn cyfraith cynllunio bob amser oedd bod Biliau cynllunio yn darparu'r strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau. Bydd Biliau cynllunio hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion i ddiwygio neu gyflwyno'r Gorchymyn dosbarthiadau defnydd, y Gorchymyn datblygu cyffredinol a ganiateir a'r Gorchymyn gweithdrefn datblygu cyffredinol, ond mae polisi cynllunio bob amser yn cael ei fynegi drwy ganllawiau cynllunio er mwyn bod hyblygrwydd. Y perygl yw y byddai gwneud deddfwriaeth gynllunio yn rhy ragnodol yn peri risg o orfod cyflwyno Bil diwygio bob blwyddyn er mwyn newid y polisi, yn hytrach na chyflwyno nodiadau cyngor technegol newydd. Ni fyddai gennych TANs pe byddai popeth ar wyneb y Bil.

I am aware of the issues regarding opencast mining and the buffer zone. I have no doubt that, if that were included in a Bill, there would then be calls for buffer zones regarding onshore wind developments. There would be buffer zones regarding developments for energy from waste sites and, soon, we would end up with legislation that covered everything, and we would end up in a situation where there was nothing to be done. I do not think that putting that on the face of the Bill is the right way forward.

Rwy'n ymwybodol o'r materion ynglŷn â chloddio glo brig a'r parth clustogi. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, pe byddai hynny'n cael ei gynnwys mewn Bil, y byddai wedyn alw am barthau clustogi ynghylch datblygiadau gwynt ar y tir. Byddai parthau clustogi o ran datblygiadau ar gyfer ynni o safleoedd gwastraff ac, yn fuan, byddai gennym ddeddfwriaeth a fyddai'n cynnwys popeth, a byddem yn y pen draw mewn sefyllfa lle na ellid gwneud unrhyw beth. Nid wyf yn credu mai rhoi hynny ar wyneb y Bil yw'r ffordd iawn ymlaen.

Protecting the environment is best done through TANs and through the issue of planning guidance, rather than through putting this kind of decree on the face of the Bill. That said, I do think, as we look at the planning Bill or possibly subsequent planning legislation, that we need to ensure that local authorities properly follow the guidance and that they do not think that they can simply take or leave guidance as they see fit. I am aware that that has happened. She and I will both know of one example of where that may have happened in the past. Planning guidance is there to be followed rather than superseded by local authorities, and it is not correct for local authorities to try to issue supplementary planning guidance to try to get around planning guidance that is issued nationally. Therefore, thought will need to be given to how we strengthen planning guidance to ensure that it is properly followed. That point, I think, is well made.

Mae gwarchod yr amgylchedd yn cael ei wneud orau drwy TANs a thrwy'r mater o ganllawiau cynllunio, yn hytrach na thrwy roi'r math hwn o archddyfarniad ar wyneb y Bil. Wedi dweud hynny, rwy'n meddwl, wrth i ni edrych ar y Bil cynllunio neu ddeddfwriaeth gynllunio ddilynol o bosibl, bod angen i ni sicrhau bod awdurdodau lleol yn dilyn y canllawiau yn gywir ac nad ydynt yn credu y gallant yn syml dderbyn neu wrthod canllawiau fel y maent yn dymuno . Rwy'n ymwybodol bod hynny wedi digwydd. Bydd hi a minnau ein dau yn gwybod am un enghraifft o ble y gallai hynny fod wedi digwydd yn y gorffennol. Mae canllawiau cynllunio yno i gael eu dilyn yn hytrach na'u disodli gan awdurdodau lleol, ac nid yw'n iawn i awdurdodau lleol geisio cyhoeddi canllawiau cynllunio atodol i geisio osgoi canllawiau a gyhoeddir yn genedlaethol. Felly, bydd angen rhoi ystyriaeth i sut yr ydym yn cryfhau canllawiau cynllunio er mwyn sicrhau y cânt eu dilyn yn iawn. Mae'r pwynt hwnnw, rwy'n meddwl, yn cael ei wneud yn dda.

19:48

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

## Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013

## Universal Credit (Consequential Provisions) (Childcare, Housing and Transport) (Wales) Regulations 2013

Cynnig NDM5293 Lesley Griffiths

Motion NDM5293 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2013.

Approves that the draft The Universal Credit (Consequential Provisions) (Childcare, Housing and Transport) (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 25 June 2013.

19:48

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The UK Government's Welfare Reform Act 2012 brings about a number of changes, including the introduction of universal credit. Universal credit will replace a number of the current income-based social security benefits for people both in and out of work. The Department for Work and Pensions has started the phased introduction of universal credit. The pathfinder for universal credit, which began on 29 April this year, is scheduled to run until October this year.

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth y DU yn cyflwyno nifer o newidiadau, gan gynnwys cyflwyno credyd cynhwysol. Bydd credyd cynhwysol yn disodli nifer o'r budd-daliadau nawdd cymdeithasol presennol sy'n seiliedig ar incwm i bobl sydd mewn gwaith ac sy'n ddi-waith. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dechrau cyflwyno credyd cynhwysol yn raddol. Bwriedir i'r braenaru ar gyfer credyd cynhwysol, a ddechreuodd ar 29 Ebrill eleni, barhau tan fis Hydref eleni.

On 25 June, we laid before the National Assembly for Wales draft regulations, the Universal Credit (Consequential Provisions) (Childcare, Housing and Transport) (Wales) Regulations 2013. The amendments made by these regulations are technical. They all relate to existing legislation, which includes references to current benefits, such as jobseeker's allowance or working tax credits.

Ar 25 Mehefin, gwnaethom gyflwyno rheoliadau drafft Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol. Maent i gyd yn ymwneud â deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys cyfeiriadau at fudd-daliadau presennol, megis lwfans ceisio gwaith neu gredydau treth gwaith.

The regulations aim to ensure that universal credit is included alongside those benefits that it will eventually replace. This means that we can take into account the circumstances of those in receipt of universal credit who reside in Wales. In the short term, while universal credit is being rolled out at selected locations, the numbers involved will be small. It is, nevertheless, timely to make the amendments now.

Nod y rheoliadau yw sicrhau bod credyd cynhwysol yn cael ei gynnwys ochr yn ochr â'r budd-daliadau hynny y bydd yn cymryd eu lle yn y pen draw. Mae hyn yn golygu y gallwn ystyried amgylchiadau'r bobl hynny sy'n cael credyd cynhwysol sy'n byw yng Nghymru. Yn y tymor byr, tra bod credyd cynhwysol yn cael ei gyflwyno mewn lleoliadau dethol, bydd y niferoedd dan sylw yn fach. Er hynny, mae'n amserol i wneud y diwygiadau nawr.

The amendments to the regulations for the Bus Service Operators Grant (Wales) Regulations 2002 insert reference to universal credit alongside the reference to income support and jobseeker's allowance. The grant helps to offset the cost to bus and community transport operators of the duty that they pay when purchasing fuel. The amendment will not confer a direct benefit on persons who are in receipt of universal credit. The types of benefits that bus passengers receive is one of the considerations in determining whether bus service operators are eligible for the grant. The intention is to add universal credit to this list of eligible benefits.

Mae'r diwygiadau i Reoliadau'r Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002 yn mewnosod cyfeiriad at gredyd cynhwysol ochr yn ochr â'r cyfeiriad at gymhorthdal incwm a lwfans ceisio gwaith. Mae'r grant yn helpu i gyfrannu at gost talu treth wrth brynu tanwydd i weithredwyr bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Ni fydd y diwygiad yn rhoi budd uniongyrchol i bobl sy'n cael credyd cynhwysol. Mae'r mathau o fuddion a gaiff teithwyr bysiau yn un o'r pethau i'w hystyried wrth benderfynu a yw gweithredwyr gwasanaethau bysiau'n gymwys i gael y grant. Y bwriad yw ychwanegu credyd cynhwysol at y rhestr hon o fudd-daliadau cymwys.

In the case of amendments to the housing legislation, these amendments are necessary to add reference to universal credit. This means that universal credit can be taken into account when calculating eligibility for the disabled facilities grant and rent repayment orders, and also in considering whether persons who are subject to immigration control are eligible for housing assistance.

O ran diwygiadau i'r ddeddfwriaeth tai, mae'r gwelliannau hyn yn angenrheidiol er mwyn ychwanegu cyfeiriad at gredyd cynhwysol. Mae hyn yn golygu y gellir ystyried credyd cynhwysol wrth gyfrifo cymhwyster am grant cyfleusterau i bobl anabl a gorchmynion ad-dalu rhent, a hefyd wrth ystyried a yw pobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo'n gymwys i gael cymorth tai.

In the case of childcare legislation, local authorities, in assessing childcare sufficiency, will be required to consider the availability of childcare for which the childcare element of universal credit can be used. This will mirror the current requirements to consider the availability of childcare, for which the childcare element of working tax credit can be used.

O ran deddfwriaeth gofal plant, wrth i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd gofal plant, bydd yn ofynnol iddynt ystyried argaeledd gofal plant y gellir defnyddio elfen gofal plant y credyd cynhwysol ar ei gyfer. Bydd hyn yn adlewyrchu'r gofynion presennol i ystyried argaeledd gofal plant y gellir defnyddio elfen gofal plant y credyd treth gwaith ar ei gyfer.

These regulations are being made under the affirmative procedure, as required by section 43 of the Welfare Reform Act 2012. This debate provides the opportunity for us to consider these changes to primary and secondary legislation for childcare, housing and transport. Our aim is to ensure that appropriate reference is made to universal credit, alongside those benefits that it will eventually replace.

Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol, fel sy'n ofynnol gan adran 43 Deddf Diwygio Lles 2012. Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle inni i ystyried y newidiadau hyn i ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd ym meysydd gofal plant, tai a thrafnidiaeth. Ein nod yw sicrhau y cyfeirir yn briodol at gredyd cynhwysol, ochr yn ochr â'r budd-daliadau hynny y bydd yn cymryd eu lle yn y pen draw.

19:52

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the regulations that have been laid before us. It is important to acknowledge that universal credit will simplify a lot of allowances, and also take 350,000 children and 500,000 working-age adults out of poverty. In terms of the regulations that the Minister has just introduced, the one that seems to be missing—and this may still be subject to talks between the Welsh Government and the UK Government—is how we calculate the entitlement to free school meals. Could the Minister give us any update on what talks are going on over that particular issue, in terms of how we take account of universal credit in future calculations for that? Clearly, a lot of Welsh Government benefits, as well as Welsh Government policies, are predicated on that calculation, and on the entitlement to free school meals, not least, of course, the pupil deprivation grant, which was introduced as a result of the budget deal between the Liberal Democrats and the Welsh Government.

Croesawaf y rheoliadau sydd wedi eu gosod ger ein bron. Mae'n bwysig cydnabod y bydd credyd cynhwysol yn symleiddio llawer o lwfansau, a hefyd yn codi 350,000 o blant a 500,000 o oedolion o oedran gweithio allan o dlodi. O ran y rheoliadau y mae'r Gweinidog newydd eu cyflwyno, yr un y mae'n ymddangos ei fod ar goll—ac efallai fod hyn yn dal i fod yn destun trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU—yw sut yr ydym yn cyfrifo'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. A allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau sy'n digwydd ynglŷn â'r mater penodol hwnnw, o ran sut yr ydym yn ystyried credyd cynhwysol wrth gyfrifo hynny yn y dyfodol? Yn amlwg, mae llawer o fudd-daliadau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â pholisïau Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y cyfrifiad hwnnw, ac ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, yn enwedig, wrth gwrs, y grant amddifadedd disgyblion, a gyflwynwyd o ganlyniad i'r cytundeb cyllideb rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llywodraeth Cymru.

19:53

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Before I close this debate, I would like to thank Peter Black for his contribution today. As I have already said, the UK Welfare Reform Act 2012 brings about one of the greatest changes to welfare benefits in the last 60 years. It is important that departments across the Welsh Government continue to work together to understand the impact and the consequences of these changes for the people of Wales. None of this should be interpreted as saying that the Welsh Government is, in any way, fully behind the changes to welfare benefits, but we are where we are, and we have to take account of the implications.

Cyn imi gau'r ddadl hon, hoffwn ddiolch i Peter Black am ei gyfraniad heddiw. Fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud, mae Deddf Diwygio Lles 2012 y DU yn cyflwyno un o'r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles yn y 60 mlynedd diwethaf. Mae'n bwysig bod adrannau ar draws Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio i ddeall effaith a chanlyniadau'r newidiadau hyn i bobl Cymru. Ni ddylid dehongli dim o hyn fel dweud bod Llywodraeth Cymru, mewn unrhyw ffordd, yn gwbl gefnogol i'r newidiadau i fudd-daliadau lles, ond dyma ble yr ydym, a rhaid inni ystyried y goblygiadau.

In relation to Peter Black's particular points about some of the passported benefits, my officials are still talking with the Department for Work and Pensions, because there are a number of issues where we need to have further clarity. Those discussions will continue for as long as is necessary.

O ran pwyntiau penodol Peter Black am rai o'r budd-daliadau a drosglwyddir, mae fy swyddogion yn dal i siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau, oherwydd mae nifer o faterion lle mae angen inni gael mwy o eglurder. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau cyhyd ag y bo angen.

I am pleased that we have been able to work together across the policy areas of childcare, transport and housing, in taking forward these draft amendments to the regulations. DWP is still not in a position to confirm the timings of its roll-out plans for the universal credit in Wales. Nevertheless, the Welsh Government is continuing to make preparations in readiness for confirmation of those plans, although I can say that it has announced that there will be a hub based in Shotton, but we are still awaiting further details of how that is to be implemented.

Rwyf yn falch ein bod wedi gallu cydweithio ar draws meysydd polisi gofal plant, trafnidiaeth a thai, wrth fwrw ymlaen â'r diwygiadau drafft hyn i'r rheoliadau. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn sefyllfa eto i gadarnhau amseriad eu cynlluniau i gyflwyno'r credyd cynhwysol yng Nghymru. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i baratoi am gadarnhad o'r cynlluniau hynny, er y gallaf ddweud eu bod wedi cyhoeddi y bydd canolfan wedi'i lleoli yn Shotton, ond yr ydym yn dal i aros am fanylion pellach am sut y caiff hynny ei roi ar waith.

However, these draft amendments are one such step in our preparations, and I would urge support for the draft Universal Credit (Consequential Provisions) (Childcare, Housing and Transport) (Wales) Regulations 2013, which are before you today.

Fodd bynnag, mae'r diwygiadau drafft yn un cam o'r fath yn ein paratoadau, a byddwn yn annog cefnogaeth i'r Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 drafft, sydd ger eich bron heddiw.

19:55

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, and the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, ac felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

19:55

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 has been postponed.

Mae Eitem 5 wedi cael ei gohirio.

## Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14

## First Supplementary Budget 2013-14

Cynnig NDM5278 Jane Hutt

Motion NDM5278 Jane Hutt

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 25 Mehefin 2013.

To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the First Supplementary Budget for the financial year 2013-14 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 25 June 2013.

19:55

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The supplementary budget I laid on 25 June aligns the 2013-14 budget structures with the changes to ministerial portfolios and responsibilities that were announced by the First Minister in March. These changes have been made to underline this Welsh Government's focus on delivering our commitments to the people of Wales. Our priority is to remain totally focused on boosting economic growth and creating jobs, improving the delivery of our public services, driving up educational standards and performance in our schools, improving the country's skills base, and tackling poverty in all its forms. In particular, the new communities and tackling poverty portfolio will enable us to renew our efforts to improve the lives of the most vulnerable people in our country, building strong communities and creating the opportunities the people of Wales need to fulfil their potential.

Mae'r gyllideb atodol a bennais ar 25 Mehefin yn alinio strwythurau cyllidebol 2013-14 â'r newidiadau i bortffolios a chyfrifoldebau gweinidogion a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Mawrth. Gwnaethpwyd y newidiadau hyn i danlinellu ffocws y Llywodraeth hon yng Nghymru ar gyflawni ein hymrwymiadau i bobl Cymru. Ein blaenoriaeth yw parhau i ganolbwyntio'n llwyr ar hybu twf economaidd a chreu swyddi, gwella ein dulliau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, gwella safonau a pherfformiad addysgol yn ein hysgolion, gwella sylfaen sgiliau y wlad, a threchu tlodi yn ei holl ffurfiau. Yn benodol, bydd y portffolio cymunedau a threchu tlodi newydd yn ein galluogi i adnewyddu ein hymdrechion i wella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein gwlad, adeiladu cymunedau cryf a chreu'r cyfleoedd sydd eu hangen ar bobl Cymru i gyflawni eu potensial.

While these changes are entirely structural, and have no impact on the total resources allocated overall to Welsh Government departments, as set out in the final budget for 2013-14, and approved by the Assembly in December, they do provide greater transparency on how our budgets are linked to the commitments that we have made in our programme for government.

Er bod y newidiadau hyn yn gwbl strwythurol, ac nad ydynt yn cael dim effaith ar gyfanswm yr adnoddau a ddyrennir yn gyffredinol i adrannau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2013-14, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr, maent yn rhoi mwy o dryloywder o ran sut y mae ein cyllidebau wedi'u cysylltu â'r ymrwymiadau a wnaethom yn ein rhaglen lywodraethu.

In addition to the structural changes, the supplementary budget also reflects major changes that have occurred since the final budget was approved in December, including an additional £76.2 million of capital funding to support our strategic priorities as set out in the Wales infrastructure investment plan. We expect this investment to create and protect around 1,400 jobs, and ensure that every Welsh pound spent on infrastructure is used to boost economic growth.

Yn ogystal â'r newidiadau strwythurol, mae'r gyllideb atodol hefyd yn adlewyrchu newidiadau mawr sydd wedi digwydd ers i'r gyllideb derfynol gael ei chymeradwyo ym mis Rhagfyr, gan gynnwys £76.2 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi ein blaenoriaethau strategol fel y nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Rydym yn disgwyl y buddsoddiad hwn yn creu ac yn diogelu tua 1,400 o swyddi, ac yn sicrhau bod pob un o bunnoedd Cymru sy'n cael ei gwario ar seilwaith yn cael ei defnyddio i hybu twf economaidd.

These additional allocations include a £25 million package of investment in our schools to accelerate further the twenty-first century schools programme, and a £30 million investment package to increase housing supply in 2013-14. Importantly, this includes an additional £20 million through the social housing grant, specifically to target investment in providing one and two-bedroomed housing for individuals and families most affected by the UK Government's bedroom tax. This package reflects our continuing commitment to protecting those key public services our communities rely on the most, while also investing in new infrastructure projects, which are key to boosting the economy and creating and protecting much-needed jobs. These allocations come on top of the £232 million additional capital investment that I announced in the final budget for this year to support jobs and growth, and demonstrates that, once again, this Welsh Government is using all the levers available to stimulate and strengthen the Welsh economy.

Mae'r dyraniadau ychwanegol hyn yn cynnwys pecyn gwerth £25 miliwn o fuddsoddiad yn ein hysgolion i gyflymu ymhellach y rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a phecyn buddsoddi gwerth £30 miliwn i gynyddu'r cyflenwad tai yn 2013-14. Yn bwysig, mae hyn yn cynnwys swm ychwanegol o £20 miliwn drwy'r grant tai cymdeithasol, yn benodol i dargedu buddsoddi i ddarparu tai un a dwy ystafell wely i'r unigolion a'r teuluoedd y mae treth ystafell wely Llywodraeth y DU yn effeithio arnynt fwyaf. Mae'r pecyn hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i warchod y gwasanaethau cyhoeddus allweddol y mae ein cymunedau'n dibynnu arnynt fwyaf, gan fuddsoddi hefyd mewn prosiectau seilwaith newydd, sy'n allweddol i roi hwb i'r economi a chreu a diogelu swyddi y mae mawr eu hangen. Mae'r dyraniadau hyn yn dod ar ben y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £232 miliwn a gyhoeddais yng nghyllideb derfynol eleni i gefnogi swyddi a thwf, ac mae'n dangos, unwaith eto, bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio pob dull sydd ar gael i ysgogi a chryfhau economi Cymru.

Through this supplementary budget, I am also allocating £19 million to provide additional support for council tax, which I announced in the second supplementary budget for 2012-13. This intervention is a key example of our commitment to mitigate the impact of the UK Government's welfare reforms where we can. Other changes include adjustments to our resource and capital baselines as a result of consequentials and transfers received since the final budget of 2013-14, and revised, annually managed expenditure forecasts.

Drwy gyfrwng y gyllideb atodol hon, rwyf hefyd yn dyrannu £19 miliwn i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer y dreth gyngor, a gyhoeddais yn yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2012-13. Mae'r ymyriad hwn yn enghraifft allweddol o'n hymrwymiad i liniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU lle y gallwn. Mae newidiadau eraill yn cynnwys addasiadau i'n llinellau sylfaen adnoddau a chyfalaf o ganlyniad i symiau canlyniadol a throsglwyddiadau a gafwyd ers cyllideb derfynol 2013-14, a rhagolygon gwariant a reolir yn flynyddol, wedi'u diwygio.

An explanatory note providing a detailed description of all the changes, along with a detailed schedule of budget transfers, was published alongside the budget motion. The explanatory note also includes a reconciliation of the indicative allocations for 2013-14 and 2014-15, based on the new budget structures, which I hope will support and facilitate scrutiny of the draft budget for 2014-15.

Cyhoeddwyd nodyn esboniadol yn rhoi disgrifiad manwl o'r holl newidiadau, ynghyd â rhestr fanwl o drosglwyddiadau cyllideb, ochr yn ochr â'r cynnig cyllidebol. Mae'r nodyn esboniadol hefyd yn cysoni'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2013-14 a 2014-15, yn seiliedig ar y strwythurau cyllidebol newydd; rwyf yn gobeithio y bydd y rheini'n cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15.

Finally, I thank the Assembly's Finance Committee for its scrutiny of the supplementary budget and for its report, which was published yesterday. I very much value the Assembly's role in scrutinising budget proposals, and will be responding positively to the recommendations accordingly.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad am graffu ar y gyllideb atodol ac am eu hadroddiad, a gyhoeddwyd ddoe. Rwyf yn bendant yn gwerthfawrogi swyddogaeth y Cynulliad o graffu ar gynigion y gyllideb, a byddaf yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yn unol â hynny.

19:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

19:59 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The committee is grateful to the Minister and her officials for their attempts to ensure that the major shift between portfolios, which resulted from the Cabinet reshuffle, had been presented as transparently as possible. We also note that they are working hard to more closely align the budget with the programme for government, and we look forward to seeing the progress on that in the draft budget this autumn.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i'r Gweinidog a'i swyddogion am eu hymdrechion i sicrhau bod y newid mawr rhwng portffolios, a ddeilliodd o ad-drefnu'r Cabinet, wedi cael ei gyflwyno mor dryloyw ag y bo modd. Rydym hefyd yn nodi eu bod yn gweithio'n galed i alinio'r gyllideb yn agosach â'r rhaglen lywodraethu, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y cynnydd yn hynny o beth yn y gyllideb ddrafft yr hydref hwn.

We make three substantial recommendations in our report, and repeat a fourth from an earlier inquiry. I would like to focus on those areas today.

Rydym yn gwneud tri argymhelliad sylweddol yn ein hadroddiad, ac yn ailadrodd pedwerydd o'r ymchwiliad cynharach. Hoffwn ganolbwyntio ar y meysydd hynny heddiw.

While the purchase of Cardiff Airport was not strictly part of this supplementary budget, the money used to buy it has come out of a pot that the Minister had told us last year that she would be carrying over—£50 million—to support the Wales infrastructure investment plan. But, that money was instead spent on the airport. For the first time, the Welsh Ministers used section 128 of the Government of Wales Act 2006, which gives them certain freedom to meet contingencies.

Er nad oedd prynu Maes Awyr Caerdydd, i fod yn fanwl gywir, yn rhan o'r gyllideb atodol hon, daeth yr arian a ddefnyddiwyd i'w brynu o gronfa y dywedodd y Gweinidog wrthym y llynedd y byddai'n ei dwyn ymlaen—£50 miliwn—i gefnogi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Ond, yn lle hynny, cafodd yr arian hwnnw ei wario ar y maes awyr. Am y tro cyntaf, defnyddiodd Gweinidogion Cymru adran 128 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhoi rhywfaint o ryddid iddynt i dalu am hapddigwyddiadau.

The committee questioned why the section 128 mechanism had been used, rather than the bringing forward of a supplementary budget motion, which would have required a vote in Plenary for approval. The Minister told us that it was not practical due to the timing of the purchase. The committee remains unclear exactly why section 128 was used in preference to an additional supplementary budget. While section 128 requires that a report be laid, there would have been much greater awareness among Members and the Welsh public at large had there been a debate and vote here on a supplementary budget to retrospectively authorise the spending.

Gofynnodd y pwyllgor pam y cafodd mecanwaith adran 128 ei ddefnyddio, yn hytrach na dwyn ymlaen cynnig cyllideb atodol, a fyddai wedi mynnu pleidlais yn y Cyfarfod Llawn i'w cymeradwyo. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd hynny'n ymarferol oherwydd amseriad y pryniant. Nid yw'r pwyllgor yn siŵr o hyd pam yn union y defnyddiwyd adran 128 yn hytrach na chyllideb atodol ychwanegol. Er bod adran 128 yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad yn cael ei gyflwyno, byddai llawer mwy o ymwybyddiaeth wedi bod ymhlith Aelodau a'r cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol petaem wedi cael dadl a phleidlais yma am gyllideb atodol i awdurdodi'r gwariant yn ôl-weithredol.

In our recommendations, we call for more to be done to increase the transparency of any future uses of section 128. These will not happen often, but when they do, we would like to see the Finance Committee notified to ensure that scrutiny can take place.

Yn ein hargymhellion, rydym yn galw am wneud mwy i gynyddu tryloywder unrhyw ddefnydd o adran 128 yn y dyfodol. Ni fydd hyn yn digwydd yn aml, ond pan fydd yn digwydd, hoffem weld y Pwyllgor Cyllid yn cael eu hysbysu i sicrhau y gall craffu ddigwydd.

In our report, we welcome the changes to the housing revenue account subsidy system, which will allow Welsh councils to exit the system altogether. However, we are concerned that finding the money up front to buy out of the scheme might prove challenging for local authorities in the short term, as this will require them to borrow the cost of the buy-out. We recommend that the Welsh Government holds urgent talks with the 11 stock retention local authorities. Those talks need to ensure that the up-front cost of the opt-out can be met without damaging local authorities' ability to meet their obligations to tenants, and without them taking on unmanageable levels of borrowing.

Yn ein hadroddiad, rydym yn croesawu'r newidiadau i system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, a fydd yn caniatáu i gynghorau Cymru adael y system yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai fod yn her i awdurdodau lleol yn y tymor byr i ddod o hyd i'r arian ymlaen llaw i brynu eu ffordd allan o'r cynllun, gan y bydd hyn yn golygu bod rhaid iddynt fenthyca'r gost dan sylw. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau brys gyda'r 11 awdurdodau lleol sy'n cadw stoc. Mae angen i'r trafodaethau hynny sicrhau y gall awdurdodau lleol dalu'r gost gychwynnol am gael eu heithrio heb niweidio eu gallu i gyflawni eu rhwymedigaethau i denantiaid, a heb iddynt fenthyca symiau na allant eu rheoli.

In recent budgets, the Welsh Government has seen a marked increase in the amount of capital funding that is earmarked for financial transactions. This money comes with significant strings attached and can only be used for loans and equity, and a proportion of the funding will have to be repaid to the Exchequer. We are concerned that significant chunks of money coming to Wales are subject to such tight restrictions, and by the absence of hard and fast rules and timings for repayments. There is a sense that the Treasury is making this up as it goes along.

Mewn cyllidebau diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn swm y cyllid cyfalaf a gaiff ei glustnodi ar gyfer trafodion ariannol. Mae llawer o amodau ynghlwm wrth yr arian hwn a dim ond ar gyfer benthyciadau ac ecwiti y gellir ei ddefnyddio, a bydd rhaid ad-dalu cyfran o'r arian i'r Trysorlys. Rydym yn pryderu bod symiau sylweddol o'r arian sy'n dod i Gymru'n amodol ar gyfyngiadau tynn fel hyn, ac yn pryderu nad oes rheolau ac amseroedd pendant ar gyfer ad-daliadau. Ceir ymdeimlad bod y Trysorlys yn newid eu rheolau'n gyson.

However, in our questioning it became clear that the Welsh Government's plans to use this allocation are not fully formed either. The Minister indicated that housing would feature strongly, yet, with repayment required on such a short time frame, we were concerned that housing investments might not yield returns within the repayment deadline.

Fodd bynnag, yn ystod ein cwestiynau daeth yn amlwg nad oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau terfynol ar gyfer defnyddio'r dyraniad hwn ychwaith. Dywedodd y Gweinidog y byddai tai yn amlwg iawn, ac eto, gan fod angen ad-daliad mewn cyfnod mor fyr, roeddem yn pryderu efallai na fyddai buddsoddiadau mewn tai'n rhoi enillion cyn y terfyn amser ad-dalu.

The Welsh Government needs to give urgent thought to how it best uses this money to ensure the greatest impact on the Welsh economy. We also support the Welsh Government in its negotiations with the Treasury to ensure that any restrictions on future capital allocations are minimised, and that clear deadlines are attached to any allocations that require repayment.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ar frys beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwn i sicrhau'r effaith fwyaf ar economi Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn eu trafodaethau gyda'r Trysorlys i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau ar ddyraniadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu lleihau, a bod terfynau amser clir ynghlwm wrth unrhyw ddyraniadau y mae angen eu had-dalu.

The invest-to-save fund and Natural Resources Wales also exercised our minds during this scrutiny. This is my final point. In our report on the invest-to-save fund, we recommended that the Welsh Government scheme should only be used to make real savings. It is not a pot to dip into to fund programmes such as the Natural Resources Wales merger. In its response, the Welsh Government accepted this recommendation, yet, in the supplementary budget there are two further transfers under invest-to-save to Natural Resources Wales: £3.75 million to support the reconfiguration of the workforce, which is staff severances, and £0.5 million to support the integration of the systems and to support transitional costs.

Gwnaethom hefyd feddwl am y gronfa buddsoddi i arbed a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y gwaith craffu hwn. Hwn yw fy mhwynt olaf. Yn ein hadroddiad am y gronfa buddsoddi i arbed, roeddem yn argymell mai dim ond i wneud arbedion go iawn y dylid defnyddio cynllun Llywodraeth Cymru. Nid yw'n bot i ddipio i mewn iddo i ariannu rhaglenni megis uno Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn eu hymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ac eto, yn y gyllideb atodol mae dau drosglwyddiad pellach o dan fuddsoddi i arbed i Cyfoeth Naturiol Cymru: £3.75 miliwn i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu'r gweithlu, sef diswyddo staff, a £0.5 miliwn i integreiddio'r systemau a thalu costau trosiannol.

The Finance Committee believes that the invest-to-save scheme is an example to other Governments around the UK and beyond. However, we are disappointed to see that it appears to be being used as a ready cash fund to meet costs associated with the Natural Resources Wales merger. While these payments may generate savings in the long term, we do not believe that they are within the spirit of the scheme. Invest-to-save funding should only be used where there is robust evidence of savings resulting from the investment; not where there is a need for extra funding that will probably result in savings over time.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn credu bod y cynllun buddsoddi i arbed yn enghraifft i Lywodraethau eraill ledled y DU a thu hwnt. Fodd bynnag, rydym yn siomedig i weld ei bod yn ymddangos ei bod yn cael ei ddefnyddio fel cronfa arian parod i dalu costau sy'n gysylltiedig ag uno Cyfoeth Naturiol Cymru. Er y gall y taliadau hyn arwain at arbedion yn y tymor hir, nid ydym yn credu eu bod o fewn ysbryd y cynllun. Ni ddylid defnyddio cyllid buddsoddi i arbed oni bai bod tystiolaeth gadarn o arbedion sy'n deillio o'r buddsoddiad; nid yw'n ddigon i'r cyllid ychwanegol fod yn debygol o arwain at arbedion dros gyfnod o amser.

These are the issues, Deputy Presiding Officer, that the Finance Committee specifically wanted to draw attention to during this supplementary budget.

Dyma'r materion, Ddirprwy Lywydd, yr oedd y Pwyllgor Cyllid yn awyddus yn benodol i dynnu sylw atynt yn ystod y gyllideb atodol hon.

20:05 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to be able to respond to this evening's debate on behalf of the Welsh Conservatives. I accept that the main aim of this supplementary budget is to change budget structures and bring them in line with ministerial responsibilities following the First Minister's Cabinet reshuffle earlier this year. That said, there are still a number of important issues that this supplementary budget has highlighted in relation to the Welsh Government's financial management. Given the tight financial circumstances we still find ourselves in, it is absolutely essential that the Welsh Government is sensible in how it spends public money and the way it prioritises its finances.

Rwyf yn falch o allu ymateb i'r ddadl heno ar ran Ceidwadwyr Cymru. Rwyf yn derbyn mai prif nod y gyllideb atodol hon yw newid strwythurau cyllidebol fel eu bod yn cyd-fynd â chyfrifoldebau gweinidogion yn dilyn ad-drefnu Cabinet y Prif Weinidog yn gynharach eleni. Wedi dweud hynny, mae'r gyllideb atodol wedi tynnu sylw at nifer o faterion pwysig ynglŷn â rheolaeth ariannol Llywodraeth Cymru. Ac ystyried yr amgylchiadau ariannol tynn yr ydym yn dal i'w hwynebu, mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n gwario arian cyhoeddus ac yn blaenoriaethu eu cyllid mewn ffordd synhwyrol.

I note that, in this supplementary budget, the Welsh Government will spend an extra £155.5 million on capital expenditure and the Finance Committee's recommendation that the Welsh Government needs to give urgent thought as to how it can best use this money to ensure the greatest impact on the Welsh economy is absolutely right. The economy must be one of the Government's key priorities. It is also crucial that the Welsh Government demonstrates its effectiveness in managing its finances, ensuring that its budgets are affordable and that it is delivering value for money for the taxpayer.

Nodaf, yn y gyllideb atodol hon, y bydd Llywodraeth Cymru'n gwario £155.5 miliwn ychwanegol ar wariant cyfalaf ac mae argymhelliad y Pwyllgor Cyllid bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried ar frys beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwn i sicrhau'r effaith fwyaf ar economi Cymru yn hollol deilwng. Rhaid i'r economi fod yn un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth. Mae'n hanfodol hefyd bod Llywodraeth Cymru'n dangos eu heffeithiolrwydd o ran rheoli eu cyllid, gan sicrhau bod eu cyllidebau'n fforddiadwy a'u bod yn rhoi gwerth am arian i drethdalwyr.

That leads me to the issue of the purchase of Cardiff Airport. Quite simply, this supplementary budget explains that the Welsh Government has purchased the shareholding of Cardiff Airport at £51.8 million, which utilised the remaining £50 million capital reserves for 2012-13. As the Chair of the Finance Committee said, this purchase was taken through the section 128 mechanism of the Government of Wales Act 2006. However, it was only in February that the Minister stated her intention to carry forward the £50 million remaining capital reserve into 2013-14 to be used in support of the Wales infrastructure investment plan. While I am pleased that she has confirmed in evidence to the Finance Committee that the purchase of the airport will not have an impact on other infrastructure projects, surely the Minister must accept that the way in which the Government has purchased the airport has denied a full and properly scrutinised debate on the floor of this Assembly Chamber.

Mae hynny'n fy arwain at bryniant Maes Awyr Caerdydd. Yn syml, mae'r gyllideb atodol hon yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi prynu cyfranddaliad Maes Awyr Caerdydd am £51.8 miliwn, gan ddefnyddio gweddill y £50 miliwn o gronfeydd cyfalaf ar gyfer 2012-13. Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, gwnaethpwyd y pryniant hwn drwy fecanwaith adran 128 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, dim ond ym mis Chwefror y dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu dwyn ymlaen gweddill y £50 miliwn yn y gronfa gyfalaf wrth gefn i 2013-14 i'w ddefnyddio i gefnogi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Er fy mod yn falch ei bod wedi cadarnhau mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid na fydd pryniant y maes awyr yn effeithio ar brosiectau seilwaith arall, nid oes dwywaith bod rhaid i'r Gweinidog dderbyn bod y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi prynu'r maes awyr wedi ein hatal rhag cael dadl lawn, a chraffu arni'n briodol, ar lawr y Siambr hon yn y Cynulliad.

During her scrutiny session with the Finance Committee, the Minister said:

Yn ystod ei sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd y Gweinidog:

'An agile and, I would say, confident Government should be in that position to make such decisions.'

'Dylai fod Llywodraeth ystwyth, a Llywodraeth hyderus, byddwn yn dweud, mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau o'r fath.'

Clearly, the Government was not that confident or it would have brought this information to the Assembly Chamber for a transparent and open debate in order to be fully scrutinised by democratically-elected representatives on behalf of the people of Wales. I therefore fully endorse the Finance Committee's recommendation that more needs to be done to increase transparency when section 128 is used and that any future uses should be reported directly to the Finance Committee, with an expectation that the committee will retrospectively scrutinise both the how and why of its use. Incidentally, the Minister has confirmed that this section 128 mechanism has not been used before, and yet the purchase of an airport now qualifies as the appropriate type of crisis to use this particular mechanism. I believe that, at the very least, the Government must accept that, certainly on this occasion, its financial management is seriously in question, and that it raises serious questions around transparency and democratic accountability.

Yn amlwg, nid oedd y Llywodraeth mor hyderus â hynny, neu byddai wedi dod â'r wybodaeth hon i Siambr y Cynulliad am ddadl dryloyw ac agored er mwyn i gynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd ar ran pobl Cymru gael craffu'n llawn arnynt. Felly, cymeradwyaf yn llawn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid bod angen gwneud mwy i gynyddu tryloywder wrth ddefnyddio adran 128 ac y dylid adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cyllid am ei defnyddio yn y dyfodol, gyda disgwyliad y bydd y pwyllgor yn craffu'n ôl-weithredol ar sut a pham y cafodd ei defnyddio. Gyda llaw, mae'r Gweinidog wedi cadarnhau nad oedd mecanwaith adran 128 wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen, ac eto mae prynu maes awyr bellach yn gymwys fel math priodol o argyfwng i ddefnyddio'r mecanwaith dan sylw. Rwyf yn credu, o leiaf, fod rhaid i'r Llywodraeth dderbyn, yn sicr ar yr achlysur hwn, bod cwestiynau difrifol am eu dulliau rheoli ariannol, a bod hyn yn codi cwestiynau difrifol am dryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

I refer to allocations also made in the supplementary budget to Natural Resources Wales and the use of the invest-to-save fund to support the Natural Resources Wales merger. The Welsh Government's first priority when dealing with Welsh taxpayers' money is to ensure value for money. As the Chair of the Finance Committee said earlier, the Finance Committee's report on invest-to-save raised a concern over the allocation of funding to Natural Resources Wales from this particular fund. However, in spite of this, the supplementary budget before us makes two further allocations to this body. As I understand it, the Government is spending £3.8 million through the invest-to-save fund to generate a saving of only £4 million. This is something that the Minister has already confirmed and I question whether that is an appropriate use of the fund. Clearly, this money is being used to fund workforce reorganisation and severances following the merger of the three organisations. I fail to see how this sits within the ethos of the invest-to-save fund in terms of generating savings through improvements. I therefore echo the Finance Committee's disappointment to see that it appears to be being used as a ready cash fund to meet costs associated with the Natural Resources Wales merger.

Cyfeiriaf at ddyraniadau a wnaethpwyd hefyd yn y gyllideb atodol i Gyfoeth Naturiol Cymru ac at ddefnyddio'r gronfa buddsoddi i arbed i helpu i uno Cyfoeth Naturiol Cymru. Blaenoriaeth gyntaf Llywodraeth Cymru wrth ymdrin ag arian trethdalwyr Cymru yw sicrhau gwerth am arian. Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gynharach, roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar fuddsoddi i arbed yn mynegi pryder ynglŷn â'r dyraniad cyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru o'r gronfa benodol hon. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r gyllideb atodol ger ein bron yn gwneud dau ddyraniad pellach i'r corff hwn. Rwyf ar ddeall bod y Llywodraeth yn gwario £3.8 miliwn drwy'r gronfa buddsoddi i arbed i gynhyrchu arbediad o ddim ond £4 miliwn. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog eisoes wedi'i gadarnhau ac rwyf yn amau a yw hynny'n ffordd briodol o ddefnyddio'r gronfa. Yn amlwg, mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu am ad-drefnu gweithluoedd a diswyddiadau ar ôl i'r tri sefydliad uno. Ni allaf weld sut y mae hyn yn rhan o ethos y gronfa buddsoddi i arbed o ran creu arbedion drwy welliannau. Felly, ategaf siom y Pwyllgor Cyllid i weld ei bod yn ymddangos ei bod yn cael ei defnyddio fel cronfa arian parod i dalu costau sy'n gysylltiedig ag uno Cyfoeth Naturiol Cymru.

In closing, therefore, given the continued concerns over a number of portfolio areas and given the lack of transparency and openness over the purchase of Cardiff Airport and the confusion over the proper use of the invest-to-save fund, we on this side of the Chamber will be abstaining on this motion this evening.

Wrth gloi, felly, ac ystyried y pryderon parhaus mewn nifer o feysydd portffolio ynghyd â'r diffyg tryloywder a didwylledd dros brynu Maes Awyr Caerdydd a'r dryswch ynghylch defnyddio'r gronfa buddsoddi i arbed yn briodol, byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn ymatal ar y cynnig hwn heno.

20:10 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First, you will not be surprised to know that I support the supplementary budget. However, I would like to raise three points on the budget: the use of invest-to-save, capital and the airport. First, with regard to the airport, Paul Davies is right to say that it was £51.8 million. Of that, £50 million was capital from the reserves from 2013-13 and section 128 was used. I would say that that was absolutely the right thing to do. The airport should never have been taken out of the control of the three Glamorgan county councils. The sale was forced by John Redwood because the airport was too commercially successful. It was doing too well. The public sector was running something exceptionally well, and therefore it had to come out of public sector control.

Yn gyntaf, ni fydd yn eich synnu i gael gwybod fy mod yn cefnogi'r gyllideb atodol. Fodd bynnag, hoffwn godi tri phwynt am y gyllideb: defnyddio buddsoddi i arbed, cyfalaf a'r maes awyr. Yn gyntaf, o ran y maes awyr, mae Paul Davies yn gywir i ddweud ei fod yn £51.8 miliwn. O'r swm hwnnw, roedd £50 miliwn yn gyfalaf o gronfeydd wrth gefn 2013-13 a defnyddiwyd adran 128. Byddwn yn dweud ei bod yn bendant mai dyna oedd y peth cywir i'w wneud. Ni ddylai'r maes awyr erioed fod wedi'i gymryd allan o reolaeth tri chyngor sir Morgannwg. Cafodd y gwerthiant ei orfodi gan John Redwood oherwydd bod y maes awyr yn rhy fasnachol lwyddiannus. Roedd yn gwneud yn rhy dda. Roedd y sector cyhoeddus yn cynnal rhywbeth yn arbennig o dda, felly roedd rhaid i'r sector cyhoeddus ildio ei reolaeth.

I am pleased that it is back in public ownership. It gives Wales the chance to develop a successful international airport. What was the other option? To leave it to continue in a spiral of decline until it became little more than an airport for light aircraft and hobbyists, leaving Wales as a country without an international airport. Does anybody seriously want to see that happening to Wales? [Interruption.] I dare say that Bristol does want to see it happening to Wales. Thank you, Simon Thomas. However, does anybody in Wales want that to happen to Wales?

Rwyf yn falch ei fod yn eiddo cyhoeddus unwaith eto. Mae'n rhoi cyfle i Gymru i ddatblygu maes awyr rhyngwladol llwyddiannus. Beth oedd y dewis arall? Gadael iddo barhau mewn cylch o ddirywiad nes na fyddai'n llawer mwy na maes awyr ar gyfer awyrennau ysgafn a selogion, gan adael Cymru'n wlad heb faes awyr rhyngwladol. A oes unrhyw un o ddifrif am weld hynny'n digwydd i Gymru? [Torri ar draws.] Mae'n siŵr gennyf y byddai Bryste am weld hynny'n digwydd i Gymru. Diolch, Simon Thomas. Fodd bynnag, a fyddai unrhyw un yng Nghymru am i hynny ddigwydd i Gymru?

I will quote from the Finance Committee's report, which states that:

Dyfynnaf o adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sy'n datgan:

'The best invest-to-save projects we looked at showed a clear link between the investment made and savings generated.'

'Roedd y prosiectau buddsoddi i arbed gorau a welsom yn dangos cyswllt clir rhwng y buddsoddiad a wneir a'r arbedion a gynhyrchir.'

We talked about invest-to-save recently in the Chamber, and some of the projects were very good, such as that at the National Botanic Garden of Wales, where a photovoltaic cylinder was used on the roof in order to generate heat, or that of Bridgend County Borough Council, which rationalised the estate. These are simple and easy to understand.

Buom yn siarad am fuddsoddi i arbed yn ddiweddar yn y Siambr, ac roedd rhai o'r prosiectau'n dda iawn, megis prosiect Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, a oedd yn defnyddio silindr ffotofoltäig ar y to i gynhyrchu gwres, neu brosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i resymoli'r ystâd. Mae'r rhain yn syml ac yn hawdd eu deall.

I know that it is important to find additional funding for Natural Resources Wales. I am not convinced, like the previous two speakers, that it was an invest-to-save project. It is almost as if that was a pot of money that was available and therefore the money was taken out of it. We recommend that invest-to-save funds should be used only where there is robust evidence that savings will result from the investment, not when there is a need for extra funding, which will probably result in savings over time, if we are lucky.

Rwyf yn gwybod ei bod yn bwysig dod o hyd i gyllid ychwanegol i Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid wyf wedi fy argyhoeddi, fel y ddau siaradwr blaenorol, ei fod yn brosiect buddsoddi i arbed. Mae bron fel pe bai hwnnw'n bot o arian a oedd ar gael ac felly bod yr arian wedi cael ei gymryd ohono. Rydym yn argymell na ddylid defnyddio arian buddsoddi i arbed oni bai y ceir tystiolaeth gadarn y bydd arbedion yn deillio o'r buddsoddiad. Ni ddylid ei defnyddio pan fo angen arian ychwanegol, a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at arbedion dros gyfnod o amser, os ydym yn lwcus.

Some £3.75 million was used to support the reconfiguration of the workforce—or staff severance, as we used to call it—in Natural Resources Wales, following the merger of the environment organisations, and £0.5 million to support the integration of systems and getting the IT stuff to work and to support transitional costs for Natural Resources Wales. Over £4 million in savings would be necessary just to pay this back. Perhaps this is an example of some of the unforeseen costs that come with mergers. I urge the Government and others to consider this when considering future mergers. You put it together and you see all of these lovely savings from getting rid of chief executives here and senior officers there, but when you start to think about the severance pay and the costs of linking the IT systems, perhaps that is something that needs to be given full consideration before people move into full-blooded mergers.

Defnyddiwyd tua £3.75 miliwn i gefnogi ad-drefnu'r gweithlu—neu ddiswyddo staff, fel yr oeddem yn arfer ei alw—yn Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi i'r cyrff amgylcheddol uno, a £0.5 miliwn i gefnogi integreiddiad systemau a sicrhau bod yr offer TG yn gweithio ac i dalu costau trosiannol Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai angen dros £4 miliwn o arbedion i ad-dalu hyn yn unig. Efallai fod hyn yn enghraifft o rai o'r costau annisgwyl a ddaw wrth uno. Rwyf yn annog y Llywodraeth ac eraill i ystyried hyn wrth ystyried uniadau yn y dyfodol. Rydych yn rhoi pethau at ei gilydd ac yn gweld yr holl arbedion hyfryd hyn o gael gwared ar brif weithredwyr fan hyn ac uwch swyddogion fan draw, ond ddechreuwch feddwl am y tâl diswyddo a chostau cysylltu systemau TG, efallai fod angen ystyried hynny'n llawn cyn i bobl fwrw ymlaen ag uniadau llawn.

Finally, on capital, the Finance Committee has made a number of recommendations. It has called on the Government to give urgent thought to how it can best use its money to ensure the greatest impact on the Welsh economy. I pay credit to Leighton Andrews and the work that he did in education, where he set up, for the first time in Wales, a programme of building schools. I remember, when I was on West Glamorgan County Council, we used to say that our expectation for our primary schools was that they would last as long as medieval castles, because we had a replacement once every 600 years or so. We have seen, now, a programme coming forward—a Government programme that I am sure his successor, Huw Lewis, will carry on—of building and replacing schools for the benefit of our children. That is a tremendous use of capital.

Yn olaf, o ran cyfalaf, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gwneud nifer o argymhellion. Maent wedi galw ar y Llywodraeth i ystyried ar frys beth fyddai'r ffordd orau o ddefnyddio eu harian i sicrhau'r effaith fwyaf ar economi Cymru. Rhoddaf glod i Leighton Andrews a'r gwaith a wnaeth ym myd addysg, lle sefydlodd, am y tro cyntaf yng Nghymru, raglen o adeiladu ysgolion. Rwyf yn cofio, pan oeddwn yn aelod o Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg, ein bod yn arfer dweud mai ein disgwyliadau ar gyfer ein hysgolion cynradd oedd y byddent yn para cyhyd â chestyll canoloesol, oherwydd ein bod yn cael un newydd unwaith bob tua 600 mlynedd. Rydym wedi gweld, nawr, rhaglen yn dod i'r amlwg—rhaglen gan y Llywodraeth yr wyf yn siŵr y bydd ei olynydd, Huw Lewis, yn parhau â hi—i adeiladu a disodli ysgolion er lles ein plant. Mae hynny'n ffordd wych o ddefnyddio cyfalaf.

20:14

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not decrying what you are saying about the former Minister for education; I am sure that he did preside over the building of a few schools, but I am sure that previous Ministers built schools as well, and I am sure that it did not just suddenly start under the last 10 years of Labour running things here.

Nid wyf yn bychanu'r hyn yr ydych yn ei ddweud am y cyn Weinidog addysg; rwyf yn siŵr ei fod wedi llywyddu'r gwaith o adeiladu rhai ysgolion, ond rwyf yn siŵr bod Gweinidogion blaenorol wedi adeiladu ysgolion hefyd, ac rwyf yn siŵr nad yw hynny'n rhywbeth a ddechreuodd yn sydyn yn y 10 mlynedd diwethaf o'r blaid Lafur yn cynnal pethau yma.

20:14

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Actually, it did. There was a gap—[Interruption.]

A dweud y gwir, ydy. Roedd bwlch—[Torri ar draws.]

20:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. I do not know whether it because everyone is getting tired and they are losing their concentration levels, but Members are asking questions and then not listening to the answers. What is the point of that? We will listen to Mike Hedges.

Trefn, trefn. Nid wyf yn gwybod a yw pawb yn blino ac yn colli eu gallu i ganolbwyntio, ond mae Aelodau yn gofyn cwestiynau ac nid ydynt yn gwrando ar yr atebion. Beth yw diben hynny? Gwnawn wrando ar Mike Hedges.

20:14 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There was a long period of time, in the 1980s and 1990s, when very few primary schools were built anywhere in Wales. I can talk only about West Glamorgan, but, if it had not been for fires, we would not have had any schools built at all. [Laughter.] I will just finish off by saying that further investment in housing has again been a good use of Government money. I think that the Welsh Government is doing a tremendous job with limited resources, and it would help if those who are critical would speak to their masters and ask for more money for us.

Cafwyd cyfnod hir o amser, yn yr 1980au a'r 1990au, pan nad adeiladwyd prin ddim ysgolion cynradd yn unman yng Nghymru. Dim ond am Orllewin Morgannwg y gallaf fi siarad, ond, pe na baem wedi cael tanau, ni fyddai dim ysgolion wedi cael eu hadeiladu i ni o gwbl. [Chwerthin.] Rwyf am orffen drwy ddweud bod buddsoddiad pellach mewn tai unwaith eto wedi bod yn ffordd dda o ddefnyddio arian y Llywodraeth. Rwyf yn meddwl bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith aruthrol gydag adnoddau cyfyngedig, a byddai o gymorth pe bai'r rhai sy'n feirniadol yn siarad â'u meistri ac yn gofyn am fwy o arian inni.

20:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, there is cross-party agreement on the use of invest-to-save in terms of Natural Resources Wales. The point was well made in the Finance Committee's report, that, if we are to use invest-to-save funding, it has to be a genuine investment to save, and I think that it may have been more appropriate to use reserves for that merger, because that would have been more in keeping with the good use of that money.

Yn amlwg, mae cytundeb trawsbleidiol ar ddefnyddio buddsoddi i arbed o ran Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaethpwyd y pwynt yn dda yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sef, os ydym am ddefnyddio arian buddsoddi i arbed, mae'n rhaid iddo fod yn fuddsoddiad gwirioneddol i arbed, ac rwyf yn meddwl y gallai fod wedi bod yn fwy priodol defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer yr uniad hwnnw, oherwydd byddai hynny wedi bod yn fwy cydnaws â bwriad yr arian hwnnw.

Mike Hedges makes a valid point about the school building programme, although I do remember a previous Minister for education setting a specific target by which all schools were to be fit for purpose. It was a target that I think was spectacularly missed—I am trying to remember the date; it might have been 2009, or even 2008. However, the fact that we now have a school building programme that is benefiting the area in which I live is very much appreciated, and I am certainly pleased that it is in place. Obviously, anything that I can do to help to put more money into the programme I would seek to do, even from this position here.

Mae Mike Hedges yn gwneud pwynt dilys am y rhaglen adeiladu ysgolion, er fy mod yn cofio Gweinidog addysg blaenorol yn gosod targed penodol y erbyn pryd y dylai fod pob ysgol yn addas at ei diben. Credaf i'r targed hwnnw gael ei fethu'n llwyr—rwyf yn ceisio cofio'r dyddiad; efallai mai 2009 ydoedd, neu 2008 hyd yn oed. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod gennym bellach raglen adeiladu ysgolion sydd o fudd i'r ardal lle'r wyf yn byw yn rhywbeth i'w werthfawrogi'n fawr, ac rwyf yn sicr yn falch ei bod ar waith. Yn amlwg, byddaf yn ceisio gwneud unrhyw beth y gallaf i helpu i roi mwy o arian yn y rhaglen, hyd yn oed o'r safle hwn yma.

The airport is an issue that has exercised some people. The position of the Welsh Liberal Democrats has always been that, if you are going to buy the airport, we would like to see a business case for doing so. The concern that I had was that, apart from the use of the section 128 mechanism to buy the airport, when that process went through, the business case was not apparent or transparent to us all, and that undermined the way in which we could scrutinise that purchase. Nevertheless, Mike Hedges's welcoming of it being taken back into public ownership may be a bit premature, given that the First Minister has already said that he wants private capital to invest in the airport. I suspect that this is not going to be just a public sector airport, but something a bit more sophisticated in the future, because it will see private capital invested in it, and the investors will want a return on that capital.

Mae'r maes awyr yn fater sydd wedi trethu meddyliau rhai pobl. Nid yw safbwynt Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi newid: os ydych yn mynd i brynu'r maes awyr, hoffem weld achos busnes dros wneud hynny. Fy mhryder oedd, ar wahân i ddefnyddio mecanwaith adran 128 i brynu'r maes awyr, pan aeth y broses honno rhagddi, nad oedd yr achos busnes yn amlwg neu'n dryloyw i bawb ohonom, ac roedd hynny'n tanseilio'r ffordd y gallem graffu ar y pryniant hwnnw. Serch hynny, gallai fod ychydig yn gynnar i Mike Hedges groesawu'r ffaith ei fod yn ôl dan berchnogaeth gyhoeddus, ac ystyried bod y Prif Weinidog eisoes wedi dweud yr hoffai fuddsoddi cyfalaf preifat yn y maes awyr. Rwyf yn amau nad dim ond maes awyr sector cyhoeddus fydd hwn yn y dyfodol, ond rhywbeth ychydig yn fwy soffistigedig, gan y caiff cyfalaf preifat ei fuddsoddi ynddo, a bydd ar y buddsoddwyr eisiau elw ar y cyfalaf hwnnw.

There are a couple of issues that I wanted to raise in relation to the supplementary budget. In particular, we support the £10 million allocation for the health technology fund, which was an idea first put forward by the Welsh Liberal Democrats. It offers a huge investment potential for buying the latest cutting-edge treatment, but we are disappointed that the money is capital funding only, and that it is limited to supporting equipment or, potentially, IT with a technology benefit to patients judged against current practice. Funding this from capital resources leaves medicines outside the remit; we would like to see the health technology fund extended to include new medicines. From 2011 to 2015, it is estimated that Wales will gain savings of around £186 million from the loss of exclusivity of branded medicines. We need to invest some of these savings back into revenue funding to extend the health technology fund to cover new medicines, so that more patients in Wales can benefit from the most innovative treatment available. Clearly, we look to the Minister for health to develop this fund along those lines in future years, if he is so minded.

Roeddwn am godi cwpl o faterion ynglŷn â'r gyllideb atodol. Yn benodol, rydym yn cefnogi'r dyraniad £10 miliwn i'r gronfa technoleg iechyd, syniad a gyflwynwyd gyntaf gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'n cynnig potensial enfawr am fuddsoddiad i brynu'r driniaeth arloesol ddiweddaraf, ond rydym yn siomedig mai cyllid cyfalaf yn unig yw'r arian, a'i fod wedi'i gyfyngu i gefnogi offer neu, o bosibl, TG gyda budd technolegol i gleifion wedi'i farnu yn erbyn arferion presennol. Mae ariannu hyn o'r adnoddau cyfalaf yn golygu bod meddyginiaethau y tu allan i'r cylch gwaith; hoffem weld ymestyn y gronfa technoleg iechyd i gynnwys meddyginiaethau newydd. O 2011i 2015, amcangyfrifir y bydd Cymru'n arbed tua £186 miliwn o golli detholusrwydd meddyginiaethau brand. Mae angen inni fuddsoddi rhywfaint o'r arbedion hyn yn ôl i gyllid refeniw i ymestyn y gronfa technoleg iechyd i gynnwys meddyginiaethau newydd, fel y gall mwy o gleifion yng Nghymru elwa ar y driniaeth fwyaf arloesol sydd ar gael. Yn amlwg, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog iechyd yn datblygu'r gronfa hon ar y trywydd hwnnw yn y dyfodol, os yw'n credu y dylid gwneud hynny.

The £10 million for flooding in north Wales is welcome, following the devastation in Denbighshire last year. However, with flooding causing increasing suffering for many communities across Wales, we need to ensure that this £10 million a year is used effectively. We can transpose the lessons and techniques learned to other parts of Wales.

Mae'r £10 miliwn ar gyfer llifogydd yn y gogledd i'w groesawu, yn dilyn y dinistr yn sir Ddinbych y llynedd. Fodd bynnag, wrth i lifogydd achosi mwy o ddioddefaint i lawer o gymunedau ledled Cymru, mae angen inni sicrhau bod y £10 miliwn y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rydym yn gallu trawsleoli'r gwersi a'r technegau a ddysgir i rannau eraill o Gymru.

We are also pleased to see the additional £10 million for the pilot Houses into Homes initiative. The initial £5 million allocated for the scheme was doubled, thanks to the budget deal between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government, and it is good to see continued investment in this scheme. However, could the Minister update us on how much funding has been drawn down to date by each local authority, and how many empty homes have been converted back into use? In February, we led a debate calling for a cohesive empty homes strategy, to include a full-time equivalent empty homes officer in each local authority, simplifying the legislation and procedures surrounding empty dwelling management orders and compulsory purchase orders, and looking at an incentive scheme for local councils for every long-term private sector home brought back into use, among other things. Could the Minister tell us what progress is being made on that? Maybe the Minister for housing could do that at some future date. I think we need a progress update on that particular strategy, and how we are dealing with that issue.

Rydym hefyd yn falch o weld y £10 miliwn ychwanegol i'r fenter beilot Troi Tai'n Gartrefi. Mae'r £5 miliwn cychwynnol a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun wedi cael ei ddyblu, diolch i'r cytundeb cyllideb rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mae'n dda gweld buddsoddiad parhaus yn y cynllun hwn. Fodd bynnag, a all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch faint o arian sydd wedi'i dynnu i lawr hyd yn hyn gan bob awdurdod lleol, a faint o gartrefi gwag sydd wedi cael eu haddasu er mwyn ailddechrau eu defnyddio? Ym mis Chwefror, gwnaethom arwain dadl yn galw am strategaeth gydlynol i gartrefi gwag, gan gynnwys swyddog cartrefi gwag cyfwerth ag amser llawn ym mhob awdurdod lleol, symleiddio'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gorchmynion rheoli anheddau gwag a gorchmynion prynu gorfodol, ac edrych ar gynllun cymhelliad i gynghorau lleol am ailddechrau defnyddio cartrefi sector preifat hirdymor, ymysg pethau eraill. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar hynny? Efallai y gallai'r Gweinidog tai wneud hynny rywbryd yn y dyfodol. Rwyf yn credu bod angen inni gael y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth benodol honno, ac am sut yr ydym yn ymdrin â'r mater hwnnw.

The housing revenue accounts subsidy system has been mentioned, and it has been welcomed. I noticed that the First Minister said that it would be incorporated in the housing Bill to be introduced in November, and I am pleased that we are able to work with the Government to facilitate talks with the Chief Secretary to the Treasury to enable that to happen. The £33 million coming back to Wales as a result of that will see at least 11 councils have substantial additional amounts of money against which they can borrow. I would like to see them use that money to bring houses up to date in terms of the Welsh housing quality standard. They can also use that money to build new homes, particularly one and two-bedroomed homes, which I hope that they are able to do as a result of those talks.

Mae system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai wedi cael ei chrybwyll, ac mae wedi cael ei chroesawu. Sylwais fod y Prif Weinidog wedi dweud y byddai'n cael ei hymgorffori yn y Bil tai a gyflwynir ym mis Tachwedd, ac rwyf yn falch ein bod yn gallu cydweithio â'r Llywodraeth i hwyluso trafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i alluogi hynny i ddigwydd. Bydd y £33 miliwn sy'n dod yn ôl i Gymru o ganlyniad i hynny'n golygu y bydd o leiaf 11 o gynghorau yn cael symiau ychwanegol sylweddol o arian y gallant fenthyca yn eu herbyn. Hoffwn eu gweld yn defnyddio'r arian hwnnw i ddiweddaru tai o ran safon ansawdd tai Cymru. Gallant hefyd ddefnyddio'r arian hwnnw i adeiladu cartrefi newydd, yn enwedig cartrefi un a dwy ystafell wely; rwyf yn gobeithio y gallant wneud hynny o ganlyniad i'r trafodaethau hynny.

We very much welcome the supplementary budget and the money that is being put into it. I look forward to scrutinising this further as we come to the budget itself.

Rydym yn croesawu'r gyllideb atodol a'r arian sy'n cael ei roi i mewn iddi'n fawr iawn. Rwyf yn edrych ymlaen at graffu ar hyn ymhellach wrth inni droi at y gyllideb ei hun.

20:20

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The First Minister spoke earlier about the importance of the Active Travel (Wales) Bill, and the benefits that it could accrue. Could the Minister for Finance clarify exactly where the money to implement the Active Travel (Wales) Bill lies? Is it within the £24.8 million revenue account for sport and physical activity in the Minister for sport's portfolio? Therefore, does it have to compete with money for sport? Or is it in the budget for sustainable transport, which has been transferred to the Minister for Economy, Science and Transport's portfolio? Would that £82.3 million be wholly for the Active Travel (Wales) Bill, or would it have to compete with funding for other issues?

Siaradodd y Prif Weinidog yn gynharach am bwysigrwydd y Bil Teithio Llesol (Cymru), a'r manteision y gallai eu rhoi. A allai'r Gweinidog Cyllid egluro'n union o ble y daw'r arian i roi'r Mesur Teithio Llesol (Cymru) ar waith? A ddaw o'r cyfrif refeniw £24.8 miliwn ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ym mhortffolio'r Gweinidog chwaraeon? Felly, a oes rhaid iddo gystadlu ag arian ar gyfer chwaraeon? Ynteu a ddaw o'r gyllideb ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy, sydd wedi'i throsglwyddo i bortffolio Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? A fyddai'r £82.3 miliwn hwnnw yn gyfan gwbl ar gyfer y Bil Teithio Llesol (Cymru), ynteu a fyddai'n rhaid iddo gystadlu â chyllid ar gyfer materion eraill?

20:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister for Finance to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i ymateb i'r ddadl.

20:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to respond to the points raised in the debate today, many of which reflect the recommendations made by the Finance Committee. I will start with the housing revenue account subsidy, and recognise that this was a major achievement. We are all in agreement that the transfer of council HRAS revenue to Treasury was unfair, and takes vital investment away from the local authority housing sector, as the Finance Committee recognised. That is why I was pleased to announce, alongside the Minister for Housing and Regeneration and the Chief Secretary to the Treasury, an agreement that would enable local authorities to exit the housing revenue account subsidy system in Wales. It means that, in future, 11 Welsh local authorities that still have housing stock will be in a similar position to stock-owning local authorities in England, where the HRAS system was replaced by self-financing arrangements in March 2012. I can assure Members that we have set up a steering group with a number of work streams to take forward technical aspects of the reforms. All those authorities are nominating a representative to this group to ensure that they are wholly involved in the process. In fact, the first meeting has already taken place. The buying will be manageable, because the agreement requires constant annual interest payments of £40 million each year. As Peter Black said, it will lead to a saving of £33 million each year. It will provide certainty for authorities to be able to spend money on improving tenants' homes. The Minister for housing will be updating Members in due course on developments.

Rwyf yn falch o ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y ddadl heddiw; mae llawer ohonynt yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaeth y Pwyllgor Cyllid. Rwyf am ddechrau gyda chymhorthdal y cyfrif refeniw tai, gan gydnabod bod hwn yn gyflawniad mawr. Rydym i gyd yn cytuno bod trosglwyddo refeniw HRAS y cyngor i'r Trysorlys yn annheg, ac yn cymryd buddsoddiad hanfodol oddi ar y sector tai awdurdodau lleol, fel y cydnabu'r Pwyllgor Cyllid. Dyna pam yr oeddwn yn falch o gyhoeddi, ochr yn ochr â'r Gweinidog Tai ac Adfywio a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, cytundeb a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i adael system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yng Nghymru. Mae'n golygu, yn y dyfodol, y bydd 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n dal yn berchen stoc dai mewn sefyllfa debyg i awdurdodau lleol sy'n berchen stoc yn Lloegr, lle cafodd y system HRAS ei disodli gan drefniadau hunangyllidol ym mis Mawrth 2012. Gallaf sicrhau Aelodau ein bod wedi sefydlu grŵp llywio gyda nifer o ffrydiau gwaith i ddatblygu agweddau technegol ar y diwygiadau. Mae'r holl awdurdodau hynny'n enwebu cynrychiolydd i'r grŵp hwn i sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn yn y broses. Yn wir, mae'r cyfarfod cyntaf eisoes wedi digwydd. Bydd y prynu yn hylaw, gan fod y cytundeb yn mynnu taliadau llog blynyddol cyson o £40 miliwn y flwyddyn. Fel y dywedodd Peter Black, bydd yn arwain at arbediad o £33 miliwn y flwyddyn. Bydd yn rhoi sicrwydd i awdurdodau y gallant wario arian ar wella cartrefi tenantiaid. Bydd y Gweinidog tai yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i Aelodau maes o law.

The use of financial transactions is important. I am glad to be able to respond to Paul Davies on this point. Work is under way to look at the range of options as to how we can use the financial transactions capital. We have been allocated the capital, which amounts to over £350 million over the next two or three years. However, our focus is on supporting initiatives that will have the biggest benefits for growth and jobs. One such initiative being considered is a shared equity scheme to boost the construction industry. However, any additional restrictions imposed by the Treasury on resources allocated to the Welsh Government are unwelcome. We continue to press for maximum flexibility to use resources in the way that makes the most sense for Wales, and we still await detailed information from the Treasury about how much of the financial transactions capital needs to be repaid and what the profile of repayments will be. The Minister for housing will be reporting back on that in due course.

Mae defnyddio trafodion ariannol yn bwysig. Rwyf yn falch o allu ymateb i Paul Davies ar y pwynt hwn. Mae gwaith ar y gweill i edrych ar yr amrywiaeth o opsiynau o ran sut y gallwn ddefnyddio'r cyfalaf trafodion ariannol. Mae'r cyfalaf wedi'i ddyrannu inni, ac mae'n cyfateb i dros £350 miliwn dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Fodd bynnag, rydym yn canolbwyntio ar gefnogi'r mentrau a fydd yn cael y budd mwyaf o ran twf a swyddi. Un fenter o'r fath sy'n cael ei hystyried yw cynllun rhannu ecwiti i roi hwb i'r diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, ni fyddem yn croesawu unrhyw gyfyngiadau ychwanegol gan y Trysorlys ar yr adnoddau a ddyrennir i Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i bwyso am gymaint â phosibl o hyblygrwydd i ddefnyddio'r adnoddau yn y ffordd sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr i Gymru, ac rydym yn dal i aros am wybodaeth fanwl gan y Trysorlys ynglŷn â faint o'r cyfalaf trafodion ariannol y mae angen ei ad-dalu a beth fydd proffil yr ad-daliadau. Bydd y Gweinidog tai yn adrodd yn ôl am hynny yn ei dro.

This takes me back to Mike Hedges's contribution and the fact that he welcomed the multi-million pound investment that this Welsh Labour Government has made in the twenty-first century schools programme, which consists of a partnership between the Welsh Government and local government. It was driven by Leighton Andrews and previous Ministers as well. It is clearly of benefit to our learners. It is about a Government choosing its priorities. A point was made earlier about other Governments—I think by Nick Ramsay—but I recall schools falling down in the Tory years, not schools being built, which is what this Welsh Labour Government is doing. Peter Black drew attention to schools falling down and that is why we decided to make it a priority for twenty-first century schools, against a backdrop of 40% cuts by the UK Government.

Mae hyn yn mynd â mi'n ôl at gyfraniad Mike Hedges a'r ffaith ei fod wedi croesawu'r buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd a wnaeth y Llywodraeth Llafur Cymru hon yn rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Cafodd ei harwain gan Leighton Andrews a gan Weinidogion blaenorol hefyd. Mae'n amlwg o fudd i'n dysgwyr. Mae'n dangos Llywodraeth sy'n dewis ei blaenoriaethau. Gwnaethpwyd pwynt yn gynharach am Lywodraethau eraill—gan Nick Ramsay, credaf—ond rwyf yn cofio ysgolion yn dymchwel yn ystod blynyddoedd y Toriaid, nid ysgolion yn cael eu hadeiladu, sef yr hyn y mae'r Llywodraeth Llafur Cymru hon yn ei wneud. Tynnodd Peter Black sylw at ysgolion yn dymchwel a dyna pam yr ydym wedi penderfynu gwneud hynny'n flaenoriaeth ar gyfer ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn erbyn cefndir o doriadau 40% gan Lywodraeth y DU.

Very quickly, because it has been a long session, this debate has been a very positive end to this session, in terms of much consensus around the Chamber about the importance of the supplementary budget. The Finance Committee has undertaken excellent scrutiny of the invest-to-save scheme. The Natural Resources Wales initiatives that are receiving invest-to-save support are very much in the spirit of the scheme, because those investments will result in improvements to public services, including the delivery of savings. Those savings can only be achieved if short-term financial support is provided. Just to tell Paul Davies, the estimated savings are projected at £158 million over a 10-year period for Natural Resources Wales, of which £128 million is cash releasing. That will come as a result of the sharing of resources and assets, primarily within back-office functions, such as human resources, finance and information technology. Invest-to-save is an appropriate form of support in these circumstances. It will be repaid when the savings are delivered. The alternative would be to grant-fund the work, but I do not believe that that would be the best use of our finite resources.

Yn gyflym iawn, oherwydd mae wedi bod yn sesiwn hir, mae'r ddadl hon wedi bod yn ddiweddglo cadarnhaol iawn i'r sesiwn hon, o ran y consensws cryf o gwmpas y Siambr am bwysigrwydd y gyllideb atodol. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gwneud gwaith craffu ardderchog ar y cynllun buddsoddi i arbed. Mae mentrau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cael cymorth buddsoddi i arbed yn bendant yn ysbryd y cynllun, gan y bydd y buddsoddiadau hynny'n arwain at welliannau i wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyflenwi arbedion. Rhaid darparu cymorth ariannol yn y tymor byr er mwyn sicrhau'r arbedion hynny. Dim ond i ddweud wrth Paul Davies, y rhagamcan o'r arbedion a amcangyfrifir yw £158 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd £128 miliwn o hynny'n rhyddhau arian parod. Daw hynny o ganlyniad i rannu adnoddau ac asedau, yn bennaf o fewn swyddogaethau cefn swyddfa, megis adnoddau dynol, cyllid a thechnoleg gwybodaeth. Mae buddsoddi i arbed yn fath priodol o gymorth dan yr amgylchiadau hyn. Caiff ei ad-dalu pan gaiff yr arbedion eu cyflawni. Y dewis arall fyddai ariannu'r gwaith drwy gyfrwng grant, ond nid wyf yn credu mai dyna fyddai'r ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig.

Finally, I would be very glad to have the opportunity to respond to the points raised regarding the use of section 128 in terms of Cardiff Airport. Let me put the record straight: I said in the committee, and that has been reported, that the Welsh Government laid a report in the Assembly on the use of the section 128 mechanism on 3 April this year, as required under the Government of Wales Act 2006. The report outlined the circumstances surrounding the purchase and the reasons for the use of that mechanism, and it stated that, for reasons of urgency, it was not practical to move a budget motion to authorise the payment. The purchase of the shareholding of Cardiff Airport marked the end of a lengthy negotiation, and it was important that all necessary due diligence procedures were completed. You would be the first to scrutinise if they were not. The final date of completion for both of those procedures and the negotiation could not be predicted with certainly. We are an agile and confident Welsh Government, Paul Davies, that is why we made the right decision—

Yn olaf, byddwn yn falch iawn o gael y cyfle i ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynghylch defnyddio adran 128 o ran Maes Awyr Caerdydd. Dewch imi egluro'r sefyllfa: dywedais yn y pwyllgor, ac mae hynny wedi ei adrodd, fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno adroddiad yn y Cynulliad am ddefnyddio mecanwaith adran 128 ar 3 Ebrill eleni, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd yr adroddiad yn amlinellu amgylchiadau'r pryniant a'r rhesymau dros ddefnyddio'r mecanwaith, ac yn nodi, gan ei fod yn fater brys, nad oedd yn ymarferol cyflwyno cynnig cyllideb i awdurdodi'r taliad. Roedd prynu cyfranddaliad Maes Awyr Caerdydd yn ddiweddglo i drafodaethau maith, ac roedd yn bwysig cwblhau'r holl weithdrefnau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol. Chi fyddai'r cyntaf i graffu pe na bai hynny'n digwydd. Nid oedd yn bosibl rhagfynegi'n fanwl gywir beth fyddai dyddiad terfynol cwblhau'r ddwy weithdrefn hynny a'r trafodaethau. Rydym yn Llywodraeth Cymru ystwyth a hyderus, Paul Davies, a dyna pam y gwnaethom y penderfyniad cywir—

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. There is a private conversation going on between one of your colleagues, Minister for Finance, and the leader of the opposition, and I want it to stop. The Minister is about to conclude.

Trefn. Mae sgwrs breifat yn digwydd rhwng un o'ch cydweithwyr, Weinidog Cyllid, ac arweinydd yr wrthblaid, ac rwyf am iddi ddod i ben. Mae'r Gweinidog ar fin cyrraedd ei gasgliad.

20:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Carl Sargeant has my best interests at heart, but mostly he has the best interests of the Welsh economy at heart, which is why we acquired Cardiff Airport and why we will respond to the Finance Committee's recommendation in terms of the future scrutiny of the use of section 128, which I gladly agree to.

Mae Carl Sargeant ar fy ochr i, ond yn bennaf mae ar ochr economi Cymru, a dyna pam y gwnaethom gaffael Maes Awyr Caerdydd a pham y byddwn yn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Cyllid am graffu ar ddefnyddio adran 128 yn y dyfodol; rwyf yn hapus i gytuno â hynny.

Let me finish this point: Cardiff Airport plays a crucial role in our economy, which is why, back in March, we moved to secure its future by acquiring its assets and operations. What is most important is that it is now being made a success because the experts are effectively and responsibly running it on behalf of the people and the economy of Wales.

Dewch imi orffen y pwynt hwn: mae Maes Awyr Caerdydd yn chwarae rhan hanfodol yn ein heconomi, a dyna pam, yn ôl ym mis Mawrth, y gwnaethom symud i sicrhau ei ddyfodol drwy gaffael ei asedau a'i weithrediadau. Y peth pwysicaf yw ein bod nawr yn sicrhau ei fod yn llwyddiant, gan fod yr arbenigwyr yn ei gynnal yn effeithiol ac yn gyfrifol ar ran pobl Cymru ac economi Cymru.

20:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is objection, therefore voting on this item will be deferred until voting time.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I proceed to take the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that no-one does, so we will move straight to the vote.

Bydd y cyfnod pleidleisio'n dilyn yn awr. Cyn imi fynd ymlaen i gymryd y bleidlais, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes neb, felly awn yn syth at y bleidlais.

## Cyfnod Pleidleisio

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5278

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

## Voting Time

Result of the vote on motion NDM5278

*Motion agreed: For 38, Against 0, Abstain 12.*

20:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 8.29 p.m.*

*The meeting ended at 8.29 p.m.*